# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 30 MEDI 2025 am 2.00 y. p.** | | **TUESDAY, 30 SEPTEMBER 2025 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),***
Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Paul Ellis, Kenneth Hughes

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, *2 x sedd wag*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2025.

4 **LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2024/25** (Tudalennau 17 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

6 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 37 - 44)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 **MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD ARCHWILIO MEWNOL SY'N WEDDILL** (Tudalennau 45 - 56)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **HUNAN-ASESIAD DRAFFT 2024/25** (Tudalennau 57 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2024/25** (Tudalennau 81 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

10 **CANLYNIADAU MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024-2026** (Tudalennau 99 - 114)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

11 **ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU CH1 2025/26** (Tudalennau 115 - 130)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**12** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 131 - 140)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**13** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 141 - 142)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**14** **ADRODDIAD DIOGELWCH SEIBER TGCH BLYNYDDOL 2024/25** (Tudalennau 143 - 158)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 16 Gorffennaf, 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Kenneth Hughes, Margaret M. Roberts.<br><br>Aelod Lleyg: William Parry. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglenni (GP)<br>Prif Swyddog Digidol (MH) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Cynorthwyydd Cymorth Gwasanaethau Democrataidd (Gweddarlledu) (CH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Keith Roberts, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), David Tomalin (Arweinydd Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddu (CSYM) (BHO), Rheolwr Cyllid (CSYM) (CK), Dadansoddwr Busnes Corfforaethol a Pherfformiad (IoACC) (AW). |

---

Nododd y Cadeirydd newid yn nhrefn y busnes i ddod ag eitem 10 ar yr agenda ymlaen (Trosolwg o'r Asesiad o Berfformiad y Panel a'r Themâu i'r Panel eu Hystyried) i'w hystyried yn syth ar ôl eitem 5 (Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2024/25).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau a gyflwynwyd.

**2. DATGAN BUDDIANT**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. HANES Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**4. LOG GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys log gweithredu'r

pwyllgor, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau y cytunwyd arnynt.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod eitem 18 ar y log gweithredu wedi'i chwblhau a bod eitemau 16 a 19 wedi'u gohirio tan fis Medi 2025 ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**Penderfynwyd nodi'r camau a nodwyd ar y log gweithredu a chadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod y camau wedi'u gweithredu'n foddhaol.**

## 5. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen yr adroddiad a baratowyd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Tynnodd sylw at yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor, gan dynnu sylw at y casgliadau a nodir ar dudalen 5. Mae'r rhain yn dangos sut mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cyd-fynd â'r egwyddorion hynny. Amlinellodd hefyd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â materion llywodraethu a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r heriau llywodraethu presennol a'r cynlluniau sydd ar waith i fynd i'r afael â nhw yn y flwyddyn i ddod.

Wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, cododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Awgrymwyd y byddai'r diweddariad am y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â materion llywodraethu o'r flwyddyn flaenorol yn elwa o gynnwys dangosyddion statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) ar gyfer pob mater i helpu i ddadansoddi'r cynnydd yn fwy effeithiol.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen y byddai'r datganiad yn cael ei newid i gynnwys gwybodaeth statws RAG cyn ei gwblhau.

- Nododd y pwyllgor fod yr adolygiad yn dod i'r casgliad, o dan egwyddor F (Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus) bod gan y Cyngor system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd bod y casgliad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth.

  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen fod proses rheoli perfformiad y Cyngor yn cael ei chydnabod yng Nghynllun y Cyngor a'i bod yn cael ei hystyried yn broses gadarn. Mae elfennau allweddol y broses hon yn cynnwys monitro chwarterol o'r cerdyn sgorio corfforaethol gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith, trosolwg rheolaidd o gynlluniau busnes gwasanaethau, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n cael ei adolygu a'i fonitro gan Fwrdd y Rhaglen a'r Hunanasesiad Blynyddol statudol a gynhelir gan y Cyngor. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen fod yr hunanasesiad ar gyfer 2024/25 wedi'i gwblhau'n ddiweddar, ac y bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r pwyllgor hwn ac i'r Pwyllgor Gwaith i roi sicrwydd ynghylch perfformiad gwasanaethau'r Cyngor.

- O ran y materion llywodraethu a nodwyd ar gyfer 2024/25, gofynnodd y pwyllgor a fyddai'n fwy effeithiol rhoi blaenoriaeth i'r materion a restrwyd, yn hytrach nag amserlennu'r cyfan i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

DRAFT

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen, er bod materion llywodraethu yn aml yn gofyn am sylw hirdymor, bwriedir mynd i'r afael â'r camau gwella a nodwyd ar gyfer 2024/25 o fewn y flwyddyn ariannol bresennol. Cadarnhaodd y byddai'n rhoi diweddariad canol blwyddyn i'r pwyllgor i gynnig sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud ar y camau hyn.

- O ran materion llywodraethu o'r flwyddyn flaenorol, nododd y pwyllgor mai canran cadw staff ar gyfer 2024/25 yw 82%. Mynegodd y pwyllgor bryder fod cyfradd gadael o 18% yn ymddangos yn uchel a gofynnwyd pa gyfran o'r ffigur hwn oedd yn briodol i golli staff yn naturiol yn hytrach na staff sy'n gadael am well cyfleoedd mewn mannau eraill.

  Cydnabu'r Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol nad oedd y wybodaeth ar gael ganddo ar hyn o bryd ond ymrwymodd i gael y data perthnasol ar gyfer y pwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai fod y mater hwn wedi'i godi yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Gwaith ar y cerdyn sgorio corfforaethol. Nododd y gallai'r ganran a adroddwyd gynnwys staff sydd wedi symud i rolau eraill o fewn y Cyngor, a allai ystumio'r ffigur gadael cyffredinol. Tynnodd sylw at bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng staff sy'n trosglwyddo'n fewnol a rhai sy'n gadael i swyddi allanol er mwyn rhoi darlun cywirach.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2024/25.**

**Camau Gweithredu Ychwanegol –**

- **Fersiwn derfynol y datganiad i gynnwys dangosyddion statws RAG ar gyfer y materion llywodraethu a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol.**
- **Bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd trwy broses asesu 2024/25 yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025.**
- **Bydd aelodau'r pwyllgor yn cael dadansoddiad o gyfradd staff sy'n gadael, gan gynnwys dadansoddiad o symudiadau mewnol yn hytrach na rhai sy'n gadael i swyddi allanol.**

**6. DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor. Nodwyd bod y ffigurau heb eu harchwilio ac felly y gallant newid. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar ôl cwblhau'r archwiliad allanol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi amserlen archwilio ddiwygiedig ond gan nad yw'r dyddiadau cau diwygiedig hyn wedi'u cynnwys yn y rheoliadau, rhaid i bob cyngor gyhoeddi hysbysiad yn tynnu sylw at yr oedi wrth gyhoeddi a'r rhesymau dros hynny. Llofnodwyd y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2024/25 gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor – y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar 30 Mehefin 2025 a dechreuodd yr archwiliad allanol ar 1 Gorffennaf gyda'r nod o gymeradwyo'r cyfrifon terfynol erbyn 31 Hydref 2025. Diolchodd y Swyddog Adran 151 i dîm Gwasanaethau Cyfrifyddu'r Cyngor am ei waith caled i gwblhau'r cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin.

Tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw'r pwyllgor at newid yn y modd yr ymdrinnir ag asedau ar brydles yn dilyn adolygiad o'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. Mae angen cyfrif am brydlesi bellach fel pe baent yn cael eu hariannu trwy fenthyca, sydd â goblygiadau ar gyfer cyflwyno'r Fantolen ac ar gyfer ffigurau benthyca a adroddir gan y Cyngor. Darparodd grynodeb o'r prif ddatganiadau ariannol sydd yn y cyfrifon. Mae'r Datganiad

Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn dangos cyfanswm yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ar draws yr holl wasanaethau, yn seiliedig ar safonau cyfrifyddu ac mae'n cynnwys eitemau technegol fel dibrisiant a chostau pensiwn gwasanaethau presennol ac yn y gorffennol nad ydynt yn cael eu hariannu gan grantiau na threthiant lleol. Mae'r CIES yn dangos gwarged cyfrifyddu net o £45m am y flwyddyn. Ar ôl i'r addasiadau gael eu cymhwyso fel y manylir yn Nhabl 1 yr adroddiad a Nodyn 6 o'r cyfrifon, mae'r gwarged, sy'n cael ei ychwanegu i gronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor, yn gostwng i £3.741m. Mae'r CIES a'r addasiadau yn Nodyn 6 wedi'u dwyn ynghyd yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn i ddangos balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2025. Rhoddodd y Swyddog Adran 151 drosolwg o'r nodiadau i'r datganiadau ariannol hefyd a phwysleisiodd y rhai a allai fod yn ddefnyddiol i'r pwyllgor wrth adolygu'r cyfrifon gan gynnwys cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, gwariant cyfalaf a chyllid, darpariaethau, gwariant ac incwm a ddadansoddir, incwm grantiau, pensiynau, atebolrwydd amodol ac asedau, a thrafodion partïon cysylltiedig.

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan y pwyllgor, rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 eglurhad pellach fel a ganlyn –

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Safle Gwastraff Penhesgyn yn ymwneud ag ôl-ofal yr ardaloedd o'r safle a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer tirlenwi a chynnal a chadw'r cylfat o dan y safle. Mae'n cynnwys costau posibl a allai godi pe bai'r cylfat yn ddiffygiol. Mae arolygiad arbenigol blynyddol yn asesu'r risgiau, y costau posibl a pha mor ddigonol yw'r ddarpariaeth.

- Mae'r taliad o £5.7m i Gyngor Gwynedd o dan Bartïon Cysylltiedig yn cynnwys taliad am wasanaethau o dan gytundebau ar y cyd, yn enwedig ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- Mae'r £67.607m ar gyfer incwm y Dreth Gyngor (Nodyn 12) yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a chynghorau tref a chymuned ac mae'n adlewyrchu'r debyd a godwyd yn hytrach na'r swm a gyllidebwyd. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar y sylfaen dreth sy'n is i gyfrif am newidiadau yn ystod y flwyddyn a dyled heb ei gasglu. Mae'r cynnydd o £59m yn 2023/talu premiwm y Dreth Gyngor. Derbyniwyd incwm ychwanegol yn hwyr yn 2024/25 ar ôl ailddosbarthu tua 200 - 250 o eiddo hunanarlwyo o ardrethi busnes i'r dreth gyngor safonol oherwydd newidiadau yn y trothwyon cymhwyso gan ddod yn atebol hefyd am dalu'r premiwm. Cafodd rhai eiddo a drosglwyddwyd eu hôl-ddyddio i Ebrill 2023. Cyfrannodd hyn at y cynnydd o 13% yn incwm y Dreth Gyngor yn 2024/25.

- Mewn perthynas â Nodyn 39 (y Dreth Gyngor) a'r gymhareb rhwng pobl ac eiddo, mae cyfanswm nifer yr eiddo ar Ynys Môn oddeutu 35,000, ac mae dros 2,500 ohonynt yn ail gartrefi heb breswylwyr parhaol. Heb gyfri'r rhain, mae'n dod i gyfanswm o 32,500. Yn ogystal â hyn, mae 11,000 -12,500 o aelwydydd yn hawlio gostyngiad person sengl sy'n adlewyrchu cynnydd mewn aelwydydd person sengl. O ran dysgu o'r data hwn neu ei feincnodi gyda chynghorau eraill sydd â phroffil tebyg i Ynys Môn, defnyddir cyfran cyfwerth â Band D i gymharu cyfraddau'r dreth gyngor ar draws awdurdodau. Fodd bynnag, mae gan rai cynghorau, yn enwedig yn Ne Cymru, gyfraddau treth gyngor Band D uwch nag Ynys Môn oherwydd nifer uwch o eiddo Band A a B. Gall yr achosion o ail gartrefi hefyd ystumio'r gymhariaeth.

- O ran cynllun pensiwn Llywodraeth Leol, er bod y gronfa bensiynau yn dangos sefyllfa asedau net o £139m (ac eithrio buddion heb eu hariannu), mae rheolau cyfrifyddu yn ein hatal rhag cydnabod y gwarged hwn ar y fantolen oherwydd na all y Cyngor ei ddefnyddio na'i wario. Felly, mae uchafswm asedau o £139m wedi'i gymhwyso gan leihau'r ased i sero ar y fantolen. Yn ogystal â hyn, ni ellir gwrthbwyso rhwymedigaethau pensiwn heb

eu hariannu yn erbyn yr ased pensiwn net sy'n arwain at rwymedigaeth pensiwn net o £9m er gwaethaf perfformiad cadarnhaol gan y gronfa bensiynau yn 2024/25.

Cwestiynodd y pwyllgor werth y Datganiad Cyfrifon o ran rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ehangach am wariant y Cyngor. Er enghraifft, cyfeiriwyd at y datganiad llif arian sy'n dangos gwarged net o £38m ar ddarparu gwasanaethau – cynnydd o £12m yn 2023/24 a nodwyd oedd yn anodd ei gysoni â phwysau gwasanaethau parhaus a'r argyfwng costau byw. Awgrymwyd y dylid cyflwyno gwybodaeth allweddol o'r cyfrifon ar ffurf gryno, haws i'r cyhoedd ei deall.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Datganiad yn ddogfen gymhleth a thechnegol sy'n cael ei pharatoi yn unol â rheoliadau cyfrifyddu ac sy'n anodd i'r cyhoedd ei dehongli. I'r gwrthwyneb, mae'r adroddiadau trosolwg rheolaidd o'r gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith yn haws eu deall ac yn fwy effeithiol wrth helpu'r cyhoedd i fonitro perfformiad ariannol a gwasanaethau'r Cyngor.

Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'r pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan staff y gwasanaeth Cyfrifyddu i sicrhau bod y cyfrifon drafft wedi'u cwblhau'n brydlon.

**Penderfynwyd nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2024/25.**

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys adolygiad blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 drosolwg o'r pwyntiau allweddol fel a ganlyn –

- Cyllideb gwariant cyfalaf ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 oedd £78.3m. Mae'r Cyngor wedi cadw at strategaeth o ddefnyddio ei gronfeydd arian parod wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf ac i osgoi benthyca allanol er mwyn lleihau taliadau llog. Rhagwelir y bydd angen benthyca yn nes at ddiwedd 2025/26. Disgwylir i gyfraddau llog ostwng yn ystod 2025/26 a 2026/27 felly bydd benthyca allanol yn cael ei ohirio cyn hired â phosibl er mwyn osgoi ymrwymo i gyfraddau llog uwch. Os byddwn yn benthyca, bydd ar sail tymor byr gyda'r bwriad o ail-ariannu pan fydd cyfraddau llog yn is.
- Yn ystod 2024/25, derbyniwyd benthyciad terfynol o £908k y cytunwyd arno'n flaenorol gan Salix. Nid oedd unrhyw fenthyciadau allanol eraill. Ad-dalwyd dau fenthyciad BBGC cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn fel y manylir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.
- Fe wnaeth y buddsoddiadau mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, cyfrifon galw a chyfrifon cyfredol gynhyrchu £1.55m o log. Ar ôl trosglwyddo llog i ddeiliaid bondiau a mân ymddiriedolaethau, cynhyrchodd y buddsoddiadau £866k o log ar gyfer y gronfa gyffredinol, o'i gymharu â chyllideb o £670k, £382k ar gyfer y CRT, o'i gymharu â chyllideb o £400k, a £212k ar gyfer ysgolion.
- Cydymffurfiwyd â'r holl ddangosyddion rheoli'r trysorlys a'r terfynau awdurdodedig a nodir yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25 fel y dangosir yn Nhabl 7 yr adroddiad.

Nododd y pwyllgor yr adroddiad a chroesawodd y ffurf symlach.

**Penderfynwyd nodi adroddiad Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25 ac anfon yr adroddiad at y Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ychwanegol.**

## 8. DIWEDDARIAD ARCHWILIAD MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi diweddariad ar 30 Mehefin, 2025 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 31 Mawrth 2025 i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith presennol y tîm Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig yn y dyfodol. Darparwyd copïau o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod mewn perthynas â Chyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol – Gofal Preswyl a Nyrsio (Sicrwydd Cyfyngedig), Sylfaen y Dreth Gyngor (Sicrwydd Rhesymol), Archwiliad TG: Rheoli Desg Wasanaeth TG (Sicrwydd Rhesymol), ac Archwilio TG: Rheoli Cyflenwyr TG (Sicrwydd Dilynol Cyntaf) (Sicrwydd Cyfyngedig).

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r ddau adroddiad archwilio a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a oedd yn cynnig sicrwydd rhesymol. O ran y ddau adolygiad archwilio sicrwydd cyfyngedig, dywedodd, tra bod yr adolygiad o asesiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi dod i'r casgliad, er bod y Cyngor wedi cymryd camau i wella'r broses o godi ac adennill ffioedd cartrefi gofal preswyl, nid yw'r buddion hyn i'w gweld eto ac mae dal angen mynd i'r afael â heriau pwysig, yn enwedig ynghylch ôl-groniad o achosion ac anghysondebau mewn prosesau. Mae cynllun gweithredu ar waith sy'n anelu at ddatrys hyn erbyn mis Mawrth 2026 a bydd adolygiad dilynol yn cael ei gynnal ym mis Awst 2025. O ran Adolygiad Dilynol Cyntaf Rheoli Cyflenwyr TG, er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gweithredu, mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu yn parhau i fod ar y gweill o dan y Rhaglen Gwella Caffael ehangach ac mae'n dal yn rhy fuan i werthuso eu heffaith. Mae adolygiad dilynol pellach wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2025 i asesu cynnydd parhaus ac effeithiolrwydd y mesurau a weithredwyd.

Canolbwyntiodd trafodaeth y pwyllgor ar y ddau adroddiad adolygu sicrwydd cyfyngedig a chodwyd y materion canlynol –

- Nododd y pwyllgor fod buddsoddiad ychwanegol wedi'i wneud mewn Gwasanaethau Oedolion yn y blynyddoedd blaenorol i fynd i'r afael â'r galw cynyddol. Gofynnwyd a oedd y cyllid hwn wedi'i ddefnyddio'n effeithiol. O ran yr anghysondebau a nodwyd mewn prosesau, gofynnodd y pwyllgor ai'r rheswm am y rhain oedd diffyg atebolrwydd unigol, lefel annigonol o reoli goruchwyliaeth neu ddiffyg systemau i dynnu sylw at fethiannau posibl.

  Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod cael gwybodaeth ariannol cleientiaid a sicrhau taliadau yn aml yn digwydd yn ystod cyfnodau anodd yn eu bywydau. Nid yw'r wybodaeth hon bob amser ar gael yn rhwydd, gall gymryd amser i'w chael ac mae unigolion weithiau'n ansicr am yr hyn y gallant ei rannu. Mae'r broses yn cael ei chymhlethu ymhellach gan nifer y cleientiaid sydd â dementia. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd y gwasanaeth yn adfer y drefn o ymweld â chleientiaid i gasglu'r wybodaeth ariannol angenrheidiol yn brydlon er mwyn gallu cwblhau asesiadau yn amserol. Mae'r tîm, er ei fod yn fach, yn rheoli achosion cymhleth ac unigol. Mae prosesau wedi'u cryfhau i wella cywirdeb a pha mor llawn yw'r wybodaeth o'r cychwyn cyntaf, ac mae polisïau a dogfennau wedi'u hadolygu yn unol â hynny. Er bod y tîm wedi derbyn adnoddau ychwanegol eleni, roedd wedi colli aelodau o staff cyn hynny ac mae effaith hynny'n dal i gael ei deimlo. Amharwyd ymhellach ar y drefn o gasglu gwybodaeth gan bandemig Covid ac mae rhywfaint o'r dyledion sy'n weddill yn deillio o'r cyfnod hwnnw. Er gwaethaf yr heriau hyn a'r amwysedd ar adegau ynghylch cyfrifoldebau talu ac osgoi taliadau, mae'r gwasanaeth yn parhau i ymrwymo i welliannau parhaus.

  Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, yn dilyn adolygiadau archwilio, fod dwy swydd dros dro wedi'u hychwanegu at y Tîm Casglu ac Adennill Dyledion sy'n canolbwyntio ar glirio'r ffioedd gofal preswyl a nyrsio sy'n dal heb eu talu. Fel rhan o'r broses adennill dyledion, mae'r rhesymau dros daliadau heb eu

DRAFT

casglu yn cael eu harchwilio i fireinio gweithdrefnau a lleihau swm y ddyled sydd wedi'i dileu. Mae'r dyledion hyn ymhlith y mwyaf sy'n wynebu'r Cyngor ac maent yn arbennig o heriol i'w hadennill oherwydd natur sensitif achosion, bregusrwydd cleientiaid ac amgylchiadau cymhleth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y pwyllgor ynghylch pa mor hyderus ydyn nhw y byddan nhw'n bodloni dyddiadau cau'r cynllun gweithredu, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai'r nod yw datrys materion yn gynnar er mwyn osgoi oedi yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth yn hyderus, gyda sefydlogrwydd ymysg staff, y gellir gwneud cynnydd ystyrlon. Mae gwelliannau sydd eisoes wedi'u gweithredu, gan gynnwys dogfennau polisi diwygiedig wedi gwneud trefniadau'n fwy cadarn. Fodd bynnag, mae newidiadau parhaus yn dod â heriau newydd fel digideiddio gwybodaeth, sy'n golygu nad ydynt ar gael mor hwylus o gymharu â chofnodion papur. Yn ogystal â hyn, pan fo cleientiaid yn aros am gyfnodau byrrach mewn gofal preswyl mae llai o amser ar gyfer datrys problemau.

Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymhellach, er bod rhagamcanion yn Chwarter 3 yn rhagweld y byddan nhw'n adennill y costau ar gyfer cyllideb Gwasanaethau Oedolion, daeth y flwyddyn i ben gyda thanwariant sylweddol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd incwm ychwanegol o anfonebau a godwyd ar ôl prosesu rhywfaint o'r ôl-groniad o asesiadau cleientiaid, ac mae'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed.

- Rhoddodd y Prif Swyddog Digidol ddiweddariad ar y cynnydd yn dilyn Adolygiad Dilynol Cyntaf Rheoli Cyflenwyr TG, gan nodi bod gwelliannau wedi'u gwneud wrth strwythuro'r dull tuag at nodi anghenion prosiectau digidol ac ymgorffori prosesau asesu yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Bydd y datblygiadau hyn yn integreiddio â'r bwrdd adolygu caffael arfaethedig a fydd yn goruchwylio cynigion caffael ac yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal cyn unrhyw wariant ar brosiectau. Mewn ymateb i gwestiwn gan y pwyllgor ynghylch ddigonolrwydd adnoddau, eglurodd mai mater o gydbwyso llwythi gwaith ydyw'n bennaf. Er bod y gwasanaeth wedi derbyn adnoddau ychwanegol dros y blynyddoedd diwethaf sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol, mae'n parhau i weithio trwy nifer sylweddol o brosiectau sy'n cronni. Felly, mae'n hanfodol bod prosiectau'n cael eu blaenoriaethu. Er y byddai adnoddau pellach yn fuddiol, y dull yw canolbwyntio ar nodi a symud ymlaen â'r prosiectau digidol mwyaf gwerthfawr yn strategol.

  Pan ofynnodd y pwyllgor a fydd y rhaglen gwella caffael yn helpu i ddatrys y problemau o ran rheoli cyflenwyr TG, dywedodd y Swyddog Adran 151 bod yn rhaid i'r Pwyllgor Gwaith yn y pen draw benderfynu a ddylid blaenoriaethu'r Gwasanaeth Caffael ar gyfer adnoddau ychwanegol. Mae'r Rheolwr Caffael Dros Dro yn adolygu prosesau a strwythurau caffael ar hyn o bryd a'r prif argymhelliad yw y dylai'r gwasanaeth caffael fod yn rhan gynharach o brosiectau. Byddai hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth caffael gynllunio a chyfeirio adnoddau yn well lle mae eu hangen fwyaf, yn enwedig ar gyfer prosiectau untro a'r rhai sy'n cael eu harwain gan unigolion sy'n llai cyfarwydd ag arferion caffael. Bydd achos yn cael ei wneud am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r tîm caffael corfforaethol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth gaffael newydd a buddsoddi mewn uwchraddio systemau i wella ymarferoldeb. Amlinellodd y Swyddog Adran 151 hefyd y gwahaniaethau rhwng caffael gwaith a gwasanaethau a phwysigrwydd sicrhau gwerth am arian a chynnwys ystyriaethau gwerth cymdeithasol.

- Holodd y pwyllgor a yw'r cynllun gweithredu wedi'i gynllunio i ddod â chaffael i'r lefel y mae'r Cyngor yn anelu ati yn fewnol neu i'r lefel pan gaiff ei feincnodi yn erbyn cyrff cyhoeddus eraill.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y rhan fwyaf o gamau rheoli yn deillio'n bennaf o'r rhaglen Gwella Star Procurement a oedd i fod i baratoi'r Cyngor ar gyfer y Ddeddf

Caffael newydd. Roedd yr archwiliad gwreiddiol o reoli cyflenwyr TG yn cydnabod na ellid mynd i'r afael â'r materion ar wahân i fframwaith caffael ehangach y Cyngor. O ganlyniad, mae camau gweithredu yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar yr hyn sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r camau a nodwyd fod yn rhai y gellir eu cyflawni sy’n golygu lliniaru yn hytrach na dileu risg yn ôl capasiti ac adnoddau.

**Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith y tîm Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'i flaenoriaethau yn y dyfodol.**

## 9. GWEITHREDU SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG NEWYDD SECTOR CYHOEDDUS Y DU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd Sector Cyhoeddus y DU i'w ystyried gan y pwyllgor. Atodwyd cynllun gweithredu sy'n manylu ar y gwaith pellach sydd ei angen i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r safonau yn Atodiad A i'r adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod dadansoddiad bwlch a gynhaliwyd yn erbyn y safonau newydd wedi dangos bod swyddogaeth archwilio mewnol y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion newydd yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen cryfhau rhai meysydd. Bydd yn mynd i'r afael â’r rhain drwy'r cynllun gweithredu gweithredol a amlinellir yn Atodiad A. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn ymwneud â chryfhau’r drefn o gasglu tystiolaeth i gefnogi arferion gwaith. Darperir trosolwg o'r camau gweithredu sydd eisoes wedi'u gweithredu yn adran 3 o'r adroddiad.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fodlon y bydd y camau sydd wedi'u cymryd ac y bwriedir eu cymryd yn helpu i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd Sector Cyhoeddus y DU.**

## 10. TROSOLWG O'R BROSES ASESIAD PERFFORMIAD PANEL A'R THEMÂU I’R PANEL EU HYSTYRIED

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn rhoi trosolwg o'r broses Asesiad Panel Perfformiad a'r themâu i'r Panel eu hystyried er gwybodaeth i'r pwyllgor.

**Penderfynwyd nodi'r themâu y gofynnir i'r Asesiad Perfformiad Panel eu hystyried fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

## 11. ADOLYGIAD O'R BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y blaenraglen waith ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Dywedodd Pennaeth Archwilio a Risg fod yr Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol 2024/25 wedi'i ohirio i'r cyfarfod ym mis Medi. Gan fod nifer o eitemau bellach wedi'u trefnu ar gyfer y cyfarfod hwnnw, awgrymodd y byddai, gyda chaniatâd y pwyllgor, yn ceisio symud rhai eitemau i'r cyfarfod arbennig y bwriedir ei gynnal ym mis Hydref. Mae dyddiad cyfarfod mis Hydref i'w gadarnhau ac mae'n dibynnu ar gwblhau'r archwiliad allanol o'r cyfrifon.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Blaenraglen Waith ar gyfer 2025/26 yn bodloni cyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl a chytuno bod Pennaeth Archwilio**

DRAFT

**a Risg yn gohirio eitemau penodol o gyfarfod mis Medi i gyfarfod Hydref 2025 fel y bo'n briodol.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 27/06/24 | 9 | Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad sosio-economaidd o boblogaeth yr ynys, mae hyn yn cynnwys anweithgarwch economaidd, cyflwynwyd adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024.<br><br>Mae adroddiad ar gyfer yr ynys gyfan hefyd ar y gweill a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. | Ar y gweill. |
| | 05/12/24 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 (Eitem 3), cytunodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen i roi dolen i'r pwyllgor i gael mynediad at adroddiad dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac effaith Quod Môn pan gaiff ei gyhoeddi. | |
| | 08/05/25 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad gan y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Gorfforaethol bod dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod Ynys Môn wedi'i gwblhau ond nad yw wedi'i gyhoeddi eto. | |
| | 26/06/25 | 4 | | | DIWEDDARIAD: Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried sut i gyfathrebu a rhannu'r adroddiad. | |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 19/09/24 | 5 | Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor i gynnwys gwybodaeth amlwg am bryderon a chwynion defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i ohirio tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Medi i gyd-fynd â llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025. |
| 18 | 19/09/24 | 6 | Mae'r adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol i'w adolygu er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder pendant. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Yn dilyn trafodaethau gyda'r cadeirydd, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 adroddiad diwygiedig i gyfarfod y pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2025. | Wedi ei gwblhau. |
| 19 | 05/12/24 | 5 | Darperir diweddariad ar gynnydd y mesurau a nodwyd i ddarparu penderfyniadau i'r Pwyllgor maes o law. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Bydd pryderon a godwyd gan wasanaeth ynghylch y CRM yn gofyn am addasiadau pellach, ond ar hyn o bryd mae'r gallu i'w gweithredu yn gyfyngedig. Gall y sefyllfa heb ei llenwi hefyd gyfyngu diweddariad ystyrlon. Felly, bydd diweddariad cynnydd yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad cwynion blynyddol nesaf, ym mis Gorffennaf 2025, gan ganiatáu i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth cyn y llythyr CCC blynyddol nesaf.<br><br>DIWEDDARIAD: Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i ohirio tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Medi i gyd-fynd â llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | 05/12/24 | 11 | Ar gyfer adroddiadau monitro archwilio allanol a rheoleiddwyr yn y dyfodol, bydd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn cyd-fynd â diweddariadau ar gynnydd yr ymatebion i argymhellion. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | Mae'r adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. |
| 24 | 08/05/25 | 9 | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddaru'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot. | Ar y gweill. |
| | 26/06/25 | 4 | | | DIWEDDARIAD: Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi drafft yn ei gyfarfod ar 17/06/25 ac wedi gofyn iddo gael ei adolygu ymhellach. | |
| 25 | 16/07/25 | 5 | Y fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gynnwys dangosyddion statws CAG ar gyfer y materion llywodraethu a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | Disgwylir i'r fersiwn derfynol ym mis Hydref 2025 |
| 26 | 16/07/25 | 5 | I'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd trwy broses asesu 2024/25 yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | Rhagfyr 2025 |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | 16/07/25 | 5 | Dylid darparu dadansoddiad o gyfradd gadael staff i aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys dadansoddiad o symudiadau mewnol yn hytrach nag ymadawiadau allanol. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2024-25 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>ChristianBranch@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch<br>StephenNicoll@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad sicrwydd blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (3.4.8.7.3) wrth ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor yn ehangach (3.4.8.7.1). Wrth ystyried yr adroddiad bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu (3.4.8.7.2). Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd gadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr (3.4.8.8.1). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Cyngor, hyd at 31 Mawrth 2025, ar weithgareddau'r Cyngor yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ystod 2024-25.

1.2 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys dadansoddiad o ddamweiniau a digwyddiadau a llwyddiannau allweddol. Mae hefyd yn nodi'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried a yw gweithgareddau'r Cyngor yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.
- Derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol.

# Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch y Cyngor 2024 / 25

Amlinelliad o berfformiad y Cyngor o safbwynt iechyd a diogelwch

CYNNWYS

**Crynodeb Gweithredol** ..... 3

1. **Cyflwyniad** ..... 4
2. **Prif Lwyddiannau** ..... 4
3. **Rheolaeth Gorfforaethol** ..... 4
4. **Gwybodaeth Ystadegol** ..... 4
5. **Partneriaethau** ..... 12
6. **Ymgynghori ar y Cyd** ..... 13
7. **Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol** ..... 13
8. **Perfformiad Diogelwch** ..... 13
9. **Cynllun Gweithredu Strategol** ..... 15
10. **Casgliad** ..... 17
11. **Argymhelliad** ..... 17

**Atodiad** ..... 18

**Crynodeb Gweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2024/25 o safbwynt iechyd a diogelwch.

Yn ystod 2024/25 cofnodwyd pob math o ddamweiniau a digwyddiadau ledled gwasanaethau'r Cyngor, rhai'n Fân ddigwyddiadau ac eraill yn ddigwyddiadau Difrifol neu'n rhai yr oedd yn rhaid rhoi gwybod amdanynt o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Mae'r data'n amlygu'r meysydd pryder allweddol a'r ffocws gweithredol, yn enwedig yn yr amgylchedd Addysg a Gofal.

Mae data diweddar gan y cyngor yn amlygu tuedd bryderus o gynnydd mewn achosion o drais ac aflonyddu tuag at staff, gan gynnwys bygythiadau llafar ac ymddygiad brawychus. Ynghyd â chynnydd sylweddol mewn ymosodiadau corfforol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r patrwm hwn yn tanlinellu'r angen brys i gryfhau mesurau diogelu ar gyfer disgyblion a chydweithwyr rheng flaen. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn codi ystyriaethau allweddol o ran lles staff, gwydnwch gweithredol, a darpariaeth ddiogel gwasanaethau cyhoeddus.

## 1. Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau fel cymorth ar gyfer adrodd ar berfformiad ym maes iechyd a diogelwch. Nid yw’n fwriad i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond fe ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 2. Prif Lwyddiannau

Yn ystod cyfnod o bwysau ariannol ar draws cymdeithas ac o fewn yr hinsawdd economaidd ehangach, mae parhad darpariaeth gwasanaethau gan y Cyngor wedi bod yn hanfodol. Mae’r gallu i gynnal y gwasanaethau hynny tra’n sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn gyflawniad sylweddol.

Mae nifer y digwyddiadau sy’n ymwneud ag aelodau o’r cyhoedd sy’n defnyddio adnoddau a weithredir gan y Cyngor wedi gostwng. Wrth ystyried cyfanswm y defnyddwyr, mae’r gyfradd digwyddiadau yn parhau’n isel iawn.

Un o’r prif lwyddiannau yn ystod y flwyddyn oedd llwyddo i recriwtio aelod newydd o’r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Roedd gan y Tîm lai o gapasiti oherwydd bod un swydd yn wag. Roedd yn bwysig recriwtio aelod newydd o’r staff er mwyn sicrhau bod y Cyngor cyfan yn derbyn cefnogaeth. Roedd llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn yn tipyn o gamp.

Fe ddylai’r Grŵp Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch, sydd wedi cael ei ailsefydlu, helpu i wella cyfathrebu, cydlyniad a chydweithrediad ar draws yr holl Wasanaethau.

## 3. Rheolaeth Gorfforaethol

Mae’r Tîm Arweinyddiaeth (TA) yn parhau i ddarparu parhad a llywodraethiant i’r Cyngor o safbwynt rheolaeth a chamau gweithredu cyffredinol, ac mae penderfyniadau’n dal i gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith. Cefnogwyd hyn drwy gyfarfodydd o’r Tîm Rheoli Corfforaethol er mwyn galluogi i unrhyw faterion gael eu dwyn gerbron y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod camau’n cael eu cymryd i’w datrys.

## 4. Gwybodaeth Ystadegol

Mae’r data a gyflwynir isod yn ymwneud â’r holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2024/25, 23/24 ac 22/23. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu categoreiddio mewn tri phrif grŵp – Mân, Difrifol a RIDDOR.

Mae **mân ddamweiniau a digwyddiadau** yn ddamweiniau/digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu’r golled yn sylweddol. Mae hynny’n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd neb wedi cael anaf neu golled, a phe bai anaf neu golled wedi digwydd ni fyddai’r canlyniadau wedi bod yn sylweddol.


Mae **damweiniau/digwyddiadau difrifol** yn cynnwys y rheini a arweiniodd at anaf neu golled sylweddol neu lle'r oedd posibilrwydd o anaf neu golled o’r fath. Mae hynny’n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafodd neb anaf neu golled, ond lle gallai’r canlyniad fod wedi bod yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

Mae **damweiniau a digwyddiadau RIDDOR** yn ddamweiniau a digwyddiadau sydd yn cwrdd â meini prawf penodol ac mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r meini prawf ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau o’r fath i’w gweld yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus.

Mae graff 1 isod yn dangos nifer y damweiniau a’r digwyddiadau yn yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â’r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau a staff.


**Yr holl ddigwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt**

**Graff 1 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2024/25**




| |
|---|
| **Digwyddiadau a Gofnodwyd yn 2024/25** |
| **Cyfanswm 1362** |
| **Mân 1122** |
| **Difrifol 237** |
| **RIDDOR 3** |

**Graff 2 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2023/24**




| |
|---|
| **Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2023/24** |
| **Cyfanswm 1675** |
| **Mân 1323** |
| **Difrifol 341** |
| **RIDDOR 11** |

**Graff 3 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2022/23**




| |
|---|
| **Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2022/23** |
| **Cyfanswm 1237** |
| **Mân 884** |
| **Difrifol 240** |
| **RIDDOR 11** |

Wrth ddadansoddi graffiau 1, 2 a 3 gwelir cynnydd yn nifer y damweiniau a digwyddiadau a gofnodwyd yn 2024/25 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Credir bod y cynnydd hwn yn adlewyrchu cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau, pwysau ar staffio, ac adfer gweithrediadau llawn ar y safle yn dilyn cyfnod o weithgarwch hybrid neu ostyngedig. Yn ogystal, mae newidiadau yn y diwylliant adrodd—megis gwell ymwybyddiaeth, hyfforddiant, a dulliau digidol - yn debygol o fod wedi cyfrannu at gofnodi digwyddiadau'n fwy cyson ar draws adrannau.

Oherwydd dyletswydd gofal y Cyngor tuag at y cyhoedd fel rhan o'r ymrwymiad, mae digwyddiadau a gofnodwyd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol. Mae'r cyhoedd yn cynnwys disgyblion ysgol, disgyblion cyn

ysgol, aelodau Clybiau Ieuenctid, Cleientiaid mewn cartrefi gofal a defnyddwyr cyfleusterau Hamdden.

Gall digwyddiadau yn gysylltiedig â'r grŵp hwn gynnwys damweiniau ar feysydd chwarae, cleientiaid yn llithro, baglu a disgyn oherwydd problemau symudedd, digwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon a chyflyrau meddygol. Maent yn cael eu cofnodi am reswm cyfreithiol, rhag ofn y bydd angen camau pellach.

Mae niferoedd ar gyfer y digwyddiadau hyn yn cael eu dangos yn Nhabl 1 isod

**Tabl 1 – gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau gwaith**

| Math o leoliad | Cyfanswm | Cyfanswm nifer o ddefnyddwyr |
|---|---|---|
| Ysgolion (Disgyblion) | 404 | 7949 o ddisgyblion wedi cofrestru, ac yn yr ysgol am 190 diwrnod |
| Digwyddiadau Dechrau'n Deg a Chylch Meithrin a Chlybiau Ieuenctid (Disgyblion ac Aelodau) | 128 | |
| Canolfannau Hamdden (Defnyddwyr) | 107 | 565,574 o ddefnyddwyr dros 360 o ddiwrnodau |
| Cartrefi Gofal a Chanolfannau Dydd (Cleientiaid) | 191 | 130 o gleientiaid yn derbyn gofal am 365 dirnod y flwyddyn |

Mae Tabl 1 yn nodi bod 830 o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r cyhoedd mewn cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â chyfanswm y llynedd - 929.

Mae gan bob adran ddata ar fathau o ddigwyddiadau a thueddiadau, gan eu galluogi i nodi meysydd lle mae angen ymyrraeth.

**Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig**
Mae'r graffiau isod yn dangos nifer y damweiniau a digwyddiadau yn gysylltiedig â gweithwyr yn unig.

**Graff 4 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig yn 2024/25**




| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** | |
| **Cyfanswm 404** | |
| **Mân 354** | |
| **Difrifol 47** | |
| **RIDDOR 3** | |

**Graff 5 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig 2023/24**




| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** | |
| **Cyfanswm 357** | |
| **Mân 273** | |
| **Difrifol 78** | |
| **RIDDOR 6** | |

**Graff 6 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig 2022/23**




| |
|---|
| **Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** |
| **Cyfanswm 326** |
| **Mân 263** |
| **Difrifol 57** |
| **RIDDOR 6** |

Mae dadansoddiad o graffiau 4, 5 a 6 yn dangos cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2024/25 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r data'n dangos cynnydd bras o tua 29% yn nifer y digwyddiadau rhwng 2022 a 2024.

**Mathau o Ddigwyddiadau** Mae'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn cael eu dangos isod yn Nhabl 2

**Tabl 2**

| Math o Ddigwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu**<br>Mae digwyddiad o'r math hwn yn gysylltiedig ag ymosodiad gan gleientiaid neu ddisgyblion, yn anfwriadol o bosib. Mae'r posibilrwydd o achosi niwed yn cael ei gydnabod. | 84 |
| **Ymosodiad Corfforol**<br>Mae digwyddiad o'r math hwn yn ystyried y gallai'r person fod yn bwriadu achosi niwed. Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn amrywio o wthio i daro person. Cafwyd cysylltiad corfforol. | 147 |
| **Digwyddiad Treisgar / Difrïo**<br>Mae digwyddiad o'r math hwn yn ymwneud â sylwadau difrïol neu fygythiol sy'n cael eu hanelu at staff gan y cyhoedd. Gallai gynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n cwyno am broblemau mewn ffordd ymfflamychol. | 85 |
| **Ymddygiad Heriol**<br>Mae hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad ymosodol gan gleientiaid / disgyblion, ond, oherwydd problem galluedd meddyliol, efallai nad oedd yn fwriad achosi gofid. | 64 |
| **Codi a Chario**<br>Mae digwyddiadau Codi a Chario yn deillio o godi gwrthrychau neu gynorthwyo cleientiaid | 35 |
| **Llithro, Baglu a Disgyn**<br>Digwyddiadau a gofnodwyd lle mae gweithwyr wedi disgyn ac wedi cael anaf. Gallai hyn gynnwys arwynebau llithrig neu ormod o rwystrau. | 337 |

**Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu**
Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn bennaf yn y meysydd Addysg a Gofal. Roeddent yn gysylltiedig â digwyddiadau lle gallai person fod wedi ymosod heb fwriadu achosi niwed. Roedd 62 digwyddiad yn ymwneud ag aelodau staff yn cael eu taro mewn. Yn y maes Gofal, byddai hyn wedi arwain at lunio asesiad risg ar y cleient er mwyn rhoi sylw i anghenion diogelwch y cleient ac aelodau staff. Byddai proses debyg yn cael ei dilyn mewn sefydliadau addysg arbennig.

Mewn sefydliadau addysg cyffredinol gallai'r digwyddiadau hyn fod wedi arwain at ddarparu cymorth gan y Tîm Ymyrraeth Gynnar.

**Ymosodiad Corfforol**
Roedd y digwyddiadau hyn yn y sector Addysg yn bennaf. Roedd 50 digwyddiad yn ymwneud â tharo disgyblion eraill. Roedd 97 digwyddiad yn ymwneud â tharo gweithwyr. Roedd 87 digwyddiad mewn Ysgolion Cynradd. Mae'r math yma o ddigwyddiadau ar gynnydd. Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal rhwng y gwasanaeth Addysg, Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r tîm Ymyrraeth Gynnar i drafod achosion a chefnogi ysgolion yn ôl y galw.

Mae gwaith pellach ar y gwaith i fynd i'r afael â hyn ac mae Gweithgor wedi cael ei sefydlu i ystyried mesurau rheoli posib.

**Digwyddiad Treisgar / Difrïo**
Digwyddodd y digwyddiadau hyn mewn croestoriad o wasanaethau'r Cyngor. Mae cam-drin geiriol dros y ffôn wedi'i gynnwys yn y ffigyrau hyn. Roedd 20 digwyddiad lle'r oedd y cam-drin geiriol tuag at ddisgybl neu aelod o'r cyhoedd yn un o adeiladau'r Cyngor. Cofnodwyd 65 achos o gam-drin geiriol tuag at weithwyr y Cyngor.

Mae'r Polisi Rheoli Cysylltiadau – Gweithredoedd Annerbyniol gan Gwsmeriaid wedi ystyried y mathau hyn o ddigwyddiadau ac mae'n caniatáu i staff ddweud wrth y cleient fod yr ymddygiad yn annerbyniol a rhoi'r ffôn i lawr. Byddai ffurflen digwyddiad yn cael ei chwblhau yn sgil hynny. Os yw'n ddigwyddiad wyneb yn wyneb efallai y bydd asesiad risg yn cael ei lunio. Os yw'n ddigwyddiad mewn adeilad cyhoeddus, megis Canolfan Hamdden, efallai y bydd y person sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ddifrïol yn cael ei wahardd o'r adeilad.

**Ymddygiad Heriol**
Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn y meysydd Addysg a Gofal. Roedd y digwyddiadau'n gysylltiedig ag ymddygiad disgyblion neu gleientiaid oedd yn aflonyddu ar y bobl oedd yn bresennol neu'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Gallai hyn fod wedi arwain at adolygu'r asesiad risg. Cofnodwyd 4 digwyddiad lle'r oedd gweithwyr y Cyngor wedi cael eu heffeithio gan yr ymddygiad.

**Codi a Chario**
Digwyddodd digwyddiadau Codi a Chario yn y maes gofal yn bennaf. Byddai hyn yn gysylltiedig â chynorthwyo cleientiaid yn hytrach na chodi gwrthrychau. Darperir hyfforddiant penodol er mwyn caniatáu i staff gynorthwyo a chodi cleientiaid yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

**Llithro, Baglu a Disgyn**
Cofnodwyd 337 digwyddiad llithro, baglu a disgyn. Mae'r categori disgyn yn cael ei rannu'n ddau, sef disgyn oddi ar wrthrych a disgyn o uchder. Roedd 140 o'r achosion o lithro, baglu a disgyn a gofnodwyd yn ymwneud â disgyblion ysgol. Ystyrir bod hyn o fewn y terfynau rhesymol ar gyfer chwarae cyffredinol mewn ysgol. Cofnodwyd 158

achos o lithro, baglu a disgyn mewn Cartrefi Gofal ac yn y maes Gofal. Roedd hyn yn gysylltiedig â chleientiaid yn disgyn, o bosib oherwydd cyflyrau meddygol neu oherwydd eu bod yn eiddil. Pan fydd cleient yn disgyn mewn Cartref Gofal, mae asesiad risg yn gysylltiedig â disgyn yn cael ei gynnal yn benodol ar gyfer y cleient hwnnw. Y bwriad fyddai nodi'r risg o ddisgyn yn y dyfodol a chamau posib i'w cymryd i leihau'r risg. Roedd 26 achos o lithro, baglu a disgyn cyffredinol pryd cafodd staff y cyngor eu hanafu. Mae Math Arall o Ddigwyddiad yn fath o ddigwyddiad sydd wedi cael ei restru ar y system gofnodi. Defnyddir y categori hwn ar gyfer digwyddiadau sy'n anodd eu dosbarthu. Efallai bod aelod staff wedi cofnodi digwyddiad fel pryder. Cofnodwyd 163 o ddigwyddiadau dan y pennawd hwn..

Roedd 38 o ddigwyddiadau wedi eu cofnodi ar gyfer mathau eraill o ddigwyddiadau, megis Cyflwr Meddygol. O'r 38 digwyddiad, roedd 6 yn gysylltiedig â staff y cyngor. Ystyriwyd bod niferoedd y digwyddiadau hyn yn isel ac mae'n bosib nad oedd patrwm amlwg i achosi pryder sylweddol.

Cofnodwyd 36 digwyddiad lle cafodd eiddo ei ddifrodi neu ei golli.

**Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR)**

RIDDOR yw'r gyfraith sy'n nodi bod rhaid i gyflogwyr, a phobl eraill sydd â rheolaeth dros safleoedd gwaith, adrodd a chadw cofnodion am ddamweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi marwolaeth; damweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi rhai mathau o anafiadau difrifol (anafiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt), achosion lle cafwyd diagnosis o rai mathau o glefydau diwydiannol; a rhai 'digwyddiadau peryglus' (digwyddiadau a allai achosi niwed).

Mae'n rhaid rhoi gwybod am ddamweiniau yn gysylltiedig â gwaith sy'n ymwneud â'r cyhoedd neu bobl nad ydynt yn y gwaith os caiff person ei anafu ac os ydynt yn cael eu cludo o safle'r ddamwain i'r ysbyty i dderbyn triniaeth ar gyfer yr anaf hwnnw. Nid yw'n ofynnol sefydlu pa driniaeth a ddarparwyd yn yr ysbyty, ac nid oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiadau lle cludwyd pobl i'r ysbyty dim ond fel rhagofal pan nad oedd unrhyw arwydd o anaf.

Cyflwynir dadansoddiad o'r adroddiadau RIDDOR isod yn Nhabl 3.

**Tabl 3 Adroddiadau RIDDOR**

| Dyddiad | Digwyddiad | Rheswm dros adrodd |
|---|---|---|
| 03/07/2025 | Anaf Codi/Cario ayb. | Dros 7 diwrnod |
| 07/02/2025 | Anaf Codi/Cario ayb. | Dros 7 diwrnod |
| 14/03/2025 | Math arall o ddamwain | Unigolyn nad oedd yn weithiwr wedi'i gludo i'r ysbyty |

**Graff 7 – Cymhariaeth tymor hir**




Oherwydd yr argyfwng Covid19, roedd nifer o arferion gweithio wedi eu cyfyngu rhwng 2019 a 2022. Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio, gofynnodd yr aelodau am ffigyrau cymharol ar gyfer y tymor hir.

Mae'r tabl a graff uchod yn dangos fod y ffigyrau wedi gostwng yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Mae blwyddyn 2022/23 yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2020/21 a 2021/22. Roedd y cynnydd hwn i'w ddisgwyl wrth i weithgarwch gynyddu. Roedd y ffigyrau'n parhau i fod yn is na ffigyrau yn ystod 2019/20 sef y flwyddyn olaf cyn y cyfyngiadau.

Gwelwyd cynnydd yn ystod 2023/24 ond bu rhywfaint o ostyngiad yn 2024/25. Mae digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig wedi parhau i gynyddu.

Gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y cynnydd. Gallai ymwybyddiaeth well o'r angen i roi gwybod am ddigwyddiadau fod yn ffactor. Yn ystod y cyfnod Covid, tynnwyd sylw staff at yr angen i roi gwybod am ddigwyddiadau. Oherwydd difrifoldeb y pandemig efallai fod y diwylliant adrodd wedi gwreiddio ymysg y staff.

## 5. Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Mae Timau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi bod yn ymgynghori ar y cyd yng ngogledd Cymru. Canolbwyntiwyd ar bynciau penodol er mwyn sefydlu dull tebyg i'w ddefnyddio o ran rheolaethau iechyd a diogelwch.

## 6. Ymgynghori ar y Cyd

### Y Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch corfforaethol yn ystod 2023/24. Roedd y cyfarfod yn gyfle i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch o bob rhan i'r Cyngor i rannu gwybodaeth.

## 7. Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol dwyieithog gan Gyngor Gwynedd, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae ychydig dros 450 o apwyntiadau ar gael i staff bob blwyddyn. Caiff y rhain eu dyrannu drwy atgyfeiriad gan reolwr llinell neu drwy hunan-atgyfeiriad gan yr aelod staff. Mae tua 200 o apwyntiadau ar gael i staff sy'n credu y gallent elwa o ffisiotherapi. Mae'r apwyntiadau hyn ar gael drwy atgyfeiriad gan y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn dilyn ymgynghoriad.

## 8. Perfformiad Diogelwch

### Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn nodi strwythur o gefnogaeth ar gyfer y Cyngor. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i leoli yn swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd, sydd yn rhan o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei reoli gan y Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol. Mae'r Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol yn adrodd i'r Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd sydd, yn ei dro, yn adrodd i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Mae cynllun gwaith y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhan o'r Cynllun Gwasanaeth Trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Cyflwynir gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol isod.

**Tabl 4 Gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

<table>
<tr><th>Gweithredoedd Allweddol</th><th>Meini Prawf Llwyddiant<br>(Sut gwyddom ein bod wedi cyflawni'r Weithred Allweddol?)</th><th colspan="4">Targedau Chwarterol 2022 / 2023</th><th>Adnoddau<br>Ac eithrio eich adnoddau eich hun</th></tr>
<tr><td rowspan="8">Sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau iechyd a diogelwch (mewnol ac allanol) yn effeithiol</td><td rowspan="2">Datblygu cynllun gweithredu Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch</td><td>Ch1</td><td>Ch2</td><td>Ch3</td><td>Ch4</td><td rowspan="2"></td></tr>
<tr><td>1</td><td></td><td></td><td>1 drafft</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Adolygu Polisïau – Polisïau ar-lein ar y fewnrwyd wedi'u diweddaru</td><td>Ch1</td><td>Ch2</td><td>Ch3</td><td>Ch4</td><td rowspan="5">TGCh i ddarparu dolenni o Monitor</td></tr>
<tr><td colspan="4">Targed</td></tr>
<tr><td>10</td><td>7</td><td>9</td><td>6</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cwblhawyd</td></tr>
<tr><td>10</td><td>7</td><td>9</td><td>6</td></tr>
<tr><td></td><td>Ch1</td><td>Ch2</td><td>Ch3</td><td>Ch4</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cofrestr Risg ar gyfer Pobl a allai fod yn Dreisgar/Damweiniau. Monitro system marciwr Pobl Dreisgar Posib. Adolygu bob chwarter. | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | Canran ymateb i ddamweiniau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) ar safleoedd yr Awdurdod Lleol o fewn 5 diwrnod. | Ch1 | Ch22 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | |
| | | Nifer y damweiniau RIDDOR | | | | |
| | | 0 | 1 | 0 | 2 | |
| | Cyfarfodydd rheoli gwasanaeth. Mynychu cyfarfodydd i adrodd ar faterion Iechyd a Diogelwch pryd a phan fydd angen / neu ar ôl derbyn cais. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Gwasanaethau i drefnu'r cyfarfod a'r lleoliad |
| | | 100% ar ôl derbyn cais neu pan fydd angen. | | | | |
| | | 10 | 7 | 2 | 6 | |
| | Cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch. Cyfarfodydd Chwarterol. Rhaglen yn seiliedig ar bynciau. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 0 | 0 | 0 | 1 | |
| | Bwletinau Iechyd a Diogelwch Chwarterol ar bynciau byw. Y nod yw creu diwylliant Iechyd a Diogelwch. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 1 | 1 | 1 | 0 | |
| | | 100% ar gais | | | | |
| | | 2 | 2 | 1 | 0 | |
| | Gwaith adweithiol yn unol â tharged lefel gwasanaeth o ddarparu ymateb cychwynnol o fewn un diwrnod gwaith. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Ceisiadau fesul chwarter | | | | |
| | | 165 | 118 | 130 | 128 | |
| | | Cyfanswm o 541 | | | | |
| | Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | | | | 1 | |
| | Nifer o ymyriadau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd ar | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ffigurau is yn sgil swydd wag |
| | | Targed | | | | |
| | | 10 | 10 | 10 | 10 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | safleoedd y Cyngor. Targed cyffredinol yw hwn ar gyfer ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnal ar draws yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith monitro rhagweithiol, archwiliadau a gweithgareddau archwilio ymatebol megis ymchwilio i ddamweiniau. | Cwblhawyd | | | | |
| | | 6 | 7 | 8 | 10 | |
| | | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| Ystadegau Damweiniau | Adroddiadau Chwarterol | 1 | 1 | 1 | 1 | |

## 9. Cynllun Gweithredu Strategol

Bydd yn darparu amcanion a chamau gweithredu lefel uchel i gefnogi gwelliant parhaus o ran rheoli iechyd a diogelwch, a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

| Cynllun Gweithredu Strategol | |
|---|---|
| **CYNLLUNIO** | Ystyried lefel cydymffurfio presennol o ran Iechyd a Diogelwch a'r safon a ddymunir.<br><br>Penderfynu beth sydd angen ei gyflawni, pwy fydd yn gyfrifol am beth, sut i gyflawni'r nodau, a sut fyddant yn cael eu mesur.<br><br>Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i adlewyrchu'r uchod.<br><br>Penderfynu sut i fesur perfformiad. Dylai hyn gynnwys mwy nag edrych ar ffigyrau damweiniau'n unig; edrych am ddangosyddion sydd ar y blaen yn ogystal â dangosyddion sydd ar ei hôl hi.<br><br>Ystyried tân ac argyfyngau eraill. Dylai hyn gynnwys cydlynu mewn gweithleoedd a rennir.<br><br>Cynllunio ar gyfer newidiadau a nodi unrhyw ofynion cyfreithiol penodol sy'n berthnasol. |

| | |
|---|---|
| **GWNEUD** | Nodi'r proffil risg.<br><br>Asesu'r risgiau, nodi beth allai achosi niwed yn y gweithle, pwy allai gael ei niweidio a sut, a beth sydd ei angen i reoli'r risg.<br><br>Penderfynu beth yw'r blaenoriaethau a nodi'r risgiau mwyaf.<br><br>Trefnu gweithgareddau i wireddu'r cynllun.<br><br>Cynnwys gweithwyr a chyfathrebu, fel bod pawb yn eglur ynglŷn â'r hyn sydd ei angen a'u bod yn gallu trafod problemau – datblygu agweddau ac ymddygiad cadarnhaol.<br><br>Darparu adnoddau digonol, gan gynnwys cyngor cymwys pan fydd angen. Rhoi eich cynllun ar waith.<br><br>• Penderfynu ar fesurau ataliol ac amddiffynnol sydd eu hangen a'u rhoi ar waith.<br>• Darparu'r offer a'r cyfarpar cywir i wneud y gwaith a'u cynnal a'u cadw.<br>• Hyfforddi a chyfarwyddo, i sicrhau fod pawb yn gymwys i wneud eu gwaith.<br>• Goruchwylio i sicrhau fod y trefniadau'n cael eu dilyn. |
| **GWEITHREDU** | Mesur eich perfformiad<br><br>Sicrhau fod y cynllun wedi'i roi ar waith – nid yw 'gwaith papur' yn unig yn fesur da o berfformiad.<br><br>Asesu pa mor dda mae'r risgiau'n cael eu rheoli ac a yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.<br><br>O dan rai amgylchiadau gallai archwiliadau ffurfiol fod yn ddefnyddiol.<br><br>Ymchwilio i'r hyn sy'n achosi damweiniau, digwyddiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd. |
| **GWIRIO** | Adolygu Perfformiad<br><br>Dysgu o ddamweiniau a digwyddiadau, data afiechyd, camgymeriadau a phrofiad perthnasol, gan gynnwys o sefydliadau eraill.<br><br>Ailymweld â chynlluniau, dogfennau polisi ac asesiadau risg i weld a oes angen eu diweddaru.<br><br>Gweithredu ar wersi a ddysgwyd, gan gynnwys o adroddiadau archwilio ac ymchwilio. |

## 10. Casgliad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor yn nodi'r trefniadau'n glir ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch ar draws pob gwasanaeth, ac mae'n diffinio'r cyfrifoldebau sydd gan staff ar bob lefel. Mae pob math o fforymau mewnol – yn cynnwys cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, trafodaethau lefel gwasanaeth, a'r Grŵp Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch, yn cefnogi cyfathrebu ac yn nodi risgiau'n gynnar.

Mae'r Rheolwr Busnes a benodwyd ym mhob gwasanaeth yn ddiweddar wedi helpu i rannu gwybodaeth, ta bo'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Cynorthwyol, o fewn tîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor, wedi gwneud camau cadarnhaol tuag at wella'r gefnogaeth ledled y sefydliad. Mae'r bwletinau iechyd a diogelwch rheolaidd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth ymysg y staff.

Mae systemau monitro ac adrodd ar waith, ac mae'r data digwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos gostyngiad yn nifer y digwyddiadau, sy'n rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr, yn enwedig ymosodiadau corfforol mewn Ysgolion Cynradd, y peri pryder. Mae heriau tebyg mewn gwasanaethau rheng flaen eraill, ac mae digwyddiadau treisgar wedi codi o 76 i 85 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae camau rhagweithiol wedi cael eu cymryd mewn ymateb i hyn, yn cynnwys cydweithio agos rhwng y tîm Addysg, Ymyrraeth Gynnar ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Gallai grŵp traws-wasanaeth tebyg fod yn fanteisiol i asesu'r mesurau ataliol ledled y Cyngor.

Mae'r strwythurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhoi sylfaen gref ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch. Er mwyn sicrhau bod dull cyson a gwydn ar waith ar draws yr holl wasanaethau, mae'n bosib y bydd yn briodol cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau hynny. Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Iechyd a Diogelwch sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad hwn yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynllun Iechyd a Diogelwch Strategol mwy manwl a ffurfiol ar gyfer y Cyngor cyfan.


## 11. Argymhelliad

Er mwyn gwella'r modd y mae'r Cyngor y rheoli Iechyd a Diogelwch, argymhellir y camau gweithredu a ganlyn er mwyn sicrhau fframwaith gyson, gwydn ar gyfer diogelu staff, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith.

Ystyried datblygu gweithgorau i fynd i'r afael â'r cynnydd posib mewn digwyddiadau yn ymwneud â risgiau'n gysylltiedig â rhyngweithio â'r cyhoedd.

## Atodiad


Iechyd A Diogelwch Corfforaethol
Pennaeth Gwasanaeth
Christian Branch
Prif Swyddog Gwarchod Y Cyhoedd
Trystan Owen (10)
Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd
Prif Swyddog IyA (Llygredd)
Prif Swyddog IyA
Swyddogion IyA
Swyddogion IyA
Swyddog Gwarchod Y Cyhoedd/Environmental Protection Officer
Swyddog Diogelwch Bwyd
Rheolwr Cronfa data
Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol
Uwch Swyddog Trwyddedu
John Lloyd (6)
Uwch Swyddog Gorfodaeth Iechyd a Trwyddedu Anifeiliaid
Swyddog Trwyddedu
Swyddog Gorfodaeth Iechyd a Trwyddedu Anifeiliaid
Uwch Swyddog Gorfodi Gwarchod Amgylchedd
Swyddog Cefnogi Trwyddedu
Technegydd Rheoli Plâu/Cŵn
Technegydd Rheoli Plâu/Cŵn
Prif Swyddog I&D Steve Nicol
Ymgynghorydd I&D Corfforaethol
Robert Vaughan Hughes
Cynghorydd I&D Corfforaethol Cynorthwyol
Bethan Morris
Rheolwr Safonau Masnach
Prif Swyddog Safonau Masnach
Swyddog Safonau Masnach
Swyddog Gorfodaeth Safonau Masnach
Uwch Technegydd Safonau Masnach
Rheolwr Iechyd Porthladd
Rheolwr Gwas. Cofrestru & Cefnogaeth Busnes
Cofrestrydd Arolygol
Dirprwy Cofrestrydd Arolygu
Swyddogion Cymorth Cofrestru
Swyddog Cefnogi Busnes

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y Pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)

Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt. (3.4.8.10.10)

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) newydd, sy'n cael eu mandadu o 1 Ebrill 2025 ac maent yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sector cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU.

Mae hefyd yn cyd-fynd â'r arferion sy'n cael e hargymell ar gyfer goruchwylio archwilio mewnol, fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Safon 11.3 y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r bwrdd ac uwch reolwyr yn rheolaidd ac ar gyfer pob gweithgaredd. Yn ychwanegol at hyn, mae Safon 15.1 yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu'r cyfathrebiad olaf gyda'r rheiny a all sicrhau bod y canlyniadau'r cael eu hystyried yn briodol.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor, fel y mae'r sefyllfa ar 30 Medi 2025, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Mehefin 2025, llwyth gwaith presennol archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:
- canlyniad gweithgareddau Archwilio Mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd a'n
- blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

**Medi 2025**




**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ____ 1
Rheoli'r Risg Tlodi (YM11) ____ 2
Monitro Parhaus - Credydwyr ____ 3
Gwaith ar y Gweill ____ 4
Camau Gweithredu sy'n Weddill ____ 4
Blaenoriaethau ____ 5
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ____ 5
Blaenoriaethau Tymor Hwy ____ 5



# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2025, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau/cyfleoedd a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **tri** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod hwn, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli'r Risg Tlodi (YM11) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 6 |
| Monitro Parhaus - y Gyflogres | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Monitro Parhaus - Credydwyr | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |

## Rheoli'r Risg Tlodi (YM11)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i reoli'r risg o dlodi a'i effaith ar wasanaethau'r Cyngor?**

4. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ymateb strategol i dlodi, yn bennaf drwy gydweithio â'r sector gymunedol a gwirfoddol, a thrwy sicrhau gwell mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Mae'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi (2024-2029) yn nodi chwe blaenoriaeth ac mae cynllun gweithredu i gefnogi'r blaenoriaethau hynny, sydd bellach yn cael ei oruchwylio gan y Tîm Arweinyddiaeth i annog perchnogaeth ar lefel uwch. Fodd bynnag, mae eglurder ynglyn â rolau, integreiddio â chynlluniau gwasanaeth ac ymgysylltu â staff yn parhau'n gyfyngedig.

5. Mae angen gwelliannau allweddol i gryfhau perchnogaeth o'r risg, monitro perfformiad, cyfuno data a sefydlu ystyriaethau economaidd-gymdeithasol. Mae gwaith ymgysylltu cyhoeddus yn mynd rhagddo drwy wefan ddynodedig, digwyddiadau, a phartneriaethau gyda sefydliadau megis Cyngor ar Bopeth a Medrwn Môn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau mynediad at fudd-daliadau drwy fabwysiadu Siarter Budd-daliadau Cymru, sy'n ceisio symleiddio ceisiadau erbyn 2026.

6. Mae dulliau monitro ar waith, ond mae meini prawf SMART ar goll ar gyfer nifer o'r camau, ac mae heriau o ran cael mynediad at ddata yn dal ymyraethau wedi'u targedu yn ôl. Mae'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei chydnabod mewn cynlluniau ehangach ond dylid ei sefydlu'n glir yn y strategaeth tlodi, gan roi mwy o sylw i gydymffurfiaeth a chroestoriadedd. Mae'r Cyngor yn dal i liniaru effaith tlodi drwy lobïo a cheisio datblygu gwytnwch. Rydym wedi darparu **sicrwydd rhesymol**, codi chwe risg cymedrol a chytuno ar ddatrysiadau gyda rheolwyr.

## Monitro Parhaus - y Gyflogres

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

7. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes gan y Cyngor reolaethau effeithiol ar waith ar gyfer data'r gyflogres i leihau'r risg o dwyll a chamgymeriadau?**

8. Mae ein hadolygiad seiliedig ar ddata o system gyflogres y Cyngor yn cadarnhau bod y mesurau ar gyfer rheoli'r gyflogres yn effeithiol ar y cyfan, a bod rheswm dilys dros unrhyw anghysondebau megis ôl-gyflog, cyflog gwyliau neu ddyddiadau terfynu diwygiedig. Daethpwyd o hyd i dri gordaliad, ac roedd y tîm yn ymwybodol ohonynt ac wrthi'n eu hadennill.

9. Wedi'i ysgogi gan graffu cenedlaethol ar arferion talu goramser (Powys council worker paid £28k in overtime over 15 months - BBC News), edrychom ar dueddiadau gormaser y Cyngor. Yn 2024-25, roedd taliadau goramser i gyfrif am lai na 1% o'r swm a wariwyd ar gyflogau (ac eithrio staff addysg) ac roeddent yn ymwneud y bennaf â staff hamdden a gofal. Cadarnhawyd bod y taliadau'n ddilys ac angenrheidiol oherwydd prinder staff, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o daliadau diawdurdod neu daliadau chwyddedig wrth adolygu anghysondebau rhwng tâl sylfaenol a gros.

10. Mae'r ymarfer yn rhan o rhaglen monitro parhaus a fydd yn cael ei chynnal yn flynyddol. Er na allwn ddarparu sicrwydd absoliwt, mae'r adolygiad yn darparu sicrwydd rhesymol dros lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth o ran gweithrediadau'r gyflogres. Nid ydym wedi nodi unrhyw faterion / risgiau neu gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Monitro Parhaus - Credydwyr

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

11. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

    **A yw'r Cyngor wedi talu unrhyw anfonebau a oedd wedi cael eu talu'n barod, naill ai drwy dwyll neu mewn camgymeriad?**

12. Mae ein hadolygiad seiliedig ar ddata o ddata taliadau'r Cyngor yn cadarnhau bod mesurau rheoli mewnol yn effeithiol ar y cyfan o ran atal taliadau dyblyg o ganlyniad i dwyll neu wall.

13. Mae'n amlwg bod yr Uwch Swyddog Taliadau a Chyflogres wedi gwneud llawer o waith i wella prosesau i leihau'r risg o daliadau dyblyg ac i adennill unrhyw golledion, ac mae canlyniad ein gwaith yn dyst i hyn.

14. Ar ôl dadansoddi 34,000 o anfonebau gwerth cyfanswm o £214 miliwn (Mehefin 2024 - Mehefin 2025) daethpwyd o hyd i un taliad dyblyg yn unig gwerth £635, a oedd wedi cael ei adennill cyn y profion. Er nad oedd y nodiadau ar y system wedi cael eu diweddaru i ddangos hyn, roedd y mater wedi'i ddatrys.

15. Defnyddiwyd pedwar gwahanol brawf i ganfod dyblygiadau posib. Er bod rhai anfonebau'n rhannu nodweddion tebyg - megis yr un rhif credydwyr, dyddiadau, a symiau - cadarnhaodd gwaith archwilio pellach nad oeddent yn ddyblygiadau mewn gwirionedd. Mae'r cyn lleied o wallau yn dangos bod y mesurau rheoli allweddol yn gadarn, yn cynnwys:

    - Gwiriadau dilysu anfonebau wrth sganio ac yn dilyn hynny
    - Uwch swyddogion yn craffu'n fanwl ar anfonebau
    - Adolygu'r adroddiad ar Daliadau Dyblyg a Phariadau Niwlog yn gyson cyn rhedeg y gyflogres

16. Ers yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2024, llwyddwyd i adennill tua £60,000 o daliadau dyblyg, ac mae tua £65,000 yn weddill. Mae'r Tîm Taliadau yn dal i geisio adennill y taliadau hyn pan fo adnoddau'n caniatáu.

17. Er na ellir rhoi sicrwydd absoliwt - yn enwedig pan fo taliadau dyblyg yn cael eu cuddio oherwydd bod rhifau anfonebau wedi cael eu newid - mae ein hadolygiad yn darparu sicrwydd rhesymol dros lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.

18. Rydym yn cynnal yr ymarfer hwn yn flynyddol ar y cyd â'r Tîm Taliadau. Mae hyn yn dilyn derbyn pris o £53k gan gyflenwr meddalwedd arweiniol, sy'n gweithio â chynghorau cyfagos, am gontract tair blynedd i gynnal ymarfer tebyg.

## Gwaith ar y Gweill

19. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm dros yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 | Derbyniwyd yr adroddiadau paru data ddiwedd Rhagfyr 2024. Mae pariadau risg uchel yn dal i gael eu hadolygu. Adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar 30/09/25. |
| Archwiliad TG: Seiberddiogelwch mewn Ysgolion | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Adroddiad Drafft |
| Rheoli Perfformiad | Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-26 | Gwaith Maes |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Ymchwilio | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG: Rheoli Asedau TG | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Gwaith Maes |
| Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion - Asesiadau Ariannol | Adolygiad Dilynol Cyntaf | Gwaith Maes |
| Rheoli'r Risg Diogelu | Cofrestr Risgiau Strategol (YM10/YM12) | Pennu Cwmpas |
| Rheoli Arian | Cofrestr Risgiau Strategol (YM1) | Pennu Cwmpas |

Tudalen 42

## Camau Gweithredu sy'n Weddill

20. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

21. Bydd adroddiad cynnydd manwl ar hynt y camau hyn yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn ar wahân, yn unol â chais y pwyllgor.

# Blaenoriaethau

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

22. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 yn mynd rhagddo'n dda.

## Recriwtio aelodau lleyg

23. Cynhaliwyd proses recriwtio i recriwtio dau aelod lleyg newydd dros yr haf, a chynhaliwyd cyfweliadau yn gynnar ym mis Medi.
24. Bydd yr aelodau newydd yn cael eu cefnogi gyda chyfnod sefydlu priodol ar ôl iddynt gael eu penodi.

## Blaenoriaethau Tymor Hwy

25. Bydd y gwaith o weithredu gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU yn parhau dros y 18 mis nesaf.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 | |
| **Pwnc:** | Materion, Risgiau a Chyfleoedd Archwilio Mewnol sy'n weddill | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Nanette Williams<br>Prif Archwilydd<br>NanetteWilliams@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno cyfrifoldeb ar y pwyllgor i fonitro'r gwaith o weithredu camau cytunedig (3.4.8.10.10). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws y materion, risgiau a chyfleoedd sy'n weddill y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr archwiliad mewnol.<br><br>Mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd yn Sector Cyhoeddus y DU, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio sefydlu methodoleg i gadarnhau bod rheolwyr wedi gweithredu ar argymhellion archwiliadau mewnol neu gynlluniau gweithredu rheoli. Mae hyn yn cynnwys ymholi am gynnydd ar weithredu, cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, a diweddaru statws y gweithredoedd rheoli mewn system olrhain (Safon 15.2). Mae trefniadau dilynol presennol Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU. | | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae archwilio mewnol, ar ran y cyngor, yn monitro materion a risgiau sydd wedi cael eu hadnabod yn ystod gwaith archwilio drwy ei system olrhain camau, 4action.

1.2. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi darlun gwir o berfformiad cyfredol mewn perthynas â mynd i'r afael a chamau sy'n weddill, ac mae'n hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd y wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn aml gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'i hadroddiadau sy'n cynnig diweddariad ar archwilio mewnol.

1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio wedi gofyn os oes modd derbyn adroddiad manwl ar wahân sy'n amlinellu'r perfformiad cyffredinol o ran mynd i'r afael â chamau archwilio, ddwywaith y flwyddyn.

## 2. Argymhelliad

2.1. Fod y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio yn:

- Ystyried cynnydd y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin â'r 'Materion / Risgiau / Chyfleoedd' Archwilio Mewnol sy'n weddill, a phenderfynu a yw hyn yn foddhaol.

# Materion / Risgiau / Cyfleoedd Archwilio Mewnol sydd Angen Sylw

**Medi 2025**



**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Nanette Williams MSc CMIIA CIA**



# Cynnwys

Cyflwyniad ____ 1
Perfformiad Presennol ____ 2
Graff 1 – Cyfanswm y gweithredoedd sydd angen sylw ____ 2
Graff 2 - Gweithredoedd Hwyr ____ 3
Graff 3 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws ____ 3
Graff 4 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed) ____ 4
Graff 5 – Yr holl Faterion / Risgiau / Cyfleoedd sydd angen sylw fesul blwyddyn ____ 5
Atodiad 1: Statws Manwl Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Sylweddol' sydd angen sylw ____ 7



# Cyflwyniad

1. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro gweithrediad y camau a gymerwyd gan reolwyr i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a godwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol fel rhan o'i waith.

2. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y cyngor wrth fynd i'r afael â'r camau sydd angen sylw, a hynny ddwywaith y flwyddyn, yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill a Medi.

3. Mae'n ofynnol hefyd, o dan safon 15.2 o'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang (GIAS), i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol "gadarnhau bod rheolwyr wedi rhoi argymhellion archwilwyr mewnol neu gynlluniau gweithredu rheolwyr ar waith, gan ddilyn methodoleg sefydledig, gan gynnwys holi am gynnydd y gweithredu, cynnal asesiadau dilynol ar sail risg a diweddaru statws gweithredoedd mewn system dracio."

4. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw Archwilio Mewnol bellach yn gwneud argymhellion, ond yn hytrach mae'n adrodd ar 'Faterion' a 'Risgiau', ac, yn fwy diweddar, 'Cyfleoedd'. Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y risgiau hyn, nhw sy'n gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a nodwyd, ac rydym yn monitro'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw.

5. Mae adroddiadau sy'n derbyn Sicrwydd 'Cyfyngedig', neu 'Dim' Sicrwydd yn destun adolygiad dilynol ffurfiol gan Archwilio Mewnol, ac mae adroddiad archwilio'n cael ei ddarparu sy'n cynnwys gradd sicrwydd. Rydym yn monitro'r holl faterion, risgiau a chyfleoedd eraill gan ddefnyddio system dracio gweithredoedd corfforaethol y Cyngor (4action).

6. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action, sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n hwyluso'r gwaith o fonitro ac adrodd ar yr wybodaeth hon.

7. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus fel ein bod yn derbyn diweddariadau prydlon ar gynnydd gan reolwyr.


# Perfformiad Presennol

8. Mae'r pum graff isod yn dangos y gweithredoedd oedd angen sylw o fewn y Cyngor ar 31 Awst 2025. Mae diweddariad statws manwl ar y 10 mater/risg 'sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw wedi'i gynnwys hefyd yn Atodiad 1.


9. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'Coch' neu 'Gritigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion / risgiau / cyfleoedd' Coch neu 'Gritigol' angen sylw ar hyn o bryd.

10. Ar 31 Awst 2025 roeddem yn cadw llygaid ar 73 o weithredoedd oedd angen sylw. Roedd 10 ohonynt yn risgiau 'sylweddol' (ambr) a 63 yn 'gymedrol' (melyn), fel y dengys graff 1.

## Graff 1 – Cyfanswm y gweithredoedd sydd angen sylw



## Graff 2 - Gweithredoedd Hwyr





11. Rydym yn monitro'r holl weithredoedd ac rydym yn cysylltu â rheolwyr ar ddiwedd y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn sylw. Mae un weithred yn 'hwyr' ar hyn o bryd gan nad yw rheolwyr wedi cwblhau'r weithred erbyn y dyddiad a bennwyd, fel y gwelir yn y graff uchod.

12. Mae'r weithred hon yn gysylltiedig â mater oedd wedi'i asesu fel mater 'cymedrol' ac a godwyd yn ystod archwiliad o brosesau Debyd Uniongyrchol. Mae'n ymwneud â chyflwyno prosesau sefydlu taliadau debyd uniongyrchol di-bapur ar draws y Cyngor, er mwyn caniatáu i gwsmeriaid sy'n gwneud taliadau rheolaidd am wasanaethau'r cyngor trwy ddebyd uniongyrchol gael eu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn dros y ffôn neu ar y we.

13. Rydym ar ddeall fod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflwyno'r broses hon yn y gwasanaeth hamdden, ond mae rhagor o waith datblygu angen ei wneud cyn y gellir casglu taliadau trethi busnes a thaliadau gofal cartref yn y gwasanaethau cymdeithasol.

## Graff 3 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws




14. Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd angen sylw (heb ystyried y dyddiad a gytunwyd gyda rheolwyr i fynd i'r afael â nhw). Mae'n dangos fod rheolwyr

bellach wedi rhoi sylw i 78% o'r camau a gytunwyd ganddynt ac mae Archwilio Mewnol wedi dilysu 77%[1].


15. Mae'r 1% sydd heb gael eu dilysu'n ffurfiol eto'n gysylltiedig â gweithredoedd yn codi o ddau archwiliad: 'Prosesau Incwm y Gwasanaeth Morwrol' a 'Gosodiadau Tai'. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad, roeddem yn dilysu'r gweithredoedd a gwblhawyd gyda rheolwyr.

16. Mae'r gweithredoedd sydd 'heb eu dechrau' yn ymwneud â sawl archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar lle nad yw'r gweithredoedd a nodwyd wedi cyrraedd eu dyddiad cwblhau disgwyliedig eto. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Addysg Gynnar a Grant Gofal Plant
- Safon Diogelu Data Diwydiant y Cardiau Talu (PCI DSS)
- Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch
- Rheoli Asedau (YM 14)
- Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion

17. Pan fydd y dyddiadau hyn yn agosáu, byddwn yn cysylltu â rheolwyr i ofyn am ddiweddariad er mwyn mesur cynnydd.

## Graff 4 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed)





18. Yn wahanol i Graff 3, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod 99% o'r gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed wedi derbyn sylw.

19. O'r gweithredoedd hyn, mae Archwilio Mewnol wedi dilysu'r cyfan bron, ond, fel y manylir uchod, mae'r gweithredoedd hynny sydd eto i'w dilysu'n ymwneud â'r archwiliadau 'Gosodiadau Tai' a 'Prosesau Incwm y Gwasanaeth Morwrol'. Y weithred sydd 'ar y gweill' yw'r un sy'n hwyr, fel y manylir ym mharagraff 12 uchod, ac mae'n ymwneud â phrosesau debyd uniongyrchol.

[1]Mae Archwilio Mewnol yn gwirio'r holl weithredoedd sydd 'wedi cau' er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon fod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i'r afael â'r risg gwreiddiol a nodwyd.

20. O bryd i'w gilydd byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai camau, ond dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu cynnig rheswm dilys dros wneud hynny, e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy oherwydd bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater/risg/cyfle.

## Graff 5 – Yr holl Faterion / Risgiau / Cyfleoedd sydd angen sylw fesul blwyddyn




21. O'r 73  o weithredoedd sydd angen sylw yr ydym yn cadw llygaid arnynt, nid oes yr un 'mater / risg / cyfle' 'sylweddol' yn dyddio'n ôl yn bellach na 2023/24. Dengys hyn fod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â risgiau sydd â blaenoriaeth uwch.

22. Dim ond dau 'fater / risg / cyfle' hynach sydd heb dderbyn sylw llawn eto, ac maent yn gysylltiedig â chwblhau trefniadau mapio sicrwydd y cyngor ac adolygu polisïau atal twyll y cyngor. Mae'r ddau fater yn derbyn sylw.

23. Mae rheolwyr wedi ein sicrhau bod:

- Grŵp llywodraethu'n cael ei sefydlu i gefnogi'r broses mapio sicrwydd, a hynny yn dilyn cyhoeddi Atodiad i ddogfen y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae disgwyl hefyd i CIPFA gyhoeddi cyhoeddiad manwl pellach yn fuan ar fapio sicrwydd mewn llywodraeth leol. Yn ogystal, y gofrestr risgiau strategol fydd sylfaen y map sicrwydd ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth, mewn ymgynghoriad â Zurich Risk Engineering, yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr risgiau strategol ar hyn o bryd.

- Mae adolygiad cynhwysfawr o bolisïau atal twyll y cyngor yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd wedi'i gwblhau yn ystod yr Hydref.

24. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u materion / risgiau / cyfleoedd yn llwyddiannus ac yn brydlon, gofynnir i berchnogion gweithredoedd sy'n parhau heb eu datrys 12 mis yn dilyn y dyddiad cwblhau gwreiddiol, esbonio i'r Pwyllgor pam fod oedi mewn perthynas â mynd i'r afael â'r gweithredoedd.

25. Mae hyn yn berthnasol i un mater / risg / cyfle 'sylweddol' ar hyn o bryd ac mae'n gysylltiedig ag archwiliad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac, yn benodol, dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddiwyd gan y cyngor i fesur perfformiad yn y maes hwn.

26. Mae'r cyngor wedi adolygu'r cerdyn sgorio corfforaethol a diweddaru ei ddiffiniadau a'i ddangosyddion ar gyfer addasiadau canolig a mawr o dan y cynllun Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r DPA yn mesur perfformiad y cyngor yn ei gyfanrwydd yn y maes hwn eto, gan nad ydynt yn cynnwys cyswllt cyntaf y cleient, a hynny oherwydd heriau o ran derbyn y wybodaeth honno'n gywir o'r system gofal cymdeithasol.

27. Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol ffurfiol o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ym mis Hydref 2025 a byddwn yn darparu diweddariad mwy manwl i'r pwyllgor ynghylch cynnydd wrth fynd i'r afael â'r 'mater / risg / cyfle' hwn, yn ogystal â'r materion eraill sydd angen sylw ac a nodwyd yn ein adroddiad archwilio gwreiddiol ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

28. Mae diweddariad manwl ar statws y 10 mater / risg/ cyfle 'sylweddol' sydd angen sylw ac sy'n cael eu monitro yn 4action ar hyn o bryd yn dilyn yn Atodiad 1.

29. Byddwn yn cadw llygaid ar yr holl weithredodd sydd angen sylw er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

# Atodiad 1: Statws Manwl Materion / Risgiau / Cyfleoedd ‘Sylweddol’ sydd angen sylw

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyhoeddi’r Adroddiad | Dyddiad Targed Cyfredol | Gradd Sicrwydd yr Adroddiad* | Crynodeb o’r ‘Mater / Risg / Cyfle’ | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl** | 2023/24 | Mawrth 2024 | 01/10/25 | **Cyfyngedig** | Nid yw dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) presennol y cygnor ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl yn cyd-fynd ag amserlenni disgwyliedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau Tai. | **Ar y gweill**<br><br>Diweddarwyd cerdyn sgorio corfforaethol y cyngor er mwyn cynnwys dau DPA ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl sy’n gysylltiedig ag amcanion Tai y Cyngor. Mae’r gwasanaeth Tai wedi diweddaru ei ddiffiniadau a’i ddangosyddion ar gyfer addasiadau canolig a mawr o dan y cynllun Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl, er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw’r DPA yn mesur perfformiad y cyngor yn ei gyfanrwydd yn y maes hwn eto, gan nad ydynt yn cynnwys cyswllt cyntaf y cleient / cadarnhau’r addasiad i’r tŷ, oherwydd heriau o ran derbyn y wybodaeth angenrheidiol o’r system gofal cymdeithasol.<br><br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i’r afael a’r ‘materion / risgiau / cyfleoedd’ a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol ym mis Hydref 2025. |
| **Rhaglenni Addysg Gynnar a Grant Gofal Plant** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 31/10/25 | **Rhesymol** | Nid yw’r cyngor yn sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant - elfen Addysg (10 awr) ar gael i’r holl ddarparwyr gofal plant a gofalwyr plant preifat, yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. | **Nid yw’r cyfnod gweithredu wedi dod i ben eto.**<br><br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i’r afael â’r ‘materion / risgiau’ a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol ym mis Hydref 2025. |
| **Rhaglenni Addysg Gynnar a Grant Gofal Plant** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 31/10/25 | **Rhesymol** | Mae diffyg cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol yn effeithio ar y berthynas rhwng y Cyngor a’r sector gofal plant nas cynhelir, a gallai hyn gael effaith ar enw da’r Cyngor. | **Nid yw’r cyfnod gweithredu wedi dod i ben eto.**<br><br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i’r afael â’r ‘materion / risgiau’ a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol ym mis Hydref 2025. |

Tudalen 53

Tudalen 54

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Cyfredol | Gradd Sicrwydd yr Adroddiad* | Crynodeb o'r 'Mater / Risg / Cyfle' | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Archwiliad TG - Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS)** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 30/09/25 | **Rhesymol** | Nid yw'r cyngor wedi cwblhau'r holiadur hunanasesu PCI DSS eto ar gyfer ei holl sianelau talu. | **Ar y gweill**<br>Ym mis Mai 2025, comisiynwyd ymgynghorydd PCI DSS i asesu amgylchedd data cardiau (CDE) y cyngor a phob ffrwd incwm. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith fel y gellir cwblhau'r holl holiaduron hunanasesu'n llwyddiannus. |
| **Archwiliad TG - Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS)** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 30/09/25 | **Rhesymol** | Nid yw prosesau presennol ar gyfer derbyn taliadau gyda cherdyn dros y ffôn yn cydymffurfio â PCI DSS. | **Ar y gweill**<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i roi datrysiad ar waith ar gyfer y ganolfan alwadau sy'n cydymffurfio a PCI DSS, sef 'Call Secure' (taliadau'n cael eu cymryd trwy Paye.net). Mae rhai materion technegol wedi arafu cynnydd; er hynny, mae'r gwasanaeth yn disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd Medi. Mae datrysiadau sy'n cydymffurfio â PCI DSS yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i weld a ydynt yn addas ar gyfer derbyn taliadau â cherdyn dros y ffon yn y Gwasanaeth Hamdden, er mwyn sicrhau fod y datrysiad yn integreiddio'n effeithiol a'r system hamdden XN. Lle nad oes datrysiad sy'n cydymffurfio a PCI DSS ar gael ar hyn o bryd e.e. ar gyfer talu a cherdyn dros y ffon yn Oriel Môn, rydym ar ddeall na fydd taliadau cerdyn dros y ffôn yn cael eu derbyn mwyach. |
| **Rheoli Asedau (YM 14)** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 01/10/25 | **Rhesymol** | Nid yw'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y Cynllun Strategol Rheoli Asedau wedi cael eu mynegi'n eglur eto. | **Ar y gweill**<br>Mae cylch gorchwyl newydd y Tîm Arweinyddiaeth – Grŵp Cyfalaf a Digidol wedi'u datblygu. Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am oruchwylio cynlluniau strategol allweddol, gan gynnwys y cynllun strategol rheoli asedau a'r strategaeth rheoli asedau priffyrdd. Cyflwynir y cylch gorchwyl drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth i'w adolygu a'i gymeradwyo yn ystod mis Medi 2025. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Cyfredol | Gradd Sicrwydd yr Adroddiad* | Crynodeb o'r 'Mater / Risg / Cyfle' | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Asedau (YM 14)** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 01/10/25 | **Rhesymol** | Un o'r trefniadau llywodraethu allweddol a gynhwysir yn y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yw Grŵp Tir ac Asedau'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor wedi diweddaru cylch gorchwyl y grŵp i adlewyrchu hyn eto. Nid yw'r grŵp chwaith wedi cael unrhyw drosolwg o'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau ers ei fabwysiadu'r llynedd. | Fel yr uchod |
| **Rheoli Asedau (YM 14)** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 01/10/25 | **Rhesymol** | Ni sefydlwyd trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a monitro eglur ar gyfer Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor. | Fel yr uchod |
| **Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion** | 2025/26 | Mehefin 2025 | 31/03/26 | **Cyfyngedig** | Ôl-groniad o asesiadau ariannol yn aros i gael eu prosesu. | **Nid yw'r cyfnod gweithredu wedi dod i ben eto.**<br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol. Cyflwynir adroddiad dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025. |
| **Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion** | 2025/26 | Mehefin 2025 | 30/09/25 | **Cyfyngedig** | Mae gan y cyngor nifer o achosion o hen ddyledion sy'n gysylltiedig ag asesiadau ariannol / taliadau gohiriedig lle mae'r cleient wedi marw. | Fel yr uchod.<br>Rydym yn cynnal adolygiad dilynol ffurfiol ar hyn o bryd er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol. Cyflwynir adroddiad dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025. |

*Gradd sicrwydd bresennol - naill ai pan gynhaliwyd yr archwiliad gwreiddiol neu'n dilyn adolygiad dilynol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc** | Hunanasesiad Drafft 2024-25 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>carysedwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Rhaglen<br>gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud drafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Os nad yw'r Cyngor yn gwneud newid a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, rhaid iddo nodi yn yr adroddiad hunanasesu terfynol yr argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y Cyngor y newid.<br><br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo dderbyn a rhoi sylwadau ar adroddiad hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.15.1/2/3/4). Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad ac, os yw'n berthnasol, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd, neu y byddant yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion perfformiad. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor fod yr hunanasesiad drafft yn rhoi adlewyrchiad cywir o sut mae'r Cyngor yn perfformio tuag at gyflawni ei amcanion strategol fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023 i 2028. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu pedwerydd hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn yn ôl y disgwyl o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor barhau i adolygu'r graddau y mae'n cyflawni'r 'gofynion perfformiad', sef i ba raddau y mae:

- arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- Mae ganddo lywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau'r uchod.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- adolygu'r adroddiad hunanasesu drafft ac, os yw'n berthnasol, yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i fodloni ei ofynion perfformiad;
- os daw'r Pwyllgor i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau, dylid cymeradwyo'r adroddiad a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith i'r perwyl hwn.

# Adroddiad Hunanasesiad 2024/25 Drafft



DRAFFT

**Paratowyd gan** – Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi**: Medi 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu trydydd hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran –

- y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio
- gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth
- reoli a llinau risgiau cysylltiedig

yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol â hynny.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

DRAFT

# Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r amcanion strategol a nodir yn Cynllun y Cyngor wedi'i llunio er mwyn cefnogi'r Cyngor yn ei ddyletswydd i gwrdd â'n hamcanion llesiant er budd cenedlaethau'r presennol a hefyd chenedlaethau'r dyfodol.  Ein hamcanion llesiant:

a. Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
b. Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
c. Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcanion Strategol y Cyngor | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Llesiant 1** - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir | Yr Iaith Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg, Tai a'r Economi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Amcan Llesiant 2** - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib | Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg a Tai | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Amcan Llesiant 3** - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | Yr Iaith Gymraeg, Economi a Newid Hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.



**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n 'gartref'

### Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

# Ein Dull Hunanasesu

Cafodd y broses o fonitro perfformiad yr holl awdurdodau lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad, ei sefydlu fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses hunanasesu yn flynyddol gan gynnwys nodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ogystal â defnyddio adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2023, gwnaethom adolygu ein dull hunanasesu a gwneud nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Gwnaethom weithio ar y cyd gyda Gwasanaethau ar draws y Cyngor i addasu'r templed er mwyn canolbwyntio ar pedwar maes allweddol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y pedwar prif faes yw:

- Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad
- Cynllunio Gweithlu
- Cynllunio Ariannol
- Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg

Gwnaethom hefyd ganiatáu rhagor o amser fel bo Gwasanaethau'n gallu dechrau'r cyfnod casglu tystiolaeth. Fe wnaethom hefyd symud y cyfarfodydd herio gwasanaethau, a elwir yn Adolygiadau Gwasanaeth, o fis Ionawr i rhwng mis Mawrth a mis Mai er mwyn sicrhau bod data blwyddyn ariannol lawn ar gael i'w ddefnyddio. Credem fod hyn wedi cryfhau'r broses yn seiliedig ar ein profiadau o flynyddoedd blaenorol. Byddem yn parhau i adolygu ein prosesau hunanasesu bob blwyddyn a gweithredu newidiadau na chawsant eu gweithredu yn ystod 2024/25.

Mae hunanwerthuso yn rhan annatod o unrhyw broses i wella sefydliad, a hynny at ddibenion hunansicrhau; fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod cwblhau hunanwerthusiadau i safon hefyd yn darparu sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheolydidon a thrigolion.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) i gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu

DRAFT

perfformiad yn erbyn maen prawf diweddaredig a restrir isod ac yna cawsant eu herio ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig yn yr Adolygiadau Gwasanaeth:

| Cyfradd Perfformiad | Disgrifiad |
|---|---|
| Rhagorol | Perfformiad sy'n mynd tu hwnt i ddisgwyliadau'n gyson ac sy'n dangos cyfraniad rhagorol tuag at gyflawni amcanion strategol y Cyngor. |
| Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Gwasanaeth effeithiol sy'n perfformio'n dda, ac sy'n cyflawni canlyniadau rhagorol y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir. |
| Bodloni disgwyliadau | Perfformiad sy'n bodloni safonau sefydledig a chyflawni rhwymedigaethau statudol ac anstatudol ac sy'n ymwybodol o'r meysydd sydd angen eu gwella. |
| Angen gwelliannau | Perfformiad sy'n disgyn dan y safonau disgwyliedig ac sydd angen camau adferol gan y Gwasanaeth. |

Gofynnwyd i Wasanaethau unigol nodi meysydd i'w gwella yr oedd angen iddynt ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r meysydd i'w gwella hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad yma, fodd bynnag mae rhai wedi'u cynnwys mewn maes ehangach i'w wella ar gyfer y Cyngor a byddant yn cael eu rheoli gan wasanaeth arweiniol sydd wedi'i nodi yn yr adran 'beth allwn ni ei wneud yn well a sut?' yn yr adroddiad hwn.


Mae meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaethau unigol yn cael eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan ateb y cwestiynau canlynol mor syml â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella a sut?

DRAFT

Mae'r Hunanasesiad yn ffurfio rhan hanfodol o'n trefniadau rheoli perfformiad fel y gellir ei weld yn y diagram isod –




Am ragor o fanylion ar sut rydym yn monitro ac yn asesu perfformiad, ewch i [https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx](https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx) .

# Cynllunio Gwasanaeth a pherfformiad

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaethau yn arf hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n nodi beth fydd gwasanaethau'n ei ddarparu, yn darparu trywydd clir ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun y Cyngor, ac yn sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau. Yna mae rheoli perfformiad yn rhoi hyn ar waith drwy alluogi'r cyngor a'i staff i gynllunio, monitro ac adolygu blaenoriaethau drwy amcanion strategol, gwasanaethol ac unigol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant parhaus.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad fod gan y Cyngor afael da ar Gynllunio Gwasanaeth, yn ogystal â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a sut wireddu'r weledigaeth honno. Mae gan y cyngor awydd cryf i wneud gwelliannau parhaus ac mae'n onest wrth adolygu ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gweithgareddau blynyddol a threfniadau monitro.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol** – Mae gan y cyngor weledigaeth glir ar waith gydag amcanion mesuradwy ar gyfer darpariaeth gwasanaeth, sy'n cyd fynd ag anghenion y gymuned a gofynion deddfwriaethol. Mae gan y cyngor amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir a DPAau mesuradwy sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau strategol a'i nodau darparu gwasanaeth. | • Cynllun y Cyngor<br>• Gwerthoedd y Cyngor<br>• Cefnogi strategaethau a chynlluniau<br>• Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 12-16, 20-22<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol |
| **Casglu a Dadansoddi Data** – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth drwy fonitro data'n rheolaidd, dadansoddi data a nodi tueddiadau o'r data i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r cyngor yn cymharu perfformiad â chynghorau eraill pryd bynnag y bo modd i sicrhau bod y perfformiad yn unol â'r disgwyliadau ac mae'n nodi meysydd i'w gwella. | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth<br>• Dangosfyrddau PowerBI; sero net, taclo tlodi, profiad y cwsmer<br>• Stats Cymru<br>• Data Cymru<br>• Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi)<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9<br>• Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Cofnodion Pwyllgor y Cyngor |
| **Monitro ac Adrodd Rheolaidd –** Mae'r cyngor yn sicrhau atebolrwydd a chywirdeb o ran rheoli perfformiad drwy fonitro perfformiad yn erbyn DPAau sefydledig yn rheolaidd a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar berfformiad i aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, swyddogion, a'r cyhoedd. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn<br>• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) |
| **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid –** Mae'r cyngor yn ymgysylltu'n gyson gyda thrigolion Ynys Môn, busnesau, partneriaid a staff, i gasglu adborth ar ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion y gymuned. | • Ymgynghoriadau cyhoeddus<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9<br>• Arolwg Preswylwyr<br>• Arolwg Staff |
| **Arloesi ac Addasu –** Mae gan y cyngor enw da ar gyfer arloesi ac mae'n addasu'n dda i amgylchiadau sy'n newid. | • Porth car solar mewn meysydd parcio'r cyngor<br>• Uned Ysgol y Graig 'Fach' yn Net Sero<br>• Porthladd rhydd<br>• Rhaglen Adfywio Caergybi - Ciosg glan môr Caergybi<br>• Cymunedau Dementia Gyfeillgar<br>• Rhaglen 'Swim Safe' Môn Actif<br>• Cynllun Dialysis Gartref Ynys Môn |
| **Cydymffurfio gyda Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddio –** mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau a dyletswyddau statudol, ac mae'n sicrhau atebolrwydd a chywirdeb yn ei brosesau gwneud penderfyniadau | • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>• Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Diwylliant Gwelliant Parhaus** – Mae gan y cyngor ddiwylliant o welliant parhaus mewn arferion rheoli perfformiad, trwy adolygiadau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n galluogi'r cyngor i addasu i amgylchiadau sy'n newid, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ysgogi gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau. | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 |

DRAFT

# Cynllunio Ariannol

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dynodi adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at 1 mlynedd), y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaeth i'r gymuned.

Mae gan y cyngor afael da ar Gynllunio Ariannol, ac mae cynllun ariannol clir ar waith er mwyn cyflawni gweledigaeth y cyngor.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Rheoli Cyllideb** – Mae gan y cyngor broses rheoli cyllideb gref ar waith sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, ac sydd hefyd yn lleihau'r risg o orwariant neu ddiffyg ariannu. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Sefydlogrwydd Ariannol** – Mae gan y cyngor gronfeydd wrth gefn digidol a lefelau dyled isel perthynol â'i incwm, ac mae'n dangos arferion rheoli arian doeth sy'n sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol** – Mae'r cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni'r galw ar y gwasanaeth a gofynion darparu, yn ogystal â chynyddu ei werth am arian. | • Llyfr y Gyllideb<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16 |
| **Cywirdeb ac Atebolrwydd** – Mae gan y cyngor broses adrodd ar reolaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb yn chwarterol a datganiad ar gyfrifon blynyddol. | • Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 23-24<br>• Proses Gosod Cyllideb |
| **Cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Ariannol** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau ariannol perthnasol, safonau cyfrifo a gofynion cyfreithiol gan gynnwys cyllid craidd a chyllid grant. | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Monitro** – Mae'r cyngor yn monitro'n rheolaidd ac yn goruchwylio perfformiad ariannol, gan gynnwys adroddiad ar y gyllideb refeniw bob chwarter, y gyllideb gyfalaf a chyfrifon y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wrth sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. | • Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Asesiadau Archwilio** – Mae'r cyngor wedi derbyn adroddiadau archwilio cadarnhaol gan archwilwyr gan gynnwys Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, sy'n darparu dilysiad annibynnol ar gyfer arferion rheolaeth ariannol. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol<br>• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol |

DRAFFT

# Cynllunio Gweithlu

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gweithlu yn broses lle mae'r cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu ac anghenion y dyfodol yn erbyn ei ymrwymiadau, cynlluniau ac amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw gweithwyr sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, gan fyfyrio ar egwyddor cynllunio tymor hir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan y cyngor ddealltwriaeth gref o gynllunio gweithlu, ac mae ganddo 'r gofynion ar waith er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau, cynllunio ac amcanion o safbwynt adnoddau dynol. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r swyddi sy'n fwy heriol i'w recriwtio ac mae ganddo gynlluniau ar waith i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Hyfforddiant a Datblygu** – Mae'r cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd i staff ymgymryd â hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd i wella sgiliau sy'n galluogi gweithwyr i ddatblygu ac addasu i ofynion gwaith sy'n parhau i newid yn ogystal â gwelliannau technegol. | • Adroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19<br>• Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant<br>• Academi Môn<br>• Cyrsiau byr i staff |
| **Cynllunio Gweithlu** – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gael y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a sicrhau cydymffurfiad gydag amcanion strategol y cyngor a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau olyniaeth i adnabod a datblygu arweinwyr y dyfodol a phersonél allweddol, fydd yn sicrhau parhad a chynaliadwyedd. | • Strategaeth Cynllunio Gweithlu<br>• Strategaeth Rheoli Risg Pobl<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |
| **Buddion gwaith** – Mae'r cyngor yn cynnig nifer o fuddio i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gwaith a nifer o bolisïau eraill sydd wedi'u dylunio er mwyn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith staff. | • Gweithio hyblyg (Hybrid / Opsiynnau i weithio'n hyblyg / ymddeol yn hyblyg)<br>• Cynllun beicio i'r gwaith<br>• Manteision Môn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Adolygu perfformiad** – Mae gan y cyngor system glir ar gyfer mesur perfformiad gweithwyr, cydymffurfiaeth gyda strategaethau'r cyngor ac amcanion strategol, a datblygiad gyrfaol a hynny drwy ei drafodaethau blynyddol gyda staff, adolygiad blynyddol ar y gweithlu a rheolaeth talent effeithiol. | • System werthuso<br>• Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |
| **Ymgysylltiad gyda Gweithwyr a'u Boddhad** – Mae gan y cyngor sawl ffordd o ymgysylltu gyda gweithwyr, gan gynnwys holiaduron staff a mecanweithiau adborth eraill sy'n ffordd o gyfathrebu'n effeithiol gyda staff ac yn fodd o sicrhau amgylchedd gwaith lle gall staff ffynnu a bod yn frwdfrydig. | • Presenoldeb staff<br>• Cadw staff<br>• Holiaduron staff<br>• Sesiwn Briffio Aelodau<br>• Fforwm Môn<br>• Y Ddolen<br>• Diweddariad gan y Prif Weithredwr<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |

DRAFT

# Llywodraethu: Rheoli Risg, Archwilio, Caffael a Chontractau

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau



## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r cyngor. Mae'n helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r cyngor yn monitro ac yn adolygu'r risgiau strategol a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith yn rheolaidd i'w monitro ac mae ganddo berthynas ragorol â rheoleiddwyr ac archwilwyr. mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o reolau a gweithdrefnau caffael, ac mae trefniadau rheoli contract yn gweithio'n dda. Mae prosesau a gweithdrefnau cyffredinol yn gryf ac mae diwylliant y sefydliad yn sicrhau eu bod yn arferion hanfodol mewn gweithgareddau dydd i ddydd.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Adnabod Risgiau –** Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |
| **Lliniaru Risgiau –** Mae'r cyngor yn dangos arferion rheoli risg rhagweithiol gyda'r nod o leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau a rheolaethau lliniaru risg effeithiol i fynd i'r afael â nhw. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Swyddogaeth Archwilio Mewnol** – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n un o elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. | • Strategaeth Archwilio Mewnol<br>• Siarter Archwilio Mewnol<br>• Diweddariadau Archwilio Mewnol<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol |
| **Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr –** Mae'r cyngor yn onest ac yn llwyr gefnogi ei archwilwyr allanol a rheoleiddwyr ar bob agwedd ar fusnes y cyngor gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gweithgareddau corfforaethol eraill sydd yn eu tro yn darparu dilysiad annibynnol o'i reolaethau a'i arferion mewnol. | • Adroddiad Monitro Archwilio Allanol<br>• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>• Adroddiadau Estyn<br>• Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a Chaffael Moesegol** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl safonau a rheoliadau caffael, ac mae pob contract yn cael eu reoli felly pan fydd angen ei adnewyddu neu pan fydd angen un newydd. Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau. | • Canllaw Caffael<br>• Polisi Caffael TG<br>• Cytundeb a pholisi prosesu data<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Adolygiad Caffael STAR a Chynllun Gweithredu<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7<br>• Diogelu mewn caffael a chontractio<br>• Polisi Caffael Cynaliadwy<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Rheoli Contractau a Monitro Perfformiad –** Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt. | • Strategaeth Rheoli Contractau<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

DRAFT

# Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Isod, gweler y meysydd sydd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella a'u monitro yn ystod 2024/25.

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 1. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | • Datblygu Cynllun Strategol Data gyda'r nod o ddod yn Gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata<br>• Parhau i symud ymlaen â'r 4 blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol Digidol<br>• Datblygu'r rhyngwyneb 'Chatbot' i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid<br>• Adolygu canolfannau cyswllt cwsmeriaid ac ystyried argymhellion i wella profiad y cwsmer | Trawsnewid | Mawrth 2026 |
| 2. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | • Gweithredu'r camau cytunedig o'r Cynllun Gwella Caffael | Adnoddau | Mawrth 2026 |
| 3. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | • Gwneud y defnydd gorau o'r grantiau sydd ar gael i'r cyngor<br>• Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)<br>• Adnabod arbedion ar gyfer 2026/27 ymlaen<br>• Adolygu a symleiddio prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid | Adnoddau | Mawrth 2026 |

DRAFT

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 4. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | • Diweddaru a cyhoeddi Cynllun Rheoli Stad man-ddaliadau newydd<br>• Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadurol newydd<br>• Rhesymoli asedau'r cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Mawrth 2026 |
| 5. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | • Adolygu, diwygio a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer Busnes y Cyngor a'r Uned Ddarparu<br>• Gwasanaethau i fyfyrio a gweithio gydag Adnoddau Dynol i wneud pob ymdrech i 'dyfu staff eich hunan' trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n wedyn yn gwella recriwtio a chadw staff.<br>• Cynllun graddedigion Dyfodol Môn – parhau â'r rhaglen yn 25/26 - gan greu cyfleoedd deinamig i raddedigion uchelgeisiol ddatblygu sgiliau arbenigol a dechrau gyrfa gyda'r cyngor. | Trawsnewid | Mawrth 2026 |

DRAFT

# Datganiad Sefyllfa Allbwn Gwasanaethau'r Cyngor – 2025

Isod, sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2025

| Gwasanaeth | Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad | Cynllunio Ariannol | Cynllunio Gweithlu | Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Bodloni |
| Plant a Theulueodd | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |
| Busnes y Cyngor | Bodloni | Angen gwelliannau | Bodloni | Bodloni |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Bodloni | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Bodloni |
| Tai | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Bodloni |
| Dysgu | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |
| Adnoddau | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Meets | Mynd tu hwnt |
| Trawsnewid | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Mynd tu hwnt |
| Allbwn Cyffredinol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |

## Cynnydd yn erbyn y materion gwella a nodwyd o'r hunanasesiad blaenorol

Mae'r tabl yn amlinellu'r camau gwella a nodwyd y llynedd a gellir gweld diweddariad ar y cynnydd isod.

| Materion gwella a nodwyd | Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| 1. Mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol ar ôl mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028 | Trawsnewid | Dyluniwyd Cerdyn Sgorio Corfforaethol newydd ac fe'i hadroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol. |
| 2. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | Trawsnewid | Mae'r Cynllun Digidol Strategol bellach ar waith gyda'r nod o ddarparu cyfarwyddyd a gweledigaeth glir ynglŷn â TG gorfforaethol yn seiliedig ar  egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth y Cyngor o ran darparu gwasanaeth TGCh.<br><br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system ffôn newydd yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o'i swyddfeydd a safleoedd.<br><br>Cwblhawyd asesiad aeddfedrwydd data yn ystod y flwyddyn ac mae gweithgor wrthi'n gweithio ar y camau nesaf i wella'r data yn cynnwys strategaeth data newydd. |
| 3. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | Adnoddau | Cafodd y Cynllun Strategol Caffael a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2024. Daeth Deddf Caffael 2023 i rym ym mis Chwefror 2025.<br><br>Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi lwyddiannus ddechrau'r flwyddyn, a derbyniodd dros 100 aelod o'r staff hyfforddiant ar y ddeddf caffael newydd a ddarparwyd yn fewnol. Mae llawlyfr caffael a thempledi hefyd ar gael.<br><br>Mae Rheolwr Caffael wedi cael ei benodi dros dro yn dilyn trafferthion recriwtio. |

DRAFT

| Materion gwella a nodwyd | Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| 4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid | Adnoddau | Llwyddodd y Cyngor i sicrhau grantiau cyfalaf gwerth £47.748m yn ystod 2024/25, sy'n cyfateb i 61% o'r holl gyllid cyfalaf yn 2024/25. Cafodd y CATC ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2027/28 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, ac mae cyfnod y cynllun wedi cael ei ymestyn o 2 i 3 blynedd.<br><br>Yn ystod y broses o osod y gyllideb yn gynnar yn 2025 cafodd arbedion gwasanaeth eu cynnig er mwyn ymgynghori arnynt. Bydd modd i arbedion a gafodd eu nodi ond na chafodd eu gweithredu yn 2025/26 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2026/27.<br><br>Mae gwaith ar y gweill ar draws y gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o symleiddio prosesau er mwyn lleihau costau. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer costau newid wedi cael ei sefydlu i ariannu unrhyw gostau'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau. Mae enghreifftiau o'r cyllid a ddarparwyd hyd yma'n cynnwys:<br><br>1. Incwm Morwrol – i ariannu'r gost o brynu a gosod peiriannau Sglodyn a Rhif Adnabod Personol (Chip & PIN) fel y gall ymwelwyr dalu am wasanaethau â cherdyn ar y traeth.<br>2. Adolygiad Trafnidiaeth – i ariannu'r gost o gynnal adolygiad allanol o ddarpariaeth trafnidiaeth y Cyngor ar draws pob gwasanaeth, gyda'r nod o ganfod newidiadau er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynol am lai o arian.<br>3. Porth Mynediad i Ddinasyddion – sy'n caniatáu i Drethdalwyr, pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Tai a landlordiaid gael mynediad at eu cyfrifon fel y gallant dderbyn gwybodaeth am eu cyfrif a diweddaru'r Cyngor Yenglin ag unrhyw newidiadau yn electronig |

DRAFT

| Materion gwella a nodwyd | Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| 5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | Priffyrdd, Gwastraff ag Eiddo | Cafodd yr holl gamau lliniaru i reoli RAAC yn adeiladu'r Cyngor eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cafodd System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur newydd ei mabwysiadu yn 2024 gyda'r nod o'i defnyddio i reoli asedau, gwaith cynnal a chadw a phrosiectau adeiladu'r Cyngor.<br><br>Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth rheoli asedau mân ddaliadau newydd a bwriedir cwblhau'r gwaith yn ystod 2025/26. |
| 6. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | Trawsnewid | Mae'r Cyngor yn dal i recriwtio ar gyfer yr Uned Darparwyr. Yn ystod 2024/25 roedd y cynllun Denu Talent yn canolbwyntio ar y Gwasanaethau Oedolion, yn benodol ceisio recriwtio i swyddi sy'n anodd eu llenwi. Cymerodd pum person ifanc ran mewn profiad gwaith 10 wythnos o hyd, a phenodwyd dau i swyddi parhaol yn dilyn hynny. Adolygwyd y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Rheoli Risgiau'n gysylltiedig â Phobl yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cafodd tudalennau Gyrfaoedd newydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (Swyddi a Gyrfaoedd).<br><br>Mae pwyslais o hyd ar geisio cadw staff, yn enwedig mewn meysydd â throsiant uchel. Roedd trosiant staff yn 8% yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 9% y flwyddyn flaenorol, ac roedd lefelau cadw staff yn tua 93% ar gyfer 24/25. |

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwylio unrhyw feysydd o dwyll a gaiff eu hadnabod mewn adroddiad blynyddol a monitro'r cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a'u rheoli (3.4.8.9.5). Maent hefyd angen i'r Pwyllgor ystyried y sicrwydd a ddarperir gan archwilio mewnol (3.4.8.9.6).<br><br>Yn ogystal, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod mesurau er mwyn atal a chanfod gwallau a thwyll wedi'u cynnwys yn systemau rheoli cyfrifeg y Cyngor.<br><br>Yn olaf, er nad yw bellach yn safon yn ei hun yn Y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (GIAS), ystyrir twyll yn risg treiddiol ac fe'i ystyrir drwy gydol y safonau. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2024-25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn ac mae'n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau'r risg o dwyll.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar y gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2024-25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn ac yn nodi'r sicrwydd a ddarparwyd i'r Pwyllgor am effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll.

# Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25

Medi 2025




Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



# Cynnwys

Cyflwyniad ____ 2
Y Cyd-destun Presennol ____ 3
Amcanion strategol 2025-2028 ____ 4
Ymdrechion i gyflawni twyll yn erbyn y cyngor 2024-25 ____ 5
Cynnydd o ran Gweithredu Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ____ 6
Casgliad ____ 7
Atodiad 1 – Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd? ____ 8
Atodiad 2 – Pileri Strategol ____ 9
Atodiad 3 – Cynllun Cyflawni Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 ____ 12
Atodiad 4 - Canlyniadau'r Adnodd Adrodd am Dwyll (rhwng 25/11/2024 a 31/03/2025) ____ 16
Atodiad 5 - Rhybuddion twyll a gyhoeddwyd ____ 17



# Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2024-25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd[1] rhag digwydd yn y cyngor ac yn ei erbyn.
2. Yn ystod 2024-25, roedd hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2022 (PSIAS), oedd yn nodi bod rhaid i archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y byddai twyll yn digwydd a sut oedd y sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
3. Ers 1 Ebrill 2025, mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) wedi cael eu disodli gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU. Er nad yw bellach yn safon yn ei hun, ystyrir bod twyll yn risg treiddiol ac fe'i ystyrir drwy gydol y safonau.
4. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau fod systemau rheoli cyfrifeg y Cyngor yn cynnwys mesurau i atal a chanfod gwallau a thwyll.
5. Roedd adroddiad[2] gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn datgan bod gwerth y colledion yn y sector cyhoeddus oherwydd twyll yn anhysbys. Roedd adroddiad[3] gan Swyddfa'r Cabinet yn nodi bod ystod y colledion tebygol yng ngwariant y llywodraeth rhwng 0.5% a 5% o'r gwariant.
6. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, mae'n awgrymu y gallai colledion yn sgil twyll a chamgymeriadau fod rhwng £1.13 miliwn ac £11.3 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar gyllideb refeniw gros o £226 miliwn ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn 2024-25.
7. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ar gynnydd y cyngor wrth ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol mewn adroddiad[4] a gyhoeddwyd yn 2020.

[1] Mae esboniad o beth yw twyll, llwgrwobrwyo a llygredd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1
[2] Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Archwilio Cymru, Mehefin 2019
[3] Cross-Government Fraud Landscape Annual Report 2019, Swyddfa'r Cabinet
[4] 'Gwella Ein Perfformiad' Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru, Archwilio Cymru, Gorffennaf 2020

# Pam fod Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn Bwysig?

8. Mae pob punt a gollir oherwydd twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen.

9. Mewn cyfnod pan mae pwysau ariannol yn cynyddu, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll, yn ogystal â chefnogi cynaliadwyedd ariannol.

10. Gall twyll gael effaith ar enw da'r sector cyhoeddus hefyd, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd ac effeithlonrwydd sefydliadau.

11. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.



12. Mae'r sector cyhoeddus yn cael ei dargedu'n gynyddol bellach, oherwydd bod y trafodion ariannol yn fwy, ac mae twyllwyr yn gallu gwneud mwy o elw.

13. Yn y 'Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd'[5] mae CIPFA yn dadlau:

> **"Mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol."**

# Y Cyd-destun Presennol

14. Gyda'r rhyfel yn Wcráin yn parhau, ynghyd â'r argyfwng costau byw, risgiau allweddol eraill i fusnesau, megis amharu ar y gadwyn gyflenwi, materion cadw staff a bygythiadau seiber, mae'r cyfleoedd i dwyllo'n parhau i gynyddu a bydd twyllwyr yn manteisio ar y sefyllfa gan ddefnyddio dulliau mwyfwy soffistigedig i gyflawni troseddau.

15. Mae pryder gwirioneddol ymysg sectorau cyhoeddus a phreifat y DU fod twyll bellach wedi cyrraedd lefelau digynsail. Yn ôl y Swyddfa Gartref, mae dros 40% o droseddau yn gysylltiedig â thwyll ond mae'n derbyn llai na 1% o adnoddau'r heddlu, a thwyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr, lle amcangyfrifir y cafwyd 4.2 miliwn o ddigwyddiadau twyll yn 2024-25; cynnydd o 31% o gymharu â 2023-24 (3.2 miliwn o ddigwyddiadau). Y rheswm pennaf oedd cynnydd o 30% mewn twyll yn gysylltiedig â chyfrifon banc a chredyd a chynnydd o 23% mewn twyll yn gysylltiedig â defnyddwyr a mân-werthu. [6]

16. Mae'n bryderus bod adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 gan Fanc y Co-operative, a oedd yn dadansoddi achosion gan ddefnyddio gwybodaeth y National Fraud Intelligence Bureau (NFIB), yn datgelu bod y tair ardal sydd â'r cyfraddau uchaf o dwyll fesul poblogaeth yn y DU yng Nghymru, gyda'r gyfradd uchaf o 43 digwyddiad fesul 1,000 o breswylwyr yng Ngogledd Cymru, ac yna Gwent a de Cymru. Mae'r effaith ariannol yn sylweddol, gyda bron i £10 miliwn wedi'i golli oherwydd twyll yng ngogledd Cymru - mae hyn gyfystyr â £141 y person.[7]

17. Mae twyll yn erbyn y llywodraeth hefyd yn parhau i fod yn bryder sylweddol, er bod cyfanswm gwerth y twyll wedi gostwng. Mae amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, a ryddhawyd yn yr Adroddiad Tirwedd Twyll ym Mawrth 2024, yn dangos bod yr her i'r llywodraeth wrth weithredu ar dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn sylweddol. Yr amcangyfrif (gan gynnwys treth a lles)

---

[5] Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption, CIPFA, 2014
[6] Crime in England and Wales: year ending March 2025, ONS, Gorffennaf 2025
[7] Adroddiad Twyll y DU: Where are the biggest fraud hotspots, The Co-operative Bank, 25 Hydref 2024

yw bod rhwng £39.8bn a £58.5bn o arian cyhoeddus yn destun twyll a chamgymeriadau.[8]

18. Mae Baromedr Twyll KPMG[9] yn amlygu bod twyll budd-daliadau wedi cynyddu'n sylweddol iawn, yn bennaf oherwydd un achos mawr o drosedd cyfundrefnol, gan amlygu'r angen i sicrhau fod mesurau diogelu a rheolaethau priodol ar waith.

19. Mae gan Ddealltwriaeth Artiffisial (DA) rôl ddeublyg, ac mae'r defnydd o DA gan dwyllwyr (i greu cynlluniau soffistigedig) a sefydliadau (i ganfod twyll yn well) wedi cynyddu.

20. Mae'r bygythiad mewnol gan reolwyr a staff yn parhau i gael ei gydnabod fel mater difrifol. Er bod y ffigyrau wedi gostwng ers y llynedd, yn 2024-25 cofnodwyd 5,387 o droseddau 'dwyn gan weithwyr' yng Nghymru a Lloegr, o gymharu â 6,235 yn 2023-24. [10]

21. Yn ei adroddiad[11] sy'n trafod yr heriau a wynebir gan y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn pryderu y gallai fod yn rhy hawdd i gyrff cyhoeddus ystyried eu buddsoddiad mewn gwaith atal twyll fel elfen ddewisol yn hytrach na hanfodol ymysg pwysau eraill.

22. Gan ddyfynnu amcangyfrifon Swyddfa'r Cabinet bod o leiaf £33 biliwn o arian trethdalwyr y DU (gan gynnwys trethi a lles) yn destun twyll a chamgymeriadau bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu bod y cyfleoedd yn rhai sylweddol os yw'r ewyllys yn bodoli i fynd i'r afael â nhw.

23. Mewn ymateb, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, a lansiwyd yn Awst 2022, i foderneiddio gweithgarwch atal twyll yn y sector cyhoeddus, cyhoeddi ei Strategaeth Twyll[12] a chyflwyno deddfwriaeth newydd, gan gynnwys y drosedd o 'fethu ag atal twyll' a gyflwynwyd yn y Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 a ddaeth i rym ar 1 Medi 2025.

# Amcanion strategol 2025-2028

24. Wrth ystyried ein hamcanion, fe wnaethom ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (2014) (Cod CIPFA), sy'n nodi'r arfer orau ar gyfer gwaith atal twyll mewn llywodraeth leol, yn seiliedig ar bum egwyddor.

25. Yn ogystal, gan nad oes strategaeth gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, na fframwaith polisi, defnyddiom 'Fighting Fraud and Corruption Locally: A Strategy for the 2020s' (FFCL), fel sylfaen i'n ffocws strategol. Dyma'r strategaeth atal twyll a llygredd gyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr ac mae'n gosod patrwm ar gyfer ymateb yn fwy cadarn i dwyll a llygredd yn erbyn awdurdodau lleol.

26. Yn yr un modd â Chod CIPFA, mae'r strategaeth FFCL yn canolbwyntio ar bum piler o weithgarwch, neu amcanion strategol, y ceir manylion amdanynt yn Atodiad 2, ac mae'n ein cynorthwyo i nodi ym mhle mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion yn y maes atal twyll.

27. Defnyddiwyd yr amcanion strategol hyn i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer gweithgarwch atal twyll. Mae diweddariad ar gynnydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

28. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys cynnydd gwirioneddol mewn ymwybyddiaeth o e-byst twyllodrus posib o ganlyniad i'r rhaglen hyfforddi a gyflwynwyd yn ystod 2023-24, a lansio'r adnodd corfforaethol ar gyfer adrodd am dwyll. Mae manylion yn dilyn isod.

## Ymgais i dwyllo yn gysylltiedig â mandad banc yn enw'r Prif Swyddog Gweithredol

29. Anfonwyd e-bost oedd yn honni i fod yn e-bost gan y Prif Swyddog Gweithredol yn uniongyrchol at Reolwr Adnoddau Dynol yn gofyn am gael newid eu manylion banc. Roedd yr e-bost yn edrych fel pe bai

[8] Public Sector Fraud Authority Delivery Plan 2024/2025, Swyddfa'r Cabinet, Ionawr 2025
[9] Fraud Barometer 2024, KPMG, Mai 2025
[10] Number of theft by an employee offences in England and Wales from 2002/03 to 2024/25, Statista, cyrchwyd 15/09/2025
[11] O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol - yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru, Archwilio Cymru, Chwefror 2024
[12] Fraud Strategy: stopping scams and protecting the public, Mehefin 2023

wedi dod yn uniongyrchol gan y Prif Swyddog Gweithredol ac nid oedd systemau TGCh wedi ei adnabod fel neges faleisus. Fodd bynnag, roedd y Rheolwr Adnoddau Dynol wedi bod ar gwrs atal twyll yn ddiweddar ac roedd yn fwy ymwybodol o e-byst twyllodrus. Er bod yr e-bost yn ymddangos yn un dilys, roedd yr iaith a ddefnyddiwyd wedi codi pryder. Yn dilyn ymchwiliad gan y Tîm Seiber TGCh, canfuwyd fod y neges wedi dod o gyfrif gmail ffug a chafodd cyfeiriad e-bost y sawl oedd wedi anfon y neges ei flocio.

## Adnodd Adrodd am Dwyll

30. Ym mis Tachwedd 2024, aeth Adnodd Adrodd am Dwyll y cyngor yn fyw ar wefan y cyngor. Oherwydd problemau capasiti o fewn y tîm, nid oedd lansio'r adnodd wedi cael ei hyrwyddo trwy dîm cyfathrebu corfforaethol y cyngor. Fodd bynnag, er na chafodd yr adnodd ei hyrwyddo, mae'r canlyniadau wedi bod yn ardderchog ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

31. Yn ôl y disgwyl, mae'r rhan fwyaf o honiadau'n ymwneud â thwyll Refeniw a Budd-daliadau (68% neu 13/19). Gall honiadau ynglŷn â thwyll yn gysylltiedig â gostyngiad person sengl y dreth gyngor a'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor (yn aml oherwydd nad yw pobl yn datgelu bod eu partner yn byw yn y cyfeiriad) fod yn sensitif ac anodd i'w hymchwilio. Bydd yr adolygiad allanol sydd ar y gweill i baru data gostyngiadau person sengl y dreth gyngor yn cael ei ddefnyddio i ymchwilio'r honiadau hyn.

32. Ymchwiliwyd i honiad o dwyll tenantiaeth tai cymdeithasol (eiddo'r cyngor ddim yn cael ei ddefnyddio fel prif gartref) gan swyddog rheoli tai y cyngor a daeth i'r casgliad, yn ôl yr hyn sy'n debygol, nad oedd modd profi'r honiad a chaewyd yr achos.

33. Ar hyn o bryd rydym yn mynd ati i recriwtio Swyddog Yswiriant ac Atal Twyll. Bydd y swydd hon yn darparu mwy o gefnogaeth strategol a gweithredol i wasanaethau fel y gellir ymchwilio i honiadau o dwyll yn fwy effeithiol, gan arwain at wella canlyniadau.

34. O'r herwydd, rydym yn bwriadu lansio'r Adnodd Adrodd am Dwyll yn ystod yr wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Dwyll ym mis Tachwedd 2025 (16-22 Tachwedd 2025), ar y cyd â rhaglen hyrwyddo.

# Ymdrechion i gyflawni twyll yn erbyn y cyngor 2024-25

35. Derbyniwyd pum honiad o dwyll posib yn erbyn y cyngor. Yn dilyn ymchwiliadau rhagarweiniol, ni chymerwyd camau pellach mewn perthynas â phedwar achos oherwydd:
    - Roedd contract y gweithiwr wedi'i ddirwyn i ben oherwydd camymddwyn difrifol nad oedd yn gysylltiedig â'r honiad
    - Nid oedd digon o dystiolaeth i barhau, ond cynghorwyd y gwasanaeth i wrthod unrhyw geisiadau pellach am grantiau
    - Nid oedd y cyngor, nac unrhyw un allanol, ar ei golled na'i ennill
    - Nid oedd y gweithiwr wedi gweithredu'n amhriodol

36. O ran yr achos oedd yn weddill, cynhaliom ymchwiliad mewnol mewn ymateb i honiadau ynghylch gwariant y cyngor ar gontractwyr trydanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y berthynas gaffael gyda chontractwr.

37. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad ein hymchwiliad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025 ac mae crynodeb o'r achos i'w weld isod, er gwybodaeth.

## Gwariant ar Gontractwyr Trydanol, Ionawr 2025

38. Roedd achwynydd yn honni bod swyddogion y cyngor wedi dangos ffafriaeth i gontractwr wrth gaffael a dyrannu gwaith trydanol. Roedd y gŵyn hefyd yn nodi y gallai'r ffafriaeth fod wedi'i ddylanwadu gan gysylltiadau personol nas datgelwyd rhwng staff y cyngor a'r contractwr. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw unigolion penodol na theitlau swyddi, a gwrthododd yr achwynydd ddarparu tystiolaeth bellach na chymryd rhan mewn trafodaethau dilynol.

39. Yn sgil y pryderon hyn, canolbwyntiodd ein hymchwiliad ar bedwar prif faes, gyda'r nod o daflu goleuni ar uniondeb arferion caffael y cyngor - gweithdrefnau caffael, dadansoddi gwariant, rheoli gwrthdaro buddiannau a rheolaethau twyll.

40. Daeth ein hymchwiliad i'r casgliad bod trefniadau caffael y gwaith trydanol a ddyfarnwyd i'r contractwr yn cydymffurfio â rheolau

gweithdrefnau contract a'i fod wedi'i gynnal gan ddefnyddio prosesau teg, tryloyw a chystadleuol a oedd yn sicrhau gwerth am arian.

41. Ni chadarnhawyd yr honiadau fod y contractwr wedi cael ei drin yn ffafriol. Oherwydd bod y contractwr mewn safle isel ar y rhestrau contractwyr perthnasol, nid oedd yn cael ei ystyried ar gyfer prosiectau ysgolion nac adeiladau corfforaethol. Dyfarnwyd gwaith sylweddol a gwblhawyd mewn ysgol drwy dendr cystadleuol ar wahân, a hysbysebwyd ar GwerthwchiGymru.

42. Er bod gwrthdaro buddiannau posib wedi'i nodi, yn gysylltiedig â chyn weithiwr, nid oes unrhyw dystiolaeth o ddylanwad amhriodol wrth ddyfarnu contractau. Yn nodedig, parhaodd y contractwr i dderbyn gwaith sylweddol yn 2022 a 2023, yn dilyn ymddiswyddiad y gweithiwr dan sylw, a hynny ar sail arfarniad cystadleuol o brisiau ac ansawdd.

43. Cyhoeddwyd tendr newydd ar GwerthwchiGymru. Oherwydd yr honiadau blaenorol, cynghorwyd y dylid defnyddio panel arfarnu cymwys i oruchwylio'r broses er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg a chyfartal.

44. Roedd yr ymchwiliad hefyd yn nodi cyfleoedd i gryfhau'r datganiad o fuddiannau personol ac ariannol, a'r trefniadau rheoli, yn ogystal â mân wallau gweithdrefnol wrth godi anfonebau a gafodd eu cyfeirio ar gyfer adolygiad mewnol.



## Cynnydd o ran Gweithredu Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

45. Fe wnaethom asesu cynnydd y cyngor o ran gweithredu'r 15 argymhelliad yn adroddiad[13] Archwilydd Cyffredinol Cymru ar dwyll yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2020.

46. O'r 15 argymhelliad, roedd un yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac roedd yr 14 oedd yn weddill yn berthnasol i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol.

47. Mewn ymateb, ac er mwyn mynd i'r afael ag un o'r argymhellion ynglŷn â chydweithio'n well ar draws y sector, sefydlwyd Gweithgor Atal Twyll, sef is-grŵp o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru, er mwyn gweithio ar y cyd. Mae'r grŵp wedi datblygu templed o 'arfer orau' ac mae'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd i rannu risgiau sy'n dod i'r amlwg ac arfer dda.

48. Mae Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 y cyngor yn mynd i'r afael â gweddill yr argymhellion.

49. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn datblygu diwylliant atal twyll y cyngor trwy lansio'r Adnodd Adrodd am Dwyll. Bydd lansio e-ddysgu a pholisïau a ddiweddarwyd, i gyd-fynd â'r Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Dwyll ym mis Tachwedd 2025, yn gamau pendant i hyrwyddo'r pwys a rydd y cyngor ar atal twyll a bydd yn rhoi hyder i staff a'r cyhoedd na fydd twyll yn cael ei oddef.

[13] 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Archwilio Cymru, Gorffennaf 2020

# Casgliad

50. Mae rheoli'r risg o dwyll a llygredd yn effeithiol yn rhan hanfodol o unrhyw gyngor modern ac effeithiol. Mae rhyw lefel o dwyll yn y sector cyhoeddus yn debygol o ddigwydd, hyd yn oed yn ystod cyfnodau arferol. O wybod bod holl elfennau'r triongl twyll delfrydol sy'n caniatáu i dwyll ffynnu (cymhelliant, cyfle a rhesymoli) wedi cynyddu, rhagwelir y bydd twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau, ac nid oes arwydd ei fod yn arafu.

51. Nid yw'r cyngor yn ddiogel rhag achosion o ddwyn yn y gweithle a gall ddigwydd ar bob lefel ac am flynyddoedd heb gael ei ganfod. Oni bai bod mesurau amddiffyn addas ar waith gennym, ni fydd gan y cyngor lawer o obaith o adennill arian neu nwyddau sy'n cael eu dwyn, a gallai wynebu costau eraill, megis dirwyon gan reoleiddwyr.  Gall y cyngor leihau'r risg bod gweithwyr yn dwyn ganddo trwy roi rheolaethau cadarn, trefniadau goruchwylio cadarn a diwylliant gwaith cadarnhaol.

52. Bydd cyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo 2025-28 a'r Cynllun Cyflawni yn sicrhau fod y Cyngor yn ymladd twyll yn llwyddiannus. Un o'r camau allweddol nesaf fydd datblygu asesiadau risg twyll ar gyfer y cyngor cyfan, fydd yn helpu i wella gallu'r cyngor i nodi achosion posib o dwyll, yn ogystal ag unrhyw wendidau yn ei drefniadau atal twyll neu feysydd lle mae mwy o risg o dwyll. Bydd hyn yn caniatáu i'r cyngor dargedu ei adnoddau prin yn well, a'i weithgareddau'n briodol, yn enwedig os, neu pryd, y bydd risgiau newydd yn gysylltiedig â thwyll yn dod i'r amlwg.

53. Bydd yr asesiadau risg twyll hyn hefyd yn cael eu defnyddio fel adnodd byw a'u hymgorffori yn y fframwaith rheoli risgiau cyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau a nodir yn cael eu rheoli'n briodol a'u bod yn cael eu cyfeirio at sylw uwch reolwyr ôl yr angen.

54. Mae'r cyngor yn parhau i geisio manteisio i'r eithaf ar ei waith yn gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol ac mae'n parhau i ddefnyddio dadansoddi data fel rhan o'i waith monitro parhaus.

55. Pan fydd twyll yn cael ei nodi a'i daclo'n llwyddiannus, rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o frig y sefydliad na fydd twyll yn cael ei oddef.

56. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ymwneud ag atal twyll. Mae'n derbyn adroddiadau am ganlyniad ymchwiliadau twyll ac mae'n darparu cefnogaeth a chyfeiriad, mae'n monitro ac mae'n dal swyddogion i gyfrif.


57. Er bod y cyngor wedi hyfforddi staff atal twyll sydd yn bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig, mae capasiti'n parhau i fod yn broblem, a bydd angen blaenoriaethu ar sail risg. Bydd penodi swyddog atal twyll penodol yn arwain at newid gwirioneddol yng ngallu'r cyngor i atal twyll yn effeithiol.

58. Yn olaf, mae ymddygiadau a gweithredoedd unigolion yn hanfodol bwysig wrth daclo'r risg o dwyll. Mae'n rhaid i bob un ohonom, yn staff ac aelodau fel ei gilydd, fynd ati i greu diwylliant sy'n elyniaethus i'r risg o dwyll a llygredd a sefydlu llinell glir rhwng yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y cyngor.

# Atodiad 1 – Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd?

## Twyll

Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:






Mae'n golygu bod y tramgwyddwr ar ei ennill (yn ariannol fel arfer), tra bod rhywun arall (gan gynnwys sefydliad) ar ei golled, neu mae'n golygu fod rhywun arall yn wynebu colled.

Er enghraifft, gyda thwyll trwy gynrychiolaeth ffug, mae'r tramgwyddwr yn cyflwyno hawliadau ffug am oramser yn fwriadol, neu'n cyflwyno cymwysterau ffug yn ystod y broses recriwtio.

Mae enghraifft o dwyll trwy fethu â datgelu gwybodaeth yn cynnwys peidio â datgelu gwybodaeth i farnwr mewn achos cyfreithiol, gan olygu fod y sefydliad yn colli'r achos ac yn gorfod talu iawndal.

Mae twyll trwy gam-drin grym yn cynnwys enghreifftiau lle mae aelod o staff yn cam-drin ei safle i ddyfarnu contractau i ffrindiau a theulu, neu'n trosglwyddo taliadau credydwyr i'w gyfrif personol ei hun.

## Llwgrwobrwyo

Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn nodi'r pedair ffordd o gyflawni'r drosedd:

- Llwgrwobrwyo naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti
- Derbyn llwgrwobrwyon
- Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor
- Methiant gan sefydliad masnachol i atal llwgrwobrwyaeth (trosedd gorfforaethol)

Mae llwgrwobrwyo yn gysyniad eang ac mae'n cynnwys cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall er mwyn cymell rhywun i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu weithgarwch busnes mewn modd amhriodol, neu eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ystyriaeth arbennig i feysydd gweithgarwch penodol, gan gynnwys lletygarwch a rhoddion.

Enghraifft o hyn yw rhywun yn rhoi mantais i un o weithwyr y cyngor am beidio â gwneud ei waith yn gywir. Mae dim ond cynnig neu addo llwgrwobr yn drosedd, nid oes rhaid rhoi taliad neu wobr; mae derbyn llwgrwobr yn drosedd, yn ogystal â chytuno i dderbyn llwgrwobr, neu ofyn am un. Gallai'r fantais gynnwys arian, tocynnau cyngerdd neu unrhyw fath arall o rodd neu letygarwch. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhywun yn cynnig arian yn gyfnewid am:

- Beidio â gwirio bod cais am fudd-daliadau yn gywir
- Darparu gwybodaeth gyfrinachol yn gysylltiedig â phroses dendro
- Dylanwadu ar un o ganlyniadau'r Cyngor e.e. lobïo ar ran cwmnïau preifat.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i atal llwgrwobrwyo a gallai wynebu dirwy am beidio â gwneud hynny. Mae'n ddyletswydd ar staff i roi gwybod am unrhyw amheuon sydd ganddynt ynghylch camymddygiad ariannol neu broffesiynol. Y gosb am fod yn gysylltiedig â llwgrwobrwyo yw hyd at 10 mlynedd yn y carchar a / neu ddirwy ddiderfyn.

## Llygredd

Er nad oes diffiniad cyfreithiol o beth yw llygredd, mae llygredd yn aml yn cael ei ystyried fel rhagflaenydd i lwgrwobrwyo ac mae Llywodraeth Ei Fawrhydi yn defnyddio'r diffiniad a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref. [14]

Yn aml mae llygredd yn cael ei ystyried fel rhagflaenydd i lwgrwobrwyo ac mae'n cael ei ddiffinio fel:

**"...cam-drin pŵer a roddwyd i unigolyn er budd personol sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol."**

Mae llygredd, neu rywun sy'n 'llwgr', yn ymwneud ag ymddygiad ac mae'n golygu diffyg uniondeb neu onestrwydd (ac fe all gynnwys llwgrwobrwyo), neu gamddefnyddio statws i sicrhau mantais anonest.

Defnyddir y term i ddisgrifio rhywun sy'n cymryd rhan mewn twyll, lladrad, gwyngalchu arian ac arferion troseddol neu niweidiol posib eraill lle byddant yn ymddwyn yn groes i ddiddordebau'r cyngor er mwyn sicrhau mantais iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

Er enghraifft:

- Camddehongli gwybodaeth am berfformiad yn fwriadol
- Derbyn arian neu rodd yn gyfnewid am ddyfarnu contract
- Dwyn asedau (gliniaduron, offer)
- Rhoi gwybodaeth sensitif i drydydd parti er mwyn rhoi mantais iddynt mewn proses dendro
- Peidio â datgelu gwrthdaro buddiannau er mwyn sicrhau mantais ariannol
- Defnyddio eu dylanwad i sicrhau swydd i ffrindiau / teulu.

[14] Strategaeth Atal Twyll Weithredol y Llywodraeth 2024-2027

# Atodiad 2 – Pileri Strategol

**Llywodraethu**

**Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.**

**Y disgwyliadau**

Sylfaen y strategaeth yw bod *'y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'* yn cefnogi'r gweithgareddau trwy sicrhau fod trefniadau cadarn ar waith, a chefnogaeth gan y weithrediaeth, i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r cyngor.

Mae trechu twyll yn fater i bawb, ac mae angen trefniadau mewnol cadarn ar y cyngor, sy'n cael eu cyfathrebu ar draws y cyngor, i arddangos y diwylliant a'r ymrwymiad i atal twyll.

Mae egwyddor gyntaf Cod CIPFA hefyd yn argymell y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd yn cael eu rheoli'n effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae'r drydedd egwyddor yn argymell bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliadau sydd yn nodi sut mae'n rheoli risgiau a diffinio cyfrifoldebau am weithredu.

**Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Mae fframwaith o bolisïau'n bodoli, fel sy'n cael ei argymell yn y canllawiau, ac mae meddalwedd derbyn polisïau yn monitro p'un a yw staff yn deall ac yn derbyn rhai o'r polisïau. Bydd rhaglen yn cael ei darparu fel rhan o'r Strategaeth Atal Twyll ar gyfer 2025-28, er mwyn diweddaru polisïau, codi ymwybyddiaeth am atal twyll a chyflwyno pecyn E-ddysgu.

Mae gan y cyngor strategaeth dair blynedd a ddiffiniwyd yn glir a'i chymeradwyo ar y lefel uchaf ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan helpu i sicrhau bod y cyngor yn cymryd y risg o dwyll a llygredd o ddifri.

Tudalen 91

## Cydnabod

**Asesu a deall risgiau twyll.**
**Ymrwymo'r gefnogaeth gywir a thaclo twyll a llygredd.**
**Dangos bod ganddo ymateb atal twyll cadarn.**
**Cyfleu'r risgiau i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant.**

### Y disgwyliadau

Er mwyn creu ymateb atal twyll, mae'n rhaid i'r cyngor gydnabod a deall risgiau twyll a dangos hynny trwy ymrwymo adnoddau priodol er mwyn taclo twyll.

Mae Cod CIPFA yn nodi bod adnabod y risg o dwyll yn hanfodol er mwyn deall perygl risgiau, newid ym mhatrymau twyll, bygythiadau llygredd a'r canlyniadau posib i'r sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'n cefnogi risgiau twyll a llygredd fel risgiau busnes i'w rheoli fel rhan o broses rheoli risgiau'r sefydliad.

Mae'r bedwaredd egwyddor yn argymell y dylai sefydliadau drefnu adnoddau priodol i gefnogi'r strategaeth atal twyll.

### Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth (TA) wedi cydnabod bygythiadau twyll a llygredd trwy ei gwneud yn orfodol i gynnwys twyll yng nghofrestr risgiau pob gwasanaeth. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu trwy sefydlu Gweithgor Atal Twyll cyngor-gyfan. Tasg gyntaf y grŵp fydd datblygu asesiadau risg twyll ar gyfer y cyngor cyfan.

Yn yr un modd â phob gwasanaeth o fewn y cyngor, ychydig iawn adnoddau sydd wedi bod ar gael o fewn y cyngor ar gyfer trefniadau atal twyll. Bydd penodi swyddog atal twyll penodol yn arwain at newid gwirioneddol yng ngallu'r cyngor i atal twyll yn effeithiol.

Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn ei alluogi i herio gweithgareddau a deall gweithgareddau atal twyll y cyngor.

## Atal

**Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg.**
**Gwella rheolaethau a phrosesau'n ymwneud â thwyll.**
**Datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol.**
**Cyfathrebu ei weithgareddau a'i lwyddiannau.**

### Y disgwyliadau

Y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ymladd twyll yw drwy ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gellir cyflawni hyn drwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Gall y Cyngor atal a chanfod twyll trwy wella rheolaethau a phrosesau yn gysylltiedig â thwyll a defnyddio gwybodaeth a thechnoleg yn well, ynghyd â datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol.

### Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud

Ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, fe wnaethom ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi atal twyll yn 2023-24, gan dargedu aelodau etholedig a lleyg, a rheolwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol a chaffael. Byddwn yn ailadrodd yr hyfforddiant hwn yn rheolaidd, a bydd yn cael ei gefnogi gan becyn e-ddysgu a gyflwynir yn 2025.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth rheolaidd o fewn y cyngor ac yn dosbarthu unrhyw rybuddion a dderbynnir gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol i swyddogion perthnasol o fewn y sefydliad.

Pan fydd twyll yn cael ei nodi a'i daclo'n llwyddiannus, rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o frig y sefydliad na fydd twyll yn cael ei oddef.

Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo pwysigrwydd atal twyll i'r cyngor, gan roi hyder i staff a'r cyhoedd nad yw twyll yn cael ei oddef.

Tudalen 92

## Erlyn

**Blaenoriaethu adennill colledion oherwydd twyll a defnyddio sancsiynau sifil.**
**Datblygu'r gallu a'r capasiti i gosbi troseddwyr.**
**Cydweithio ar draws ffiniau daearyddol a ffiniau sectorau.**
**Dysgu gwersi a chau'r bylchau.**

### Y disgwyliadau

Er mai prif nod y cyngor yw atal twyll a llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf, mae'n hanfodol fod ymateb cadarn ar gael o ran gorfodaeth er mwyn erlyn twyllwyr a rhwystro eraill.

Mae pumed egwyddor y Cod yn argymell bod sefydliadau'n rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd a'u bod yn cymryd camau i atal, canfod ac ymchwilio twyll.

Mae'n sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Fodd bynnag, beth bynnag yw maint a gweithgareddau sefydliad, mae angen iddo gymryd camau priodol ac adrodd ar y camau hynny i'w gorff llywodraethu.

### Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd y cyngor yn ceisio sicrhau'r gosb gryfaf bosib ar bob achlysur yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo'r Cyngor. Os bydd gweithred droseddol yn cael ei phrofi, yna bydd Deddf Enillion Troseddau 2002 yn cael ei defnyddio i adennill yr arian, lle bo hynny'n briodol. Gallai dulliau adennill eraill gynnwys, ymysg pethau eraill, achosion sifil; gorchmynion elw anghyfreithlon a gorchmynion iawndal.

Byddwn yn parhau i fynychu cyfarfodydd Gweithgor Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Byddwn yn parhau i gydlynu data y mae angen i'r cyngor ei ddarparu i'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer ei ymarfer paru data bob dwy flynedd, a byddwn yn archwilio parau data risg uchel a nodwyd fel rhan o ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol.

## Gwarchod ei hun a'i breswylwyr

**Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.**

**Cydnabod y niwed y gall twyll ei achosi yn y gymuned.**

### Y disgwyliadau

Mae'r thema hon yn ymestyn ar draws pileri'r strategaeth hon ac mae'n ymwneud ag amddiffyn y cyngor rhag trosedd ddifrifol a chyfundrefnol, diogelu unigolion rhag dioddef troseddau a diogelu rhag y niwed y gall twyll ei wneud i'r gymuned ehangach. Mae'n ymwneud hefyd â diogelu cyllid cyhoeddus, diogelu'r cyngor rhag troseddau seibr a diogelu ei hun rhag twyll yn y dyfodol.

### Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud

Mae'r cyngor yn cydnabod nad yw twyll yn drosedd heb ddioddefwyr ac mae'n ceisio gwarchod pobl fregus rhag y niwed y gall twyll ei achosi yn y gymuned.

Mae dyletswydd arnom i amddiffyn preswylwyr yn ein cymunedau rhag twyll a dylem weithio ar y cyd â swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor, ac mewn asiantaethau partner, i atal twyll a diogelu pobl fregus.

# Atodiad 3 – Cynllun Cyflawni Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028

| Mater / Risg / Cyfle | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|
| **Cynnydd o ran cyflawni'r gweithredoedd sydd angen sylw yn y Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025** | | | | |
| **Caffael oedd un o'r meysydd lle'r oedd y canfyddiad o dwyll ar eich uchaf yn 2019-20** | Byddwn yn gweithio gyda'r Rheolwr Caffael i roi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol 'Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael' a gynhaliwyd ym mis Awst 2022. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2023 | **Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Mae un o'r chwe 'Mater/Risg' yn y Cynllun Gweithredu 'Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael' angen ei gwblhau - mae'r Gweithgor Atal Twyll yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. |
| **Mae nifer fawr y trafodion a brosesir, cyflenwyr amrywiol, heriau staffio a thrafodion gwerth uchel yn golygu fod prosesau prynu i dalu'n agored i dwyll.** | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Credydwyr i nodi ac atal gwallau a thwyll, gan gynnwys trwy ddefnyddio technegau dadansoddi data (monitro parhaus) a chyhoeddi rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) a rhybuddion twyll eraill. | Pennaeth Archwilio a Risg gyda Rheolwr y Tîm Cyflogau a Thaliadau | Parhaus | **Gwaith parhaus sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Mae monitro parhaus yn digwydd yn flynyddol. Cyhoeddwyd adroddiad ar Daliadau a Ddyblygwyd ym Medi 2024 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Atodiad 5 yn cynnwys manylion am y rhybuddion a gyhoeddwyd ar draws y cyngor i godi ymwybyddiaeth ac atal twyll. |
| **Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.** | Bydd cael fframwaith atal twyll corfforaethol, sy'n darparu ystod lawn o elfennau lefel uchel, yn cyfrannu tuag at sicrhau fod gan y cyngor strategaeth atal twyll effeithiol. Mae gan y cyngor fframwaith cadarn o weithdrefnau a pholisïau fydd yn cyfuno i weithredu fel rhwystr effeithiol yn erbyn gweithgarwch twyllodrus ac yn darparu dull o adrodd am dwyll a llygredd, neu eu canfod. Byddwn, felly, yn cynnal:<br>• rhaglen gynhwysfawr i ddiweddaru polisïau<br>• gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am atal twyll<br>• pecyn e-ddysgu | Pennaeth Archwilio a Risg | Rhagfyr 2023 | **Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.**<br>• Bydd y polisïau wedi eu diweddaru erbyn diwedd 2024-25.<br>• Darparwyd rhaglen hyfforddiant ym mis Rhagfyr 2023, a chynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ym mis Mawrth 2024 ar gyfer unrhyw un nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y sesiynau gwreiddiol.<br>• Prynwyd pecyn e-ddysgu a bydd yn cael ei gyflwyno cyn diwedd 2024-25.<br>• Fe wnaethom gynorthwyo cydweithwyr yn y gwasanaeth Tai i ddatblygu polisi Tenantiaeth Tai. |

Tudalen 93

| Mater / Risg / Cyfle | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|
| **Nodi, asesu a deall risgiau twyll yw conglfaen trefniadau atal twyll effeithiol** | Ar y cyd â gwasanaethau, byddwn yn datblygu tair ffrwd waith allweddol fydd yn:<br>• ceisio nodi'r risgiau twyll o fewn y Cyngor<br>• asesu gweithgareddau rheoli twyll a'u heffeithiolrwydd, a<br>• neilltuo digon o adnoddau i ymchwilio a chanfod twyll pan dderbynnir adroddiadau am dwyll<br>Bydd gweithgor atal twyll yn cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo i nodi'r risg o dwyll o fewn y Cyngor.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu asesiad o'r risg o dwyll er mwyn nodi twyll posib y gallai gwasanaethau fod yn agored iddo. Bydd yr asesiad yn amcangyfrif effaith bosib unrhyw dwyll a pha mor debygol ydyw o ddigwydd. Bydd canlyniadau'r asesiadau'n caniatáu i'r Cyngor ddeall yn well beth yw'r bygythiadau o dwyll sy'n ei wynebu. Bydd yr asesiadau'n cael eu defnyddio hefyd fel adnodd i gynorthwyo i ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau twyll mwyaf perthnasol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Rhagfyr 2024 | **Wedi'i drosglwyddo i Strategaeth 2025-28**<br>Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto oherwydd materion capasiti o fewn y tîm.<br><br>Yr allwedd i ymateb i'r risgiau twyll sy'n wynebu'r cyngor yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo i ddod â gwasanaethau ynghyd i gynnal asesiadau risg twyll cynhwysfawr, gan ddefnyddio staff sydd â sgiliau addas, defnyddio gwybodaeth genedlaethol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n benodol i'r sefydliad.<br><br>Gellir defnyddio'r asesiadau risg twyll hyn fel adnodd byw a'u hymgorffori yn y fframwaith rheoli risgiau cyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau a nodir yn cael eu rheoli'n briodol a'u bod yn cael eu dwyn i sylw uwch reolwyr yn ôl yr angen.<br><br>Mae sefydlu Gweithgor Atal Twyll yn allweddol i'r weithred hon. Bydd cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth i ofyn am gefnogaeth i sefydlu'r grŵp hwn. Bydd y weithred hon yn cael ei dwyn ymlaen a'i blaenoriaethu yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. |
| **Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnolegau trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol** | Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymarferion a gynhelir yn flynyddol a bob dwy flynedd gan y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n defnyddio data a ddarperir gan tua 1,200 o sefydliadau sy'n cymryd rhan o'r sector cyhoeddus a phreifat, er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data electronig oddi fewn a rhwng cyrff sector cyhoeddus a phreifat ac mae'r cyrff hyn yn cynnwys awdurdodau heddlu, byrddau prawf | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau | Parhaus | **Gwaith parhaus sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Cyflwynwyd Adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2024.<br>Rhyddhawyd yr amserlen ar gyfer ymarfer 2024-2026 ym mis Hydref 2024 a llwythwyd y |


| Mater / Risg / Cyfle | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|
| | lleol, awdurdodau tân ac achub, yn ogystal â chynghorau lleol a nifer o gyrff sector preifat. Mae ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn chwarae rhan bwysig wrth amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag y risg o dwyll. | | | data yn ddiweddarach y mis hwnnw. Rhyddhawyd y parau data ym mis Rhagfyr 2024 ac maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2025. |
| **Hyrwyddo diwylliant atal twyll** | Byddwn yn hyrwyddo diwylliant atal twyll o fewn y Cyngor trwy roi cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol i effaith twyll ar y Cyngor a'r gymuned. | Pennaeth Archwilio a Risg gyda'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol | Parhaus | **Gwaith parhaus sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Darparwyd rhaglen hyfforddiant fewnol i godi ymwybyddiaeth o dwyll, ac mae rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol yn parhau i gael eu cylchredeg. Nid yw'r rhaglen o rannu negeseuon mwy cyffredinol wedi cychwyn eto. |
| **Codi ymwybyddiaeth** | Y ffordd orau o atal twyll yw trwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Felly, ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth o dwyll, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyron, cynnal sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu | Parhaus | **Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Darparwyd rhaglen hyfforddiant dros gyfnod o wythnos ym mis Rhagfyr 2023, a chynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ym mis Mawrth 2024 ar gyfer unrhyw nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y sesiynau gwreiddiol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r darparwr er mwyn darparu rhagor o sesiynau yn 2025. Bydd yr e-ddysgu'n cael ei lansio yn ystod yr Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Dwyll ym mis Tachwedd 2025. |
| **Adrodd am Dwyll** | Mae angen rhoi gwybod i'r tîm Archwilio Mewnol am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â thwyll. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau a gwersi i'w dysgu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau | Parhaus | **Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn gwybodaeth trwy'r Adroddiad Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd Blynyddol a'r Diweddariadau Archwilio Mewnol a gyflwynir i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| **Cydweithio, dysgu gwersi a chau'r bwlch** | Byddwn yn parhau i gydweithio o fewn rhanbarth gogledd Cymru i gymell gwelliannau mewn gweithgarwch atal | Pennaeth Archwilio a Risg | Parhaus | **Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.** Mae Gweithgor |

| Mater / Risg / Cyfle | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|
| | twyll, gan gynnwys mynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020.<br>Byddwn hefyd yn parhau i weithio tu hwnt i ffiniau cenedlaethol er mwyn cydweithio gydag Is-grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio'r Gogledd Orllewin, er mwyn dysgu gwersi, rhannu arfer dda a chau'r bwlch. | | | Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu templed i fynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Grŵp yn parhau i gyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth, trefnu hyfforddiant a thrafod risgiau sy'n dod i'r amlwg. |
| **Amddiffyn y Cyngor a'i drigolion** | Er mwyn sicrhau fod ein strategaeth atal twyll yn cyd-fynd â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor i warchod yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, byddwn yn gweithio'n agos â thimau gofal i ddatblygu dulliau ar y cyd i nodi'r arfer orau ar gyfer atal twyll ym maes gofal cymdeithasol. | Pennaeth Archwilio a Risg gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Parhaus | **Wedi'i drosglwyddo i Strategaeth 2025-28.**<br>Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto oherwydd materion capasiti o fewn y tîm. |
| **Gweithredoedd newydd o'r Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028** | | | | |
| **Hyfforddiant Proffesiynol** | Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025, yw sylfaen archwilio mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU. Un o ofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yw y dylai archwilwyr mewnol ddatblygu cymwyseddau'n gysylltiedig â risgiau hollbresennol, megis twyll. Bydd y tîm yn parhau i ddilyn rhaglen o hyfforddiant proffesiynol ym maes twyll. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2028 | |
| **Defnyddio dadansoddeg data i ddatgelu twyll mewn meysydd o wendid** | Defnyddir dulliau cwestiynu data fel rhan o ymarfer monitro parhaus ar y system gyflogau i nodi data sydd ar goll, megis rhifau YG; lefelau uchel o dâl neu oramser yn cael eu hawlio; enwau'n cael eu dyblygu; rhifau cyfrifon banc yn cael eu dyblygu, cysylltiadau â sefydliadau eraill. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2026 | **Parhaus**<br>Cyflwynir yr adroddiad cyntaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2025. |
| **Y drosedd o fethu ag atal twyll** | O dan y ddeddfwriaeth, bydd sefydliad yn atebol am dorri'r gyfraith os caiff trosedd dwyll benodedig ei chyflawni gan weithiwr, asiant neu 'berson cysylltiedig' arall, er budd y sefydliad, ac os nad oedd trefniadau atal twyll 'rhesymol' ar waith gan y sefydliad. Cynhelir hunanwerthusiad. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2026 | **Gwaith ar y Gweill** |

## Atodiad 4 - Canlyniadau'r Adnodd Adrodd am Dwyll (rhwng 25/11/2024 a 31/03/2025)

| Math o Dwyll | Nifer yr honiadau a dderbyniwyd | Nifer yr honiadau a gaewyd fel rhai di-sail | Nifer yr honiadau a gaewyd oherwydd bod y gwasanaeth wedi dod i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i ymchwilio ymhellach | Nifer yr honiadau sy'n parhau i gael eu hystyried | Nifer yr honiadau lle mae twyll / camgymeriad wedi cael ei adnabod | Gwerth gwirioneddol ac amcangyfrif o werth twyll / camgymeriadau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw**<br>• **Gostyngiad Person Sengl**<br>• **Osgoi talu'r Premiwm ar Ail Gartrefi**<br>• **Eiddo ddim ar y gofrestr dreth gyngor / trethi busnes** | 13 | 8 | 1 | 3 | 1 | £5,000+ | Canfuwyd nad oedd yr eiddo ar y rhestr dreth gyngor. Rydym yn disgwyl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio gadarnhau beth yw band yr eiddo. Amcangyfrifir refeniw o £1,100 ar gyfer 2024/25 a £4,508 ar gyfer 2025/26 ac mewn blynyddoedd i ddod |
| **Budd-daliadau**<br>• **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**<br>• **Budd-dal Tai** | 2 | | 2 | | | £0 | |
| **Bathodynnau Glas** | 1 | 1 | | | | £0 | |
| **Caffael / methu â chyflawni contract** | 1 | 1 | | | | £0 | |
| **Tai Cymdeithasol Twyll Tenantiaeth** | 1 | 1 | | | | £0 | |
| **Cynllunio** | 1 | 1 | | | | £0 | |
| **Cyfanswm** | **19** | **12** | **3** | **3** | **1** | **£5,000+** | |

# Atodiad 5 - Rhybuddion twyll a gyhoeddwyd




Tudalen 98

<table>
<tr><th colspan="3">CYNGOR SIR YNYS MÔN</th></tr>
<tr><td>Adroddiad i'r:</td><td colspan="2">Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td colspan="2">30 Medi 2025</td></tr>
<tr><td>Pwnc:</td><td colspan="2">Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2024-26</td></tr>
<tr><td>Pennaeth Gwasanaeth:</td><td colspan="2">Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@anglesey.llyw.cymru</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:</td><td>Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@anglesey.llyw.cymru</td><td>Andrew Lewis<br>Uwch Archwiliwr<br>AndrewLewis@anglesey.llyw.cymru</td></tr>
<tr><td colspan="3">Natur a Rhesymau dros Adrodd:<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risgiau o dwyll a llygredd, gan roi sicrwydd eu bod yn addas i'r diben ac y byddant yn hyrwyddo arferion atal twyll a llygredd i'r sefydliad ehangach (3.4.8.9.2). Wrth wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn ystyried y sicrwydd a ddarperir gan archwilio mewnol (3.4.8.9.6). Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd diweddar a wnaed gan y Cyngor a'r canlyniadau yn sgil cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).</td></tr>
</table>

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data ledled y DU sy'n helpu i ganfod ac atal twyll. Fe'i cynhelir yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan ei bwerau paru data statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ar y cyd â Awdurdod Twyll y Sector Gyhoeddus/ Swyddfa'r Cabinet.

1.2. Mae Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor 2025-2028 yn cydnabod bod gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn fodd i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

1.3. Mae Archwilio Cymru yn argymell y dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer NFI fanteisio'n llawn arno.

1.4. Er bod y tîm Refeniw wedi rhoi cymorth gwerthfawr wrth ddadansoddi pariadau ac ymateb i ymholiadau, nid oedd y tîm Budd-daliadau yn gallu dyrannu adnoddau i ddadansoddi pariadau, gan arwain at golli cyfleoedd i atal twyll a manteision posibl.

1.5. Er nad yw canlyniadau ariannol yr NFI yn dangos y budd anfesuradwy o ganfod a chryfhau gwendidau rheolaeth fewnol, mae'r adroddiadau'n gyffredinol wedi bod o gymorth i atal hawliadau twyllodrus neu wallus.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd sicrwydd o'r adroddiad bod y Cyngor, gan ystyried yr angen i flaenoriaethu ei adnoddau, yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio a dadansoddi data i gryfhau'r broses o atal a chanfod twyll.

# Y Fenter Twyll Genedlaethol- Adroddiad Canlyniadau 2024-26

**Medi 2025**






**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Andrew Lewis BA (Anrh.) IRRV (Dip) ACFTech**



# Cynnwys


Cyflwyniad ____ 1
Trosolwg o'r Broses ____ 2
Canlyniadau blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ____ 2
Adroddiadau Paru a Dderbyniwyd ____ 3
Data'r Gyflogres a Chredydwyr / Tŷ'r Cwmnïau ____ 3
Trwyddedau Parcio'r cynllun Bathodyn Glas a chofnodion marwolaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau ____ 3
Tenantiaid Tai a data marwolaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau ____ 3
Tenantiaid Tai a chofnodion Perchnogaeth Eiddo CThEF ____ 4
Tenantiaid Tai a Budd-daliadau Gwladol ____ 4
Tenantiaid Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (rhwng Sefydliadau) _ 4
Rhestr Aros ac Unigolion sy'n Hawlio'r Budd-dal Tai ____ 4
Rhestrau Aros ____ 4
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a data CThEF (Enillion a Chyfalaf) ____ 5
Hanes taliadau credydwyr a data credydwyr sefydlog ____ 5
Pariadau Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor ____ 5
Y Dreth Gyngor - Disgownt person sengl a'r Gofrestr Etholiadol ____ 6
Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor - Bron yn 18 oed ____ 6
Y Dreth Gyngor a Setiau Data Eraill ____ 6
Y Dreth Gyngor a data marwolaethau'r Gwasanaeth Datgelu Gwybodaeth am Farwolaethau Cofrestredig ____ 6
Casgliad ____ 7
Atodiad 1 – Rhestr Wirio Hunanasesu'r Fenter Twyll Genedlaethol ____ 8
Atodiad 2 – Menter Twyll Genedlaethol 2024-25: Crynodeb o'r Canlyniadau ____ 13


Tudalen 101

# Cyflwyniad

1. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer paru data sy'n ceisio canfod ac atal twyll a gwallau. Mae'n orfodol i Gyngor Sir Ynys Môn gymryd rhan, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill a chyrff sector cyhoeddus.
2. Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) - sy'n rhan o Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Thrysorlys EF - sy'n goruchwylio'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU.
3. Mae Archwilio Cymru'n arwain yr ymarfer yng Nghymru, dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol a sefydlwyd yn sgil Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
4. Fel yr amlygwyd gan Archwilio Cymru, mae llwyddiant y Fenter Twyll Genedlaethol yn dibynnu ar ba mor effeithiol y mae'r cyrff sy'n cymryd rhan yn asesu ac adolygu pariadau data a chofnodi'r canlyniadau.
5. Nid yw pariadau data bob amser yn golygu bod achos o dwyll, gwall, neu ordaliad wedi digwydd. Nid oes disgwyl i'r rhai sy'n cymryd rhan edrych ar bob pariad data; mae'r system yn caniatáu defnyddio dull seiliedig a risg ar gyfer blaenoriaethu pariadau ar gyfer eu dadansoddi.
6. Cyn unrhyw arbedion ariannol, mae manteision sydd ynghlwm â chymryd rhan yn yr ymarfer ac adolygu pariadau data yn cynnwys y sicrwydd y gall canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol ei ddarparu ynglŷn â rheolaethau mewnol. Mae canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol hefyd yn amlygu meysydd ar gyfer eu gwella.
7. Mae cynllun cyflawni Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor 2025-28 yn cydnabod bod gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn gallu lliniaru'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.
8. Mae Archwilio Cymru'n awgrymu bod cwblhau Rhestr Wirio Hunanwerthuso'r Fenter Twyll Genedlaethol (sydd ar gael yn Atodiad 1) yn helpu'r cyrff sy'n cymryd rhan i hunanwerthuso'r modd y maent yn ymgysylltu â'r Fenter Twyll Genedlaethol ac mae'n annog cyrff i'w gyflwyno i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant i gefnogi'r gwaith o graffu ar eu trefniadau ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

# Trosolwg o'r Broses

9. Cylch paru'r Fenter Twyll Genedlaethol:

    - Cynhelir ymarfer paru data cynhwysfawr pob dwy flynedd, a chynhelir yr ymarfer yn flynyddol yn gysylltiedig â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor
    - Mae'r cyrff sy'n cymryd rhan yn cyflwyno'r data y maent wedi'i echdynnu ar wefan ddiogel.
    - Mae system y Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data o fewn a rhwng sefydliadau i ganfod anghysondebau posib, sy'n cael eu galw'n 'bariadau'.
    - Mae'r 'pariadau' yn cael eu rhannu â'r cyrff sy'n cymryd rhan fel y gallant adolygu, ymchwilio a chofnodi'r canlyniadau'r ymchwiliadau hynny.
    - Mae tîm y Fenter Twyll Genedlaethol yn darparu cefnogaeth drwy gydol yr ymarfer ac mae'n monitro gweithgarwch y cyfranogwyr.



10. Fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol yn 2024-25, ym mis Medi 2024 cyflwynodd y Cyngor ddata yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a ganlyn:

    - Tai - tenantiaid presennol a'r rhestr aros tai cymdeithasol
    - Trwyddedau gyrwyr tacsi
    - Data'r gyflogres
    - Hanes taliadau credydwyr a data credydwyr sefydlog
    - Unigolion sy'n derbyn budd-dal dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
    - Data'r Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol (cyflwynir yn flynyddol / Rhagfyr 2024)
    - Yn ogystal â hyn, cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fanylion y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau a chyflwynodd Gwasanaeth Digidol y Bathodyn Glas (BBDS) fanylion deiliaid bathodyn glas.

# Canlyniadau blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru

11. Yn ôl adroddiad gan Archwilio Cymru ym mis Hydref 2024, cofnododd yr ymarfer blaenorol yn 2022-23 "ganlyniadau" gwerth £7.1 miliwn ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd o £0.6 miliwn o'i gymharu â'r ymarfer yn 2020-21, ond yn llai na'r £8 miliwn a adroddwyd yn dilyn yr ymarfer yn 2028-19.
12. Roedd y canlyniadau'n gysylltiedig â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gyfrif am £2.9 miliwn (41%) o ganlyniadau'r ymarfer yn 2022-23.
13. Fe arweiniodd hefyd at ganslo 2,084 hawliad ar gyfer Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor mewn naw awdurdod lleol yng Nghymru a oedd wedi dadansoddi'r pariadau. Mae hyn yn dangos bod modd sicrhau arbedion ariannol gwirioneddol ac amcangyfrifiedig da dwy fuddsoddi adnoddau mewn dadansoddi a gweithredu ar y pariadau hyn.
14. Mae'r ffigurau yn adroddiad Archwilio Cymru yn cynnwys:

    - Canlyniadau gwirioneddol - y symiau gwirioneddol y mae'r cyfranogwyr wedi'u cofnodi fel naill ai twyll, gwall neu ordaliad; a
    - Chanlyniadau amcangyfrifiedig - amcangyfrif o'r swm a gollwyd o ganlyniad i'r twyll neu wall a ganfuwyd, a gwerth unrhyw golledion y byddai'r cyrff wedi'u profi yn y dyfodol oni bai eu bod wedi ymyrryd ar ôl derbyn pariad.

# Adroddiadau Paru a Dderbyniwyd

15. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025, derbyniodd y Cyngor 61 adroddiad unigol fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol, a oedd yn cynnwys 3,034 o bariadau unigol.

16. Mae'r pariadau hyn yn gysylltiedig â'r meysydd a ganlyn (ceir manylion yn Atodiad 2 – Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Crynodeb o'r Canlyniadau):

- Trwyddedau Parcio'r cynllun Bathodyn Glas
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
- Credydwyr
- Unigolion sy'n Hawlio'r Budd-dal Tai
- Tenantiaid Tai
- Rhestr Aros Tai
- Y Gyflogres
- Caffael

17. Hefyd, derbyniodd y Cyngor 3 adroddiad yn gysylltiedig â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor, a oedd yn cynnwys 2,299 o bariadau.

18. Ar hyn o bryd, mae archwilio mewnol, ar y cyd â gwasanaethau, wedi dadansoddi'r canlyniadau a ganlyn, ac mae manylion y canlyniadau ariannol ar gael yn y tabl yn Atodiad 2.

## Data'r Gyflogres a Chredydwyr / Tŷ'r Cwmnïau

19. Caiff data'r gyflogres a chredydwyr ei baru â gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau i ganfod buddiannau posib sydd heb eu datgan a allai fod wedi rhoi mantais ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gweithwyr sy'n ymddangos fel petaent yn gyfarwyddwyr cofrestredig ar gwmnïau y mae'r Cyngor wedi masnachu â hwy a gweithwyr sydd â chyfeiriad sy'n gysylltiedig â chyfarwyddwr cwmni neu gwmni.

20. Mae'r pariadau hyn yn cynnwys gweithwyr neu unigolion sy'n byw ar yr un aelwyd â rhywun sydd yn gyfarwyddwyr ar grwpiau cymunedol a/neu gwmnïau cyfyngedig preifat. Fodd bynnag, o'r sampl a ddadansoddwyd, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw enghreifftiau lle dylai gwrthdaro gwirioneddol / posib rhwng buddiannau fod wedi cael ei ddatgan. Yn seiliedig ar rôl y gweithiwr a natur y sefydliad / busnes, nid oedd unrhyw risg o beri mantais ariannol o ganlyniad i beidio â datgan unrhyw fuddiant.

## Trwyddedau Parcio'r cynllun Bathodyn Glas a chofnodion marwolaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau

21. Caiff deiliaid Bathodyn Glas eu paru â chofnodion marwolaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau i ganfod achosion pan fo deiliad trwydded wedi marw, ond nad yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o hynny.

22. Yn dilyn trafodaethau â'r Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol / Cyswllt Môn, sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun 'Bathodyn Glas', nodwyd gwall yn achos pob un o'r 243 pariad a ganfuwyd yn ystod y Fenter Twyll Genedlaethol ddiweddaraf h.y. roedd y bathodynnau'n weithredol ar y system, ond nid oedd y gwasanaeth wedi cael gwybod am y farwolaeth.

23. Yn unol â nodyn briffio mewnol Cyswllt Môn a'n hymholiadau mewnol, mae'r system Dywedwch Wrthym Unwaith yn cael ei wirio'n wythnosol ac mae unigolion sydd wedi marw'n cael eu tynnu oddi ar:

- Y Gofrestr Bathodyn Glas
- Y Gofrestr Hylendid
- Y Gofrestr Casgliad â Chymorth

24. Fodd bynnag, oni bai bod y farwolaeth yn cael ei chofnodi drwy'r cynllun Dywedwch Wrthym Unwaith neu bod teulu'r ymadawedig yn cysylltu â Cyswllt Môn yn uniongyrchol, nid yw'r Bathodyn Glas yn cael ei ganslo fel y gwelir uchod. Felly, mae prosesu pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ffordd defnyddiol o wirio'r wybodaeth a gedwir gan wasanaeth.

25. Mae'r pariadau'n cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd sydd gyfystyr â pheidio â chanslo dau Fathodyn Glas yr wythnos mewn da bryd am nad oedd y Cyngor wedi cael ei hysbysu am y farwolaeth.

## Tenantiaid Tai a data marwolaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau

26. Mae'r adroddiad hwn yn nodi achosion lle mae tenant wedi marw, ond gan nad oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o hynny nid yw wedi tynnu enw'r tenant oddi ar y denantiaeth neu nid yw wedi diwygio ei gofnodion.

27. Mae'r gwasanaeth tai wedi dadansoddi'r 26 pariad a chadarnhau nad oedd yr un achos o dwyll. Mae rhai tenantiaethau wedi parhau yn enw'r ymadawedig wrth i hawliadau goroesedd / olyniaeth gael eu penderfynu. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod oedi wedi bod wrth ddod i benderfyniad ynglyn â rhai achosion. Yn achos chwe phariad, nid oedd y gwasanaeth yn ymwybodol bod y tenant wedi marw, fodd bynnag roedd y cyd-denant / partner yn dal i fyw yn y cyfeiriad. Mae'r cofnodion wedi cael eu diwygio erbyn hyn.

## Tenantiaid Tai a chofnodion Perchnogaeth Eiddo CThEF

28. Mae data tenantiaethau'r Cyngor wedi cael ei baru â chofnodion perchnogaeth eiddo CThEF i ganfod unrhyw asedau a oedd heb gael eu datgan wrth ymgeisio am dŷ cyngor, neu eiddo a brynwyd yn ddiweddarach a allai fod wedi cael ei ddefnyddio fel prif gartref gyda'r tŷ cyngor yn cael ei danosod.

29. Mae'r gwasanaeth tai wedi dadansoddi'r chwe phariad a chadarnhau nad oedd yr un achos o dwyll/gwall. Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau bod sawl rheswm pam y gallai ymgeiswyr sydd eisoes yn berchen ar eiddo fod yn gymwys am dŷ cymdeithasol yn cynnwys tor perthynas, anghenion meddygol cymhleth a chyfalaf yn unol â pholisi trothwyon y Cyngor.

## Tenantiaid Tai a Budd-daliadau Gwladol

30. Mae'r data yn gysylltiedig â thenantiaid tai wedi cael ei baru â data'r Adran Gwaith a Phensiynau i ganfod achosion posib o dwyll yn erbyn y Cyngor, h.y. pan ei bod yn ymddangos bod unigolyn yn byw mewn dau wahanol gyfeiriad.

31. Mae'r gwasanaeth tai eisoes wedi dadansoddi saith pariad. Yn gysylltiedig â thri phariad, mae angen diweddaru data cyfeiriadau'r Adran Gwaith a Phensiynau i adlewyrchu eu hamgylchiadau presennol. Yn gysylltiedig â dau bariad, mae'r tenant yn hawlio budd-daliadau gwladol erbyn hyn yn gysylltiedig â gofal cartref preswyl - fodd bynnag, mae'r cyd-denant (gŵr/gwraig) yn dal i fyw yn y tŷ cyngor ac felly nid oes unrhyw newid sylweddol wedi bod.

32. Nid yw un pariad wedi cael ei ddilysu'n llawn eto gan fod y gwasanaeth yn gwneud ymholiadau pellach i benderfynu p'un a yw'r tenant yn byw yn mewn cartref preswyl yn barhaol a/neu p'un a yw'r ferch yn dal i fyw yn y tŷ cyngor. O ganlyniad i'r pariad hwn mae'n bosib y bydd yr eiddo yn dod ar gael i denant(iaid) newydd.

## Tenantiaid Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (rhwng Sefydliadau)

33. Mae'r data tenantiaid tai wedi cael ei baru â data Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i nodi achosion posib o dwyll tenantiaeth a/neu geisiadau amhriodol am ostyngiad yn y dreth gyngor, pan ei bod yn ymddangos bod yr unigolyn yn byw mewn dau wahanol gyfeiriad.

34. Rydym wedi dadansoddi un pariad a gyflwynwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi dod i'r casgliad nad oes sail dros ymchwilio i'r mater ymhellach gan fod y pariad yn seiliedig ar enw yn unig ac nid oedd yn darparu dyddiad geni neu rif yswiriant gwladol. Roedd y tenant hefyd yn gydatebol ac wedi bod yn drethdalwr yn y cyfeiriad ar Ynys Môn ers 1993, felly roedd y pariad yn cael ei ystyried yn bariad risg isel.

## Rhestr Aros ac Unigolion sy'n Hawlio'r Budd-dal Tai

35. Mae data'r rhestr aros wedi cael ei baru â data'r Budd-dal Tai i ganfod achosion posib o dwyll rhestr aros, h.y. lle mae'n ymddangos bod unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros gan ddefnyddio cyfeiriad sy'n wahanol i'r cyfeiriad sydd ar y system budd-dal tai, gan awgrymu nad ydynt wedi datgelu newid yn eu hamgylchiadau neu eu bod wedi darparu gwybodaeth ffug.

36. Mae'r pum pariad wedi cael ei ddadansoddi ond ni ddaethpwyd o hyd i achosion newydd o dwyll/gwallau. Er enghraifft, yn gysylltiedig ag un pariad, roedd yr ymgeisydd a oedd ar y rhestr aros am dŷ cyngor wedi newid ei chyfeiriad i gyfeiriad ei mam gan nad oedd yn derbyn ei llythyrau. Fodd bynnag roedd yn dal i fyw yn y cyfeiriad lle'r oedd yn hawlio'r budd-dal tai.

## Rhestrau Aros

37. Mae rhestrau aros y Cyngor wedi cael eu paru i ganfod unigolion sydd wedi cofrestru ddwywaith gan ddefnyddio dau wahanol gyfeiriad, gan

awgrymu, o bosib, nad ydynt wedi datgelu newid yn eu hamgylchiadau neu eu bod wedi darparu gwybodaeth ffug.

38. Mae'r gwasanaeth wedi dadansoddi'r chwe phariad. Yn gysylltiedig ag un pariad, er ei fod yn bariad cywir, roedd y gwasanaeth eisoes wedi diweddaru eu rhestr aros a thynnu'r ymgeisydd oddi ar y rhestr cyn derbyn adroddiad y Fenter Twyll Genedlaethol. O ran y pum pariad arall, yn dilyn dadansoddiad penderfynwyd nad oedd unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'r pariadau hyn ac roedd rhai ceisiadau wedi cael eu canslo'n awtomatig yn sgil diffyg ymateb i'r ffurflen adolygu.

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a data CThEF (Enillion a Chyfalaf)

39. Mae data Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi cael ei baru â gwybodaeth CThEF ar Enillion a Chyfalaf i ganfod achosion lle mae'r sawl sy'n derbyn gostyngiad o dan y Cynllun wedi methu â datgan enillion a chyfalaf perthnasol a fyddai'n golygu nad ydynt yn gymwys i dderbyn gostyngiad.

40. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn y pariadau risg uwch sy'n seiliedig ar y tebygolrwydd a'r gwerth.

41. Rydym yn dal i aros am ymateb ganddynt ynglyn â chanlyniad eu hymchwiliad.

## Hanes taliadau credydwyr a data credydwyr sefydlog

42. Mae 10 adroddiad yn gysylltiedig â hanes taliadau a data credydwyr.

43. Mae Adroddiad 708 "Adroddiadau dyblyg yn ôl swm a chyfeirnod credydwr" yn amlygu taliadau dyblyg gwerth dros £1,000 a hynny o bosib yn sgil mesurau rheoli gwael neu dwyll gan gyflenwyr a / neu staff. Nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am gyfeirnod anfoneb er mwyn paru; ac felly mae'n cynnig pob math o bariadau tebygolrwydd isel.

44. Mae trosolwg o sampl o'r pariadau risg uwch yn awgrymu eu bod o ganlyniad i daliadau cyfreithlon, rheolaidd gan y Cyngor i gredydwyr / cyrff praeseptio amrywiol.

45. Gan fod archwilio mewnol wedi cynnal ymarfer dadansoddi data parhaus yn ddiweddar i ganfod taliadau dyblyg i gredydwyr, nid yw'r gwasanaeth wedi buddsoddi adnodd ychwanegol i ddadansoddi'r pariadau risg isel hyn.

46. Mae adroddiadau eraill y Fenter Twyll Genedlaethol yn y maes hwn yn ymwneud â phroblemau posib megis enwau a rhifau cyfrifon banc dyblyg.

47. Oherwydd llwyth gwaith a blaenoriaethau, nid yw'r gwasanaeth wedi gallu buddsoddi adnodd i ddadansoddi'r pariadau hyn.

## Pariadau Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor

48. Mae bil llawn y dreth gyngor yn seiliedig ar ddau oedolyn yn byw ar yr aelwyd o leiaf. Mae pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, neu ag oedolion sydd wedi'u heithrio rhag talu'r dreth gyngor, yn gymwys i ddisgownt o 25%, sef y disgownt person sengl / diystyru. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data'r dreth gyngor â'r gofrestr etholiadol a phob math o setiau data eraill i helpu i ganfod achosion pan na ddylai pobl fod yn derbyn y disgownt.

49. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023 a Mehefin 2024, mae'r tîm Refeniw yn y broses o benodi darparwr allanol i gynnal adolygiad wedi'i reoli'n llawn o'r Disgownt Person Sengl.

50. Bydd yr adolygiad hwn yn defnyddio data dadansoddol, data ariannol diweddaraf canolfannau credyd a sgiliau ymchwilio traddodiadol gan unigolion i fonitro pawb sy'n hawlio'r Disgownt Person Sengl ar hyn o bryd ac adolygu ceisiadau newydd, dros gyfnod cytunedig o amser. Mae'r broses gaffael wedi wynebu oedi amrywiol ac mae wedi'i gohirio erbyn hyn tra bo'r Tîm TG yn ymchwilio'n drylwyr i'r cyflenwr yn unol â gofynion diogelwch seiber y Tîm TG.

51. Mae'r adroddiadau canlynol wedi cael eu cynhyrchu gan y Fenter Twyll Genedlaethol. Fodd bynnag, yn sgil yr adolygiad allanol arfaethedig, mae'r Tîm Refeniw o'r farn mai dyblygu gwaith fyddai defnyddio adnoddau i ddadansoddi'r pariadau hyn.

## Y Dreth Gyngor - Disgownt person sengl a'r Gofrestr Etholiadol

52. Mae'r adroddiad yn nodi cyfeiriadau lle mae'r preswylydd yn hawlio disgownt person sengl y dreth gyngor yn seiliedig ar y ffaith nad oes yr un oedolyn arall yn byw yn y cyfeiriad, fodd bynnag mae'r gofrestr etholiadol yn dangos bod mwy nag un peron ar yr aelwyd yn 18 oed neu'n hŷn.

## Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor - Bron yn 18 oed

53. Mae'r adroddiad yn nodi cyfeiriadau lle mae'r trethdalwr yn hawlio disgownt person sengl y dreth gyngor yn seiliedig ar y ffaith nad oes yr un oedolyn arall yn byw yn yr eiddo; fodd bynnag, mae data'r gofrestr etholiadol yn dangos bod rhywun arall yn byw ar yr aelwyd sydd bron yn 18 oed neu sydd dros 18 oed ers yr ymarfer paru data.

54. Cafodd y pariadau hyn eu hanfon at y Swyddog Cydymffurfiaeth Treth i'w dadansoddi. Gan na fyddai gwybodaeth o'r fath wedi bod yn rhan o gwmpas yr adolygiad allanol o Ddisgownt Person Sengl y Dreth Gyngor, mae'n ddoeth gwerthuso'r pariadau hyn fel y gellir nodi dyddiad dod i ben ar gyfer y disgownt person sengl ac adolygu'r disgowntiau diystyru eraill e.e. os ydi'r unigolyn sydd bellach yn 18 oed mewn addysg bellach / uwch.

55. Mae pob un o'r 100 pariad wedi cael ei adolygu. O ganlyniad, mae hanner cant o gyfrifon wedi cael eu diwygio ac mae dyddiad dod i ben posib wedi cael ei nodi ar gyfer y Disgownt Person Sengl, i gyd-fynd â phen-blwydd yr unigolyn yn 18 oed. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y newidiadau hyn yn cynyddu refeniw'r dreth gyngor yn gysylltiedig â phob un o'r 50 cyfrif gan y bydd rhai unigolion 18 oed yn cael eu diystyru gan eu bod mewn addysg lawn amser.



56. Felly bydd y disgownt diystyru o 25% yn weithredolo hyd nes y byddant wedi cwblhau eu cwrs. Fodd bynnag, mae'r ymarfer yn sicrhau bod cofnodion Refeniw'n cael eu diweddaru a bydd yn cynhyrchu refeniw ychwanegol mewn sawl achos.

## Y Dreth Gyngor a Setiau Data Eraill

57. Mae'r adroddiad yn nodi cyfeiriadau lle mae'r preswylydd yn hawlio disgownt person sengl y dreth gyngor yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn byw ar eu pen eu hunain, ond mae gwybodaeth y Fenter Twyll Genedlaethol / setiau data eraill (e.e. deiliaid Bathodyn Glas, pobl sy'n hawlio disgownt o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, pobl sy'n hawlio'r Budd-dal Tai, Tenantiaid Tai, Rhestr Aros Tai, y Gyflogres) yn awgrymu bod mwyn nag un person yn byw ar yr aelwyd.

## Y Dreth Gyngor a data marwolaethau'r Gwasanaeth Datgelu Gwybodaeth am Farwolaethau Cofrestredig

58. Gall yr adroddiad paru hwn gynorthwyo'r cyngor i ddod o hyd i drethdalwyr y gellir eu dileu oddi ar y bil gan eu bod wedi marw ond bod y cyngor heb gael ei hysbysu gan berthnasau'r unigolyn / teulu agosaf / ysgutorion, er mwyn osgoi taliadau uwch o bosib, a fyddai'n gallu cael ei ystyried yn dwyll. Lle bo'n briodol gellir adolygu disgowntiau neu eithriadau sydd hefyd yn cael eu hawlio'n dwyllodrus ar gyfer y cyfeiriad hwnnw yn ogystal.

59. Mae Archwilio Mewnol wedi adolygu pum pariad. Cadarnhawyd bod dau o'r pump yn wallau, h.y. nid oedd y Cyngor wedi cael gwybod am farwolaeth y trethdalwr.

60. Yn enghraifft 1, mae Eithriad Dosbarth F[1] wedi cael ei ddefnyddio ac mae pob ymdrech i adennill y symiau dyledus wedi cael ei ohirio am y tro.

61. Yn enghraifft 2, mae'r Eithriad Dosbarth I[2] wedi cael ei ganslo a'i newid i eithriad Dosbarth F. Wedi i'r eithriad Dosbarth F ddod i ben 6 mis o ddyddiad y grant profiant, anfonwyd bil o £1,543.51 ar gyfer 2025-26.

[1] Ceir diffiniad o Eithriad Dosbarth F yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau wedi'u Heithrio) 1992. Mae'n berthnasol i anheddau gwag lle mae'r preswylydd blaenorol wedi marw, a'r unig berson sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor ydi'r sawl sy'n gweinyddu'r ystâd. Mae'r eithriad yn ddilys am hyd at chwe mis ar ôl derbyn y grant profiant neu lythyrau gweinyddu.
[2] Mae'r eithriad dosbarth I yn berthnasol i eiddo gwag a oedd yn unig neu brif gartref i berson sydd wedi symud i fyw i rywle arall i dderbyn gofal personol nad yw'n cael ei ddarparu mewn ysbyty neu gartref gofal, fel arfer oherwydd henaint, anabledd neu gyflyrau cysylltiedig.

# Casgliad

62. Unwaith eto rydym yn ddiolchgar i'r gwasanaethau sydd wedi cymryd rhan am ddadansoddi pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol a/neu am ymateb i'n hymholiadau.

63. Mae'r nifer isel o wallau/achosion o dwyll y gysylltiedig â'r meysydd paru hefyd yn darparu sicrwydd bod y rheolaethau mewnol sydd gennym ar waith yn gadarn, h.y. yn gysylltiedig â thenantiaid Tai / Rhestrau Aros, y Gyflogres a Chaffael.

64. Yn yr un modd, mae'r cyfle fel rhan o'r broses hon i ganfod gwendidau mewn rheolaethau mewnol a thrafod sut i gryfhau prosesau gyda rheolwyr, a'r ffaith nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau ariannol y Fenter Twyll Genedlaethol, yn fantais arall nad oes modd pennu gwerth arni.

65. Mae mireinio'r modd y caiff pariadau eu gwerthuso gan wasanaethau i sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn amcan a fydd y cael ei thrafod gyda phenaethiaid gwasanaeth ac uwch reolwyr wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod ymarferion yn y dyfodol yn sicrhau mwy o elw ar fuddsoddiadau.

66. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn ac mewn adroddiadau blaenorol, nid yw'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi dadansoddi'r pariadau'n gysylltiedig â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor gan ei fod yn bwriadu defnyddio darparwr allanol i gynnal adolygiad o ddisgowntiau ac eithriadau cyn diwedd 2025-26. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gymryd mantais lawn o'r Fenter Twyll Genedlaethol drwy ddadansoddi'r pariadau mwyaf gwerthfawr.

67. Rhaid cydnabod eto bod y gwallau gyda 'Bathodynnau Glas' wedi gogwyddo'r canlyniadau ariannol yn sylweddol.

68. Wrth edrych ar newidiadau posib ar gyfer y dyfodol, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn y broses o ddiwygio Deddf Archwilio Lleol ac Atebolrwydd 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol a fyddai'n galluogi'r Fenter Twyll Genedlaethol i ailgychwyn yr ymarfer paru a rhannu data gydag awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r maes gofal cymdeithasol i oedolion.

69. Roedd y gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau yn gynharach eleni, ond bu oedi yn y broses ddeddfwriaethol ac mae timau Seneddol yn gweithio'n rhagweithiol i fwrw 'mlaen â'r broses. O ganlyniad, bydd y gwaith o gasglu data gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei ohirio hyd nes y bydd y broses wedi cael ei chwblhau.

70. Er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn, rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i sicrhau bod ein hysbysiadau preifatrwydd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU (GDPR) yn gysylltiedig â pharu data ym maes gofal cymdeithasol i oedolion a'n bod ni'n barod ac â'r gallu i echdynnu data ynglŷn â Chartrefi Gofal Preswyl a Chyllidebau Personol (taliadau uniongyrchol) yn unol â manylebau data'r Fenter Twyll Genedlaethol.

71. Yn olaf, mae cwblhau rhestr wirio hunanwerthuso'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi dangos bod y cyngor yn ymgysylltu'n dda â'r Fenter Twyll Genedlaethol, ond gyda mwy o adnoddau, gallai wneud mwy i sicrhau ei fod yn cymryd mantais lawn o'r ymarfer drwy ymchwilio i fwy o bariadau.

# Atodiad 1 – Rhestr Wirio Hunanasesu'r Fenter Twyll Genedlaethol

| | | Do/Ydi/Ydym / Yn Rhannol / Na | Sylwadau / Camau Gweithredu | Pa gamau a ddylid eu cymryd, gan bwy a phryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth, ymrwymiad a chyfathrebu** | | | | |
| 1 | Ydym ni wedi ymrwymo i'r Fenter Twyll Genedlaethol?<br>Ydi'r cyngor / bwrdd, y rheiny sy' gyfrifol am lywodraethiant ac uwch reolwyr wedi datgan eu bod yn cefnogi'r ymarfer ac ydi'r staff perthnasol yn ymwybodol o hyn? | Do | • Mae cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol wedi'i gynnwys yn Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor ar gyfer 2025-2028.<br>• Mae canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu cynnwys mewn adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |
| 2 | Ydym ni wedi ymrwymo adnoddau penodol i reoli'r NFI yn gyffredinol?<br>Os oes gwybodaeth ar gael, faint o amser mae'r Prif Gyswllt wedi'i dreulio ar yr ymarfer diwethaf, a faint sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer yr ymarfer nesaf? | Do | • 2 x Prif Gyswllt (x1 Strategol, x1 Gweithredol)<br>• Dim gwybodaeth ynglyn â'r amser a ddyrannwyd | |
| 3 | Ydi'n Prif Gyswllt yn swyddog addas ar gyfer y rôl honno, h.y., oes ganddo ddigon o wybodaeth i sicrhau bod y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei chyflawni'n effeithiol? | Ydi | • Pennaeth Archwilio a Risg / Uwch Archwilydd | |
| 4 | Ydi archwilio mewnol, neu wasanaeth cyfatebol, yn monitro ein hagwedd tuag at y Fenter Twyll Genedlaethol a phrif ganlyniadau'r ymarfer, gan sicrhau bod unrhyw wendidau'n cael eu datrys pan fo hynny'n berthnasol? | Ydi | • Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn monitro ac adrodd ar ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol. (Prif Gyswllt Strategol)<br>• Mae Uwch Archwilydd yn brif gyswllt allweddol a chydlynydd (gweithredol) ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol - maent yn ymchwilio i bariadau ac yn eu cydlynu ac yn uwch gyfeirio canfyddiadau pan fo hynny'n briodol. Fe all hyn amlygu gwendidau rheoli i'r Pennaeth Archwilio a Risg a darparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwaith archwilio a darparu sicrwydd.<br>• Mae'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

| | | Do/Ydi/Ydym / Yn Rhannol / Na | Sylwadau / Camau Gweithredu | Pa gamau a ddylid eu cymryd, gan bwy a phryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio a pharatoi** | | | | |
| 5 | Ydym ni'n cynllunio'n briodol ar gyfer pob agwedd ar y Fenter Twyll Genedlaethol a gosod terfynau amser mewnol? | Ydym | Mae Archwilio Mewnol yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod data yn cael ei uwchlwytho yn unol ag amserlen y Fenter Twyll Genedlaethol a'i fod yn sicrhau ansawdd y data hwnnw. | |
| 6 | Yn achos y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2024-25, a wnaethom ni ddarparu'r holl ddata mewn da bryd gan wneud defnydd priodol o'r cyfleuster ar gyfer uwch lwytho data yn ddiogel? | Do | | |
| 7 | Yn achos y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2024-25, a wnaethom ni gadarnhau mewn da bryd (gan ddefnyddio'r cyfleuster ar y wefan ddiogel) ein bod wedi cwrdd â gofynion yr hysbysiad prosesu teg? | Do | | |
| 8 | Ydym ni'n adolygu canlyniadau gwiriadau Ansawdd Data cyn mynd ati i ymchwilio? | Na | *"Dim Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer y data"* ar safle'r Fenter Twyll Genedlaethol.<br><br>Fodd bynnag, cynhelir gwiriadau ansawdd cyn cyflwyno data. | Holi'r Fenter Twyll Genedlaethol ynglyn â'r neges "Dim Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer y data".<br><br>Prif Gyswllt |
| 9 | Ydi staff yn cymryd amser i ddarllen y canllawiau a ddarperir ar sut i ddilyn pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (sy'n bwysig iawn i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol am y tro  cyntaf), ac a ydynt yn ymgynghori â'r thîm y Fenter Twyll Genedlaethol os ydynt yn ansicr sut i gofnodi'r canlyniadau? | Yn rhannol | Caiff canlyniadau eu cofnodi ar system y Fenter Twyll Genedlaethol gan y Prif Gyswllt | |
| 10a | Ydym ni wedi ystyried defnyddio'r gwasanaeth paru wrth gyflwyno data (AppCheck) y mae tîm y | Do | Mae'r Gwasanaeth Tai wedi defnyddio AppCheck i atal twyll tenantiaeth / ceisiadau twyllodrus. | |

| | | Do/Ydi/Ydym / Yn Rhannol / Na | Sylwadau / Camau Gweithredu | Pa gamau a ddylid eu cymryd, gan bwy a phryd? |
|---|---|---|---|---|
| | Fenter Twyll Genedlaethol yn ei gynnig i wella rheolaethau mewnol ac atal twyll a gwallau? | | | |
| 10b | Os nad ydych yn defnyddio AppCheck, oes yna sail resymol glir dros wneud hynny? | Amherthnasol | | |
| **Dilyn pariadau i fyny yn effeithiol** | | | | |
| 11 | Ydym ni wedi dogfennu'n dull ar gyfer asesu'r risgiau yn gysylltiedig ag adroddiadau paru data ac ymchwilio i bariadau? | Na | • Nid yw'r dull wedi ei ddogfennu'n ffurfiol<br>• Defnyddio Canrannau Sgorio Risg y (Fenter Twyll Genedlaethol i flaenoriaethu'r pariadau yr ydym yn ymchwilio iddynt.<br>• Trefnu pariadau yn ôl yr arbediad posib h.y. blaenoriaethu'r arbediad uchaf. | |
| 12 | Ydi'n dull yn rhoi blaenoriaeth i risgiau twyll lleol? | Yn rhannol | Gan fod Archwilio Mewnol yn cynnal ei ymarferion monitro parhaus ei hun drwy ddadansoddi data credydwyr (i ganfod unrhyw daliadau dyblyg / gwallau), mae llai wedi cael ei wario ar ddadansoddi pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol i osgoi dyblygu gwaith. | |
| 13 | Ydi'n dull yn rhoi blaenoriaeth i bariadau risg uchel, rheiny sy'n dyddio'n gyflym a rheiny a all achosi risg i'n henw da pe na fyddai achos o dwyll neu wall yn cael ei atal yn gyflym? | Ydi | Fel y trafodwyd uchod, mae'r dull yn rhoi blaenoriaeth i bariadau risg uchel, o ran gwerth a difrod i enw da, e.e. Tenantiaeth Tai / Rhestr Aros / Caffael / Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | |
| 14 | Oes adnoddau ac arbenigedd digonol ar gael ar yr adeg gywir i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol? | Na | Mae adnoddau gan yr adran Refeniw a Budd-daliadau wedi bod yn annigonol i ymchwilio i'r pariadau risg uchel yn gysylltiedig â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. | |
| 15 | Ydi'r Prif Gyswllt yn cydlynu ymchwiliadau ledled adrannau mewnol i osgoi dyblygu gwaith neu achosi oedi wrth ganfod gordaliadau a sicrhau bod camau perthnasol yn cael eu cymryd, er enghraifft, trefnu ymchwiliad ar y cyd ar bariadau | Ydi | | |

| | | Do/Ydi/Ydym / Yn Rhannol / Na | Sylwadau / Camau Gweithredu | Pa gamau a ddylid eu cymryd, gan bwy a phryd? |
|---|---|---|---|---|
| | disgownt person sengl yn gysylltiedig â'r budd-dal tai? | | | |
| 16 | (Mewn cyrff iechyd) Ydym ni'n gwneud defnydd priodol o'r help ac arbenigedd sydd ar gael gan Wasanaeth Gwrth-dwyll GIG Cymru? | Amherthnasol | | |
| 17 | Ydym ni'n ymchwilio'n ddigonol i'r amgylchiadau yn gysylltiedig â'r pariadau cyn dod i'r casgliad 'dim problemau', yn benodol? | Yn rhannol | | |
| 18 | Ydym ni'n adolygu'r hyn sydd wedi achosi'r twyll a gwallau ac yn defnyddio'r wybodaeth i wella rheolaethau mewnol? | Ydym | Mae natur a nifer y pariadau yn gysylltiedig â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn awgrymu bod angen gwerthuso'r rheolaethau sydd ar waith i adolygu ceisiadau byw. | |
| 19 | Ydym ni'n cymryd camau priodol pan ddeuir o hyd i dwyll neu wallau posib, e.e. adennill yr arian (boed yn gamau disgyblu, dirwyon / rhybuddion neu'n rhoi gwybod i'r Heddlu neu Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru)? | Amherthnasol | | |
| 20 | Ydym ni'n ymateb yn brydlon i ymholiadau gan sefydliadau eraill sy'n rhan o'r Fenter Twyll Genhedlaeth? | Ydym | Wedi ymateb yn brydlon i sylwadau / ymholiadau gan sefydliadau eraill. | |
| **Cofnodi ac adrodd** | | | | |
| 21 | Ydym ni'n cofnodi canlyniadau'n briodol ar wefan ddiogel ac yn diweddaru'r wybodaeth honno? | Yn rhannol | | |
| 22 | Ydym ni'n darparu adborth priodol a rheolaidd i uwch reolwyr, aelodau'r bwrdd / cyngor a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant ar weithgareddau a chanlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol? | Ydym | Mae uwch reolwyr wedi'n cynghori nad yw eu gwasanaeth yn ymateb i ymholiadau'n gysylltiedig â phariadau a p'un a yw eu gwasanaeth yn ymchwilio i bariadau risg uchel.<br>Adroddiad ar gynnydd / canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025. | |

| | | Do/Ydi/Ydym / Yn Rhannol / Na | Sylwadau / Camau Gweithredu | Pa gamau a ddylid eu cymryd, gan bwy a phryd? |
|---|---|---|---|---|
| 23 | Ydym ni'n darparu sicrwydd i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant ein bod yn deall pam fod y twyll neu wallau wedi digwydd a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hwy a gwella rheolaethau mewnol? | Yn rhannol | | |
| 24 | Os nad ydym wedi cyflwyno data neu ddefnyddio'r pariadau a anfonwyd atom, e.e. disgownt person sengl y dreth gyngor, ydym ni'n fodlon bod gennym drefniadau eraill ar waith i ganfod twyll ac ydym ni'n gwybod os ydi'r rheiny'n llwyddiannus? | Yn rhannol | Nid yw pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gysylltiedig â disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor wedi cael eu dadansoddi oherwydd bod y gwasanaeth yn bwriadu defnyddio opsiynau paru data mwy effeithiol. Fodd bynnag, ar yn o bryd, nid yw'r ymarfer wedi digwydd oherwydd y gofynion TG ac felly ni allwn asesu llwyddiant yr ymarfer. | |
| 25 | Ydym ni'n cyhoeddi canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn fewnol ac allanol er mwyn annog pobl i beidio â chyflawni twyll? | Yn rhannol | Mae adroddiad ar gynnydd / canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor, yn gysylltiedig â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |
| 26 | Os ydym, o ddewis, yn cofnodi rhai neu bob canlyniad y tu allan i'r wefan ddiogel, ydym ni wedi trefnu i roi gwybod i dîm y Fenter Twyll Genedlaethol am y canlyniadau hyn? | Amherthnasol | | |

# Atodiad 2 – Menter Twyll Genedlaethol 2024-25: Crynodeb o'r Canlyniadau

| Maes Adrodd | Nifer y pariadau | Nifer y pariadau a ddadansoddwyd / a gafodd eu cyfeirio at y gwasanaeth | Twyll/Gwall a Gadarnhawyd | Aros am gadarnhad gan y Gwasanaeth/ yn cael ei ddadansoddi | Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (gwirioneddol / tybiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Parcio'r cynllun Bathodyn Glas | 270 | 243 | 243 | Amherthnasol | £193,000 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 506 | 29 | Disgwyl ymateb | 21 | Disgwyl ymateb |
| Credydwyr | 1,889 | 7 | 0 | 0 | £0.00 |
| Unigolion sy'n Hawlio'r Budd-dal Tai | 7 | 6 | 0 | 1 | £0.00 |
| Tenantiaid Tai | 194 | 50 | 6 (gwall) | 1 | Disgwyl ymateb |
| Rhestr Aros Tai | 26 | 20 | 1 | 1 | £4,283 |
| Y Gyflogres | 102 | 50 | | | Disgwyl ymateb |
| Caffael | 40 | 12 | 0 | 0 | £0.00 |
| **Cyfanswm** | **3,034** | **417** | **250** | | £197,283 |

| Maes Adrodd | Nifer y pariadau | Nifer y pariadau a ddadansoddwyd | Twyll / Gwall a Gadarn hawyd | Disgwyl cadarnhad gan y gwasanaeth | Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol | 1,577 | 0 | 0 | 0 | £0.00 | |

| Maes Adrodd | Nifer y pariadau | Nifer y pariadau a ddadansoddwyd | Twyll / Gwall a Gadarnhawyd | Disgwyl cadarnhad gan y gwasanaeth | Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Dreth Gyngor a'r rhai sydd bron yn 18 oed | 100 | 100 | 50 cyfrif wedi ei addasu | 0 | Gweler sylwadau | Yn achos 50 cyfrif, mae dyddiad dod i ben dros dro wedi cael ei nodi ar gyfer y Disgownt Person Sengl, yn unol â phen-blwydd yr ail breswylydd. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd hyn yn arwain at gynnydd mewn refeniw ym mhob achos gan y bydd rhai unigolion 18 oed yn cael eu diystyru am eu bod mewn addysg lawn amser, ac felly bydd y disgownt diystyru o 25% yn dal i fod mewn grym hyd nes y byddant wedi gorffen y cwrs.<br><br>Yn seiliedig ar y swm a godir ar gyfer eiddo band D, sef £1,721.70, pe byddai 25 allan o'r 50 cyfrif yn gorfod talu 100% o'r dreth, byddai'r cygor yn derbyn £10,760 o refeniw ychwanegol y flwyddyn. |
| Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a Setiau Data Eraill | 622 | 0 | 0 | 0 | £0.00 | |
| Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a Phob Set o Ddata | 2,199 | 24 | 0 | 0 | £0.00 | |
| Y Dreth Gyngor a chofnodion marwolaethau'r DDRI | 88 | 5 | 2 | 0 | £1,543.51 ar gyfer 2025-26. | i) Eithriad Dosbarth F wedi'i roi / wedi rhoi'r gorau i geisio adennill y ddyled.<br>ii) Eithriad Dosbarth I wedi'i ganslo a'i newid i Ddosbarth F a oedd yn golygu bod 6 mis o dreth gyngor yn ddyledus o ddyddiad y profiant. |
| **Cyfanswm** | **4586** | **129** | **52** | | | |

Tudalen 114

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc** | **ER GWYBODAETH YN UNIG:** Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarterol 30 Mehefin 2025 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards<br>carysedwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Archwilio Cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ofynnol iddo oruchwylio trefniadau archwilio allanol (3.4.8.11.3) a goruchwylio effeithiolrwydd cysylltiadau rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill (3.4.8.11.4). Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hefyd dderbyn ac ystyried adroddiadau gan unrhyw rheoleiddwyr neu arolygwyr eraill, fydd yn ffynhonnell sicrwydd defnyddiol (3.4.8.13.1). | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion gwaith arfaethedig a diweddar Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn, lle bo'n berthnasol.

- gwaith archwilio ariannol ar Ddatganiad Cyfrifon 2024-25, wedi ei amserlennu ar gyfer Hydref 2025
- gwaith archwilio perfformiad, sy'n cynnwys adolygiadau thematig o Gomisiynu, gan ganolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer

comisiynu gwasanaethau; bwriedir cyflwyno'r adroddiad terfynol gydag ymateb y Cyngor yng nghyfarfod Rhagfyr 2025.

- Ar gyfer 2024-25, cynllunir prosiect lleol ynghylch rheoli balansau a chronfeydd wrth gefn yn strategol a sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd, ynghyd â gwaith parhaus i asesu lefel y sicrwydd archwilio sydd ei angen.

1.2 Mae'r gwaith archwilio perfformiad a gynlluniwyd ar gyfer 2025 yn cynnwys:

- Heriau recriwtio a chadw
- Gwastraff ac ailgylchu
- Defnyddio data wrth osod cyllideb alw am wasanaethau

1.3 Mae'r Diweddariad hefyd yn rhoi trosolwg o'r astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi'u cynllunio ac ar y gweill ac a yw gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

1.4 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru ledled Cymru.

1.5 Mae'r adroddiad yn darparu rhestr o adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn 2024 a 2025, ynghyd â'r gwaith sydd ar y gweill ac sydd wedi'i gynllunio.

1.6 Yn olaf, mae'r adroddiad yn darparu manylion digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da.

# 2 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried yr adroddiad a nodi’r sicrwydd a ddarperir ynddo.

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn - 30 Mehefin 2025

**Ceir isod fanylion gwaith arfaethedig a gwaith diweddar, lle y bo'n berthnasol, gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Byddwn yn darparu diweddariad pellach ar gynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ddiwedd mis Rhagfyr 2025.**

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifon 2024-25 y Cyngor** | Byddwn yn cwblhau'r archwiliad statudol o Ddatganiadau Ariannol a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. | Hydref 2025 | Mae profion archwilio ar y gweill. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2023-24** | Ardystiad nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• wedi'i datgan yn deg<br>• yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol. | Tachwedd 2025 | Mae gwaith archwilio ar y cais am gymhorthdal ar gyfer 2023-24 yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r bwriad o'i gwblhau yn dilyn ein gwaith archwilio Cyfrifon 2025. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant 2024-25** | • Grant NDR3 2024-25.<br>• Grant Pensiwn Athrawon 2024-25. | Tachwedd 2025 | Mae profion archwilio ar y gweill. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2024-25** | Ardystiad nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• wedi'i datgan yn deg<br>yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol. | Ionawr 2026 | I ddechrau ar ôl cwblhau Cymhorthdal Budd-dal Tai 2023-24. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| **Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad thematig – comisiynu** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2025. Yn aros am ymateb Rheolwyr i'r argymhellion. |

| **Gwaith Archwilio Perfformiad 2024-25** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu ble y gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor, gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. | Cwblhawyd | Cwblhawyd |
| Gwaith prosiect lleol – Rheoli Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn yn Strategol | Adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i reoli balansau a chronfeydd wrth gefn yn strategol. | Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2025 | Gwaith maes yn mynd rhagddo. Adroddiad drafft i'w gyhoeddi i swyddogion yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. |
| Gwaith prosiect lleol – Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladdoedd | Adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i sefydlu awdurdod iechyd porthladdoedd. | Amherthnasol | Dim adroddiad wedi'i gynllunio oherwydd newidiadau deddfwriaethol. |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2025-26 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad thematig – heriau recriwtio a chadw staff** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian ac egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ionawr 2025 – Mehefin 2026 | Cwmpasu |
| **Prosiect lleol – Gwastraff ac Ailgylchu** | Adolygiad a fydd yn edrych ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau wrth ddarparu'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu. | Ionawr 2025 – Mehefin 2026 | Cwmpasu |
| **Gwaith Rhanbarthol: defnyddio data wrth osod cyllideb ar gyfer gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw** | Gwaith archwilio lleol ar draws y 6 phrif gyngor yng Ngogledd Cymru a fydd yn edrych ar drefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol wrth osod cyllidebau. Bydd hyn yn cynnwys sut mae cynghorau'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen. | Ionawr – Mehefin 2026 | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yn y Cyngor |
|---|---|---|---|---|
| **Llety Dros Dro** | Archwilio'r costau, y galw a sut mae gwasanaethau'n cydweithio i ddatblygu'r ymateb i lety dros dro. | Cyhoeddi'r adroddiad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2025 | Gwaith maes wedi'i gwblhau. | Cynhaliwyd cyfweliadau yn y cynghorau canlynol:<br>• Conwy<br>• Sir Benfro<br>• Caerdydd<br>• Casnewydd<br>• Wrecsam |
| **Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol** | Archwilio a yw buddsoddiad cyfalaf yn y sylfaen asedau mewn llywodraeth leol yn gallu ateb galw | Cyhoeddiad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi 2025 | Gwaith maes wedi'i gwblhau. | Cynhaliwyd cyfweliadau yn y cynghorau canlynol:<br>• Ynys Môn<br>• Castell-nedd Port Talbot<br>• Powys<br>• Rhondda Cynon Taf<br>• Abertawe<br>• Torfaen |
| **Gwasanaethau Plant** | Mae gwaith cwmpasu ar y gweill gyda ffocws tebygol ar gynlluniau cynghorau ar gyfer gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025; costau a'r galw am wasanaethau, a sut mae cynghorau a'u partneriaid yn gweithio i wella gwerth am arian gwasanaethau. | Gwaith maes i'w ddechrau yn haf 2025 | Cwmpasu | I'w gadarnhau |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yn y Cyngor |
|---|---|---|---|---|
| **Trefniadau ariannu llywodraeth leol** | I'w gadarnhau | Gwaith maes i'w ddechrau yn hydref 2025 | Cwmpasu'n mynd rhagddo | I'w gadarnhau |
| **Trefniadau comisiynu mewn llywodraeth leol** | Cwmpasu ar y gweill ar gyfer astudiaeth llywodraeth leol yn dilyn cwblhau adolygiad thematig ym mhob un o'r 22 cyngor (gweler uchod) | Gwaith maes i'w ddechrau yn haf / hydref 2025 | Cwmpasu | I'w gadarnhau |
| **Gwaith Dilynol Cyd-bwyllgorau Corfforaethol** | Cwmpas i'w gadarnhau. I ddilyn Astudiaeth Llywodraeth Leol flaenorol | I'w gadarnhau | Heb ddechrau eto | I'w gadarnhau |

## Estyn

Yn ystod tymor yr hydref, byddwn yn arolygu LGES Casnewydd. Gwnaethom hefyd gynnal arolygiad o waith ieuenctid yr awdurdod lleol. Nodwyd gennym ymarfer cryf yn y ddarpariaeth yng Nghasnewydd, yn enwedig mewn meysydd sy'n ymwneud â chefnogi cyllid ysgolion, llawer o agweddau ar wella ysgolion ac ADY, yn ogystal â'u gwaith wrth ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Gwnaethom dynnu sylw at effaith arweinyddiaeth gref ar lefel cyfarwyddwyr, a'i heffaith ar ansawdd a chyflawniad y swyddogaethau allweddol sy'n ymwneud â'i rôl.

Gwnaethom gynnal ymweliad monitro o LGES Torfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod a oedd yn peri pryder sylweddol. Arfarnodd yr ymweliad ei gynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd. Nodwyd gennym fod LGES Torfaen wedi gwneud digon o gynnydd i fynd i'r afael ag elfennau allweddol o'r argymhellion a chafodd ei dynnu o'r gweithgarwch dilynol. Y ffactor allweddol wrth sicrhau'r gwelliant fu'r cynnydd mewn capasiti arweinyddiaeth ar lefel Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr sydd wedi cael effaith sylweddol ar sicrhau cynnydd pwysig mewn perthynas â disgwyliadau, prosesau a chyflawni.

Gwnaethom gynnal ymweliad uwch gan arolygydd cyswllt â Sir Ddinbych ym mis Hydref, gan ganolbwyntio ar agweddau penodol ar bresenoldeb ac anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ystod tymor y gwanwyn, cynhaliwyd arolygiad o LGES Powys a gwaith ieuenctid. Roeddem o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar LGES Powys ac felly bydd angen ei fonitro gan Estyn. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid ym Mhowys yn gryf ar y cyfan.

Cynhaliwyd ymweliad uwch gan arolygydd cyswllt â Phen-y-bont ar Ogwr a oedd yn canolbwyntio ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) a'i waith ar wella presenoldeb. Gwnaethom hefyd gyfrannu at arolygiad ar y cyd AGC o drefniadau amddiffyn plant yn Sir Benfro a'i waith dilynol ar Adolygiad Cyflym o ddiogelu.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gwaith wedi'i gynllunio gan AGC 2025-26 Adolygiadau thematig – Arolygiadau Cydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol (RAC)** | Bydd AGC yn cwblhau pum arolygiad yn cwmpasu Cymru gyfan. Cynhelir arolygiadau ar draws y pum cydweithrediad mabwysiadu rhanbarthol: byddwn yn tynnu ar y themâu cenedlaethol mewn adroddiad cenedlaethol. | Ebrill 2025 – Rhagfyr 2025 | Arolygiadau'n mynd rhagddynt |
| **Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT)**<br>**Arolygiadau Iechyd Meddwl Cymunedol** | Yn 2025-6, byddwn yn parhau â rhaglen flynyddol o waith ar y cyd sy'n canolbwyntio ar CLDT a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) | Gorffennaf 2025 – Chwefror 2026 | Arolygiadau yn yr arfaeth |

| | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant** | Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant: Sir Benfro | Mawrth 2025 | Heb ei gyhoeddi eto |
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Dols)** | Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2023-24 - Adolygiad cenedlaethol o ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru 2023-24 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Chwefror 2025 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Adroddiad Blynyddol** | Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2023-2024 | Tachwedd 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc** | Adolygiad ar y Cyd: Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru? | Tachwedd 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Arolygiadau Chwarter 4** | Gwiriad Gwella: Gwasanaethau plant Cyngor Sir Ddinbych | Chwefror 2025 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Arolygiad Gwerthuso Perfformiad: Gwasanaethau oedolion Cyngor Dinas Casnewydd | Chwefror 2025 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Caerdydd (CMHT) | Mawrth 2025 | Heb ei gyhoeddi eto |

| | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | Gwiriad Gwella Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Fynwy | Mawrth 2025 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Arolygiadau 2025-26 Chwarter 1** | Gwiriad Gwella: Gwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ceredigion | Mai 2025 | Heb ei gyhoeddi eto |
| | Gwiriad gwella: Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Mehefin 2025 | Arolygiad yn yr arfaeth |
| **Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol a Cafcass Cymru** | Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | | |
| | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Rydym wedi diwygio ein Cod Ymarfer | Tachwedd 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Arolygiadau Chwarter 3** | Gwiriad gwella awdurdod lleol: Gwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ynys Môn | Awst 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol y Drenewydd | Hydref 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwiriad sicrwydd awdurdod lleol: Gwasanaethau oedolion Castell-nedd Port Talbot | Tachwedd 2024 | Wedi'i gyhoeddi |

| | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | Arolygiad Gwerthuso Perfformiad: Gwasanaethau plant Cyngor Sir Caerfyrddin | Rhagfyr 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Llythyr gwiriad sicrwydd awdurdod lleol: Gwasanaethau Oedolion Caerffili \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Tachwedd 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Llythyr gwiriad gwella awdurdod lleol: Gwasanaethau Oedolion Cyngor Gwynedd \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Hydref 2024 | Wedi'i gyhoeddi |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Trefniadau arbed costau'r GIG (erthygl gyda Rhestr Wirio ar gyfer Aelodau Byrddau'r GIG) | Mehefin 2025 |
| Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru | Mai 2025 |
| Dim amser i'w golli:<br>Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Ebrill 2025 |
| Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – Gwersi o Waith Archwilio i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru | Mawrth 2025 |
| Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Mawrth 2025 |
| Mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu yn GIG Cymru | Chwefror 2025 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Gwasanaethau Canser yng Nghymru | Ionawr 2025 |
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Rhagfyr 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol sydd bellach yn cynnwys data o gyfrifon drafft 2023-24 | Rhagfyr 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23 | Hydref 2024 |
| Teithio llesol (adroddiad ac offeryn data) | Medi 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Tai fforddiadwy | Medi 2024 |
| Cyllid y GIG – a diweddariad yr offeryn data hyd at 31 Mawrth 2024 | Awst 2024 |
| Digidol yn ôl dyluniad? – Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer TVR Automotive Ltd | Gorffennaf 2024 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith sy’n mynd rhagddo / wedi'i gynllunio)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – Cyfoeth Naturiol Cymru | Haf 2025 |
| Heriau i’r sector diwylliannol (ffocws ar gynaliadwyedd ariannol) | Haf 2025 (gwaith archwilio lleol yng nghyrff hyd braich Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau i raddau helaeth ond bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar y wefan yn dilyn pwyllgorau archwilio: eisoes ar gael ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol, Chwaraeon Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru) |
| Canfyddiadau paru data peilot cofrestru meddygon teulu | Haf 2025 |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Medr / Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | Haf 2025 (ar gyfer cam cychwynnol y gwaith ar osod amcanion llesiant – gwaith pellach i ddilyn) |
| Gofal brys a gofal mewn argyfwng (negeseuon cenedlaethol) | Hydref 2025 |
| Canolfan Ganser Newydd Felindre | Hydref 2025 |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | I’w gadarnhau (cwmpasu) |
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | Hydref 2025 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio ymchwiliol eraill a gwaith archwilio lleol, lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

[2] Mae ein Cynllun Blynyddol 2025-26 hefyd yn darparu rhestr wedi’i diweddaru o'r gwaith sydd ar y gweill ac yn rhestru cynlluniau ar gyfer gwaith newydd i ddechrau yn ystod 2025-26 a fydd yn cael eu hychwanegu at y papur hwn maes o law. Lle mae gwaith cenedlaethol/thematig wedi symud ymlaen drwy’r cam cynllunio, mae crynodeb byr o’i ffocws a’i amserlen arfaethedig hefyd ar gael ar dudalennau rhaglen waith ein gwefan.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG (crynodeb o waith archwilio lleol mewn byrddau iechyd) | Hydref 2025 (gwaith lleol i'w gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025) |
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Gaeaf 2025 |
| Cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau | Gwanwyn 2026 |
| Cymorth i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cynnydd gyda buddsoddiad mewn adeiladau ysgol a choleg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | Gaeaf 2025 |
| Darlun o wasanaethau cyhoeddus – myfyrdodau ar heriau cyllid cyhoeddus, llywodraethu a darparu gwasanaethau | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Dulliau cyrff y GIG o drawsnewid digidol (gwaith archwilio lleol) | I'w gadarnhau (gwaith archwilio lleol yn cael ei gyflwyno o fis Gorffennaf 2025) |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **Dim amser i'w golli: Blaenoriaethu Atal**<br>**Bydd y ffocws ar archwilio'r meddyliau diweddaraf ar atal ac edrych ar sut y gall cyrff cyhoeddus symud o ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol. Bydd modd i gynrychiolwyr rannu, dysgu a rhwydweithio gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru.** | **15 Gorffennaf – 09:30 – 13:00 – Stadiwm Dinas Caerdydd**<br>**17 Gorffennaf – 09:30 – 13:00 – Canolfan Busnes Conwy**<br>Dilynwch y dolenni i archebu lle neu anfonwch e-bost i good.practice@audit.wales |
| Rydym yn y broses o bennu dyddiadau terfynol ar gyfer ein digwyddiadau sydd i ddod a fydd yn cynnwys y themâu canlynol:<br>• Mynd i'r afael â thwyll a gwallau<br>• Y dirwedd gwasanaethau cyhoeddus cymhleth<br>• Gweithlu'r dyfodol<br>• Cynyddu lled band ar drawsnewid digidol<br>• Profi gwerth am arian | Byddwn yn rhannu manylion archebu yn fuan. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 30 Medi 2025 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025-26 f4 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen ddatblygu yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2025-26 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

# Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2025-26 f4

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2) | | | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f2 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2024-25 (3.4.8.3.1/2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f3 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f4 (3.4.8.3.2) | | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2024-25 (3.4.8.4.4) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2) | | | |

[1] Cyfarfod arbennig os oes angen

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4) | ~~Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4)~~ | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2026-27 (3.4.8.5.1/3/4) | |
| Gwerth am arian (3.4.8.6) | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.6/7/8/9/ 12/14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)~~ | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>**Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)** | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)~~<br><br>**Adroddiad Blynyddol** | | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)** | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | ~~Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>~~Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~ | | **Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)**<br><br>**Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** | | |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | *~~Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)~~* | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25 (3.4.8.9.4/5/6)<br><br>Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2024-26 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6)<br><br>***Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu*** | | | | |

Tudalen 134

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ***Chwiban Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)*** | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.5/6/7/8/ 11/14/15) (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2024-25 (3.4.8.10.1/8/11/ 13)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/ 5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Dadansoddiad o fylchau o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (3.4.8.10.1/2/8/11 /13) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) |

Tudalen 135

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Cynllun Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.1/3) | | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3) | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch2 2025) (3.4.8.11.2/3)<br><br>Trefniadau comisiynu gwasanaethau (3.4.8.11.1/2/3)<br><br>Rheolaeth strategol cronfeydd wrth gefn (3.4.8.11.1/2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3)<br><br>Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2025) (3.4.8.11.2/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | ~~Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a~~ | ~~Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus~~ | | **Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus** | | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ~~Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)~~ | ~~Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1)~~<br><br>**Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)** | | **Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1)** | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | ~~Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)~~ | **Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)** | ~~Adroddiad blynyddol Hunan-asesiad, Perfformiad a Llesiant 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3) (Darpariaethol)~~ | | | |
| Asesiad Perfformiad Panel (3.4.8.16)[2] | | Themâu i'w hystyried gan Asesiad Perfformiad y Panel (3.4.8.16.1) | | | | | |
| 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol[3] | | | | | | | |



[2] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[3] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

## Hyfforddiant i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg | Amherthnasol | Sesiwn Briffio | Mathew Henshaw, Prif Swyddog Digidol | 11/02/25 | |
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023<br>Awst 2023 | | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2) | Medi 2023 | | | | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | | | | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | | | | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024 | Sesiwn Briffio | Zurich Resilience Solutions | Rhagfyr 2025 | |

Tudalen 138

## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |

**Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor**

| Teitl | Arwynebedd | Canolig | Darparwr | Dyddiad Darparwyd |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio. | Nodyn Briffio | CIPFA | 24/12/24 |
| Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell | Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Cylchlythyr | CIPFA | 07/02/25 |
| Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllaw poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025. | Nodyn Briffio | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr' | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau. | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus – Rheolau technoleg: pwysigrwydd cael polisi DA | Erthygl ar bwysigrwydd sefydliadau sydd â pholisi Deallusrwydd Artiffisial (DA). | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/07/25 |

Tudalen 139

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2024/25***
***Annual Cyber Security Report 2024/25***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| 14: Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).<br>18: Information relating to any action taken or to be taken in connection with the prevention, investigation or prosecution of crime. | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Information relating to the effectiveness of the Council's cyber security arrangements indirectly relates to the security of the public's personal and confidential data. There is a public interest in access to the information as the public may be considered to be stakeholders in the Council's cyber security. | Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>Gall hefyd ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau gweithredu'r Cyngor a gymerwyd mewn cysylltiad ag atal troseddu.<br><br>Placing information about the Council's cyber security arrangements into the public domain would be likely to increase the risk to the security of the Council's network and the integrity of its data. The information could be exploited by criminals and other parties who seek to undermine the Council's security measures. The likelihood of harm to the business affairs of the Council, arising from disclosure is high resulting in prejudice to the commercial and financial interests of the Council. The public interest in ensuring the security of data holdings is strong. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

Yn rhinwed paragraff(au) 14, 18 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank